MYNEGAI 'r BIBL CYSSEGRLAN,

neu Hanes y Pethau hynottaf yn Llyfrau 'r *Hen Deſtament* a'r *Newydd*; yn dangos pa Amſer y digwyddaſant, a pha Leoedd yn y 'Sgrythur y maent wedi eu goſod i lawr.

Oes gyntaf y Byd.

Geneſis i, a ii. 4004. *Blynedd cyn geni Criſt.* DUW yn y dechreuad yn creëu 'r nefoedd a'r ddaear, *&c.* a dŷn yn ddiweddaf oll ar ei ddelw ei hun.

iii. Dŷn yn cwympo o'i gyflwr cyntaf, eithr yn cael addewid am Jachawdwr o hâd y wraig.

iv. 1, 4003. Llenwi 'r byd yn gyntaf wedi bwrw Adda ac Efa allan o baradwys.

8. 3875. Cain ac Abel, yughŷlch yr amſer ymma yn offrymmu aberth. Lladd Abel gen ei frawd.

v. 3, 3874. Geni Seth.

6. 3769. Geni Enos.

iv. 26. Dynion ynghŷlch yr amſer ymma yn dechreu galw ar Enw 'r Arglwydd.

v. 9, 3679. Geni Cenan.

12, 3609. Geni Mahalaleel.

15, 3544. Geni Jered.

18, 3382. Geni Henoch, y ſeithfed o Adda.

21, 3317. Geni Methuſelah.

25, 3130. Geni Lamech, tad Noah.

5, 3074. Addaf yn marw, yn naw can mlynedd a deng mlynedd ar hugain oed.

23, 24, 3017. Cymmeryd Henoch i ſynu at Dduw yn y bummed flwyddyn a thrugain a thri chant o'i einioes.

8, 2962. Seth yn marw yn ddeuddeng mlynedd a naw can mlynedd oed.

28, 2948. Geni Noah, tad a phatriarch y byd newydd gwedi 'r diluw.

11, 2864. Enos, y trydydd o Adda, yn marw, yn bùm mlynedd a naw can mlynedd oed.

14, 2769. Cenan yn marw yn ddeng mlynedd a naw can mlynedd oed.

17, 2714. Mahalaleel, y pummed o Addaf, yn marw, yn bymtheng mlynedd a phedwar ugain ac wyth gan mlynedd oed.

20. 2582. Jered, y chweched o Addaf, yn marw, yn ddwy flynedd a thrugain a naw can mlynedd oed.

vi. 3. 2469. Duw yn gorchymmyn i Noah bregethu edifeirwch, 1 *Pedr* 3. 20. 2 *Pedr* 2. 5. ac adeiladu 'r arch ugain mlynedd a chan cyn y diluw.

v. 32. 2448. Geni Japheth i Noah yn fab pùm can mlwydd, a Sem ym mhen dwy flynedd ar ol hynny.

x. 21. 2353. Lamech, y nawfed o Addaf, yn marw, yn ddwy flynedd ar bymtheg a thrugain a ſaith can mlynedd oed. Efe yw 'r dŷn cyntaf y mae 'r 'Sgrythur yn dywedyd iddo farw o angau naturiol o flaen ei

v. 31, 27. dad.

2349. Methuſelah yn marw ychydig cyn y diluw, yn naw mlynedd a thrugain a naw can mlynedd oed. Efe oedd y dŷn hynaf.

vii. 11. Y diluw yn dyfod ar y ddaear yn y chwe' chanfed flwyddyn o fywyd Noah.

Ail Oes y Byd.

2348. Y Diluw yn llonyddu, a Noah (â'i dylwyth, a'r creaduriaid a ddug i mywn gyd ag ef) yn dyfod allan o'r arch, ac yn aberthu poethoffrwm. Duw, yr un amſer, yn gwneuthur cyfammod â Noah a'i had, gan addaw peidio diſtrywio 'r byd byth mwy trwy ddwfr, ac megis arwydd o hyn yn goſod yr enfys yn y cwmmwl. Noah yr un flwyddyn, yn plannu gwinllan ac yn meddwi.

Geneſis viii. 18. 20. ix. 9. 20.

2346. Geni Arphacſad. xi. 10.

2311. Geni Selah. 12,

2281. Geni Heber. 14,

2247. Geni Peleg, a enwyd felly o herwydd mai yn ei ddyddiau ef y rhannwyd y ddaear. 16,

2233. Hiliogaeth Nimrod ynghŷlch yr amſer hyn yn dechreu adeiladu dinas a thŵr Babel, a enwyd felly oddi wrth gymmyſgiad y jeithoedd a anfonodd Duw ym mhlith y gweithwyr. 4, 6, 8, 9.

2234. Nimrod, ynghŷlch yr amſer hyn, yn dechrau ymddyrchafu, trwy oſod ſail gyntaf unbennaeth Aſſyria. x. 8,

Adeiladu Ninife, mamddinas Aſſyria. 11.

2217. Geni Reu. xi. 18.

2188. Miſraim, ŵyr Cam, yn arwain trefedigion i'r Aipht, ac yn ſeilio teyrnas a barhaodd dros dair a thrugain a chwe chant a mîl o flynyddoedd, o'r hyn y gelwir yr Aipht Tîr Ham, ac yr ymffroſtiodd Pharaoniaid yr Aipht eu bod yn ſeibion hên frenhinoedd. Pſal. cv. 23. Eſay xix. 11. Gen. xi.

2185. Geni Serug. 20,

2155. Geni Nachor. 22,

2126. Geni Terah, tad Abram. 24,

2008. Peleg, y chweched o Noah, yn marw. 19,

2007. Nachor, y nawfed o Noah, yn marw. 25.

1998. Noah yn marw, yn naw can mlynedd a deng mlynedd a deugain oed, dry-chan mlynedd a deng mlynedd a deugain wedi 'r diluw. ix. 28, 29.

1996. Geni Abram. Yr oedd efe yn bymtheng mlwydd a thrugain oed pan ſu farw ei dad Terah yn ddau cant a phum mlwydd oed; felly fel na chenhedlodd Terah Abram yn y ddegfed flwyddyn a thrugain o'i oedran, eithr Nachor a Haran, ac yn y ddegfed flwyddyn ar hugain a chant o'i oedran a genhedlodd Abram. Edrych *Act.* 7. 4. xi. 32, 26,

1986. Geni Sarai gwraig Abram (a e.wir hefyd Iſcah) merch Haran, brawd Abram, ddeng mlynedd yn ol ei gŵr. 29, 30. xvii. 17.

1978. Reu, y ſeithfed o Noah, yn marw.. xi. 21,

1955. Serug, yr wythfed o Noah, yn marw. 23.

Geneſis xiv. 1, 2, 3, &c. 1925. Cedorlaomer brenin Elam, ynghŷlch y pryd hyn, yn daroſtwng brenhinoedd Sodoma, Gomorra, Adma, Seboim, a Bela, y rhai ſy 'n ei waſanaethu ef ddeuddeng mlynedd.

xi. 31. 1922. Terah a'i deulu yn gadael Ur y Caldeaid, ac yn trigo yn Haran.

Trydedd Oes y Byd.

xii. 1, 2, 3. 1921. *c. g. Criſt.* DUw yn gorchymmyn i Abram (wedi marw ei dad,) yn y bymthegfed flwyddyn a thrugain o'i oedran ſyned i wlâd Canaan, yr hon y mae Duw yn addaw ei rhoddi i'w hâd ef, ac y bendithid holl deuluoedd y ddaear yn ei hâd ef, *Ioſ*, Criſt Ieſu ein Harglwydd.

10. 1920. Y flwyddyn rhag wyneb, newyn yngwlâd Canaan yn peri i Abram â'i deulu ſyned i'r Aipht. O'r dyſodiad cyntaf hwn i'r Aipht hyd ymadawiad plant Iſrael o honi, y cyfrifir deng mlynedd ar hugain a phedwar can mlynedd.

Gal. iii. 17. Ecſod. xii. 40. Gen. xiii. Abram a Lot y flwyddyn hon yn dychwelyd i Ganaan, ond gan nad oedd y wlâd yn ddigon i'w haniſeiliaid hwy ill dau, y maent yn ymadael â'i gilydd. Lot yn myned i Sodoma. Duw yn adnewyddu 'r cyfammod i Abram. Yntef yn ſymmudo i Hebron, ac yn adeiladu allor yno.

xiv. 4, 1913. Bera brenin Sodoma, gyd â phedwar brenin arall, yn gwrthryſela yn erbyn Cedorlaomer, eithr a orchſygir ganddo yn nyffryn Sidim. Dala Lot yn garcharor. Abram yn ei achub ef, yn lladd Cedorlaomer a'r rhai oedd mywn cyngrair ag ef, ac wrth ddychwelyd yn cael ei fendithio gan

18, Melchiſedeg brenin Salem, ac offeirad Duw, i'r hwn y mae Abram yn rhoddi degwm.

20. Wedi i'w gyſranwyr gael eu rhannau, mae efe yn rhoddi y rhan arall o'r yſglyfaeth i frenin Sodoma.

xv. 2. Abram yn cwyno nad oedd gantho etifedd. Duw yn addaw mab iddo, ac amlhâu ei had ef. Addewid o wlâd Canaan drachefn, a'i gadarnhâu trwy arwydd.

xvi. 1, 2, 15. 1911. Sarai yn amhlantadwy, yn rhoddi Agar ei llawforwyn i Abram.

1910. Geni Iſmael mab Agar.

xi. 13. 1908. Arphacſad, y trydydd o Noah, yn marw.

xvii. 5. 1897. Duw yn gwneuthur cyfammod ag Abram, ac yn arwydd o fendith mwy, yn newidio ei enw ef yn Abraham. Ordeinio enwaediad megis sêl o'r cyfammod hwn. Newidio enw Sarai hefyd yn Sara, a'i bendithio. Duw yn addaw mâb iddynt, ac yn gorchymmyn galw ei enw ef Iſaac; Duw yn addo cadarnhâu ei gyfammod ynddo ef.

xviii. Abraham yn derbyn tri angel, y rhai ſy 'n adnewyddu 'r addewid iddo o gael mab. Duw yn rhybuddio Abraham am ddinyſtr Sodoma; ac Abraham yn eiriol ag ef dros Lot a'i deulu. Edrych *Gen.* 19. 29.

xix. Gorchymmyn i Lot, er mwyn achub ei hun, a'i deulu, ſyned allan o Sodoma, a ffoi i'r mynydd; eithr trwy fawr eiriol y mae 'n cael cennad i ſyned i Soar. Dinyſtrio Sodom a Gomorra, a holl ddinaſoedd dyffryn Sidim, a'i holl drigolion am eu pechodau aruthraf, â thân a brwmſtan o'r neſoedd. Y Môr marw yn aros yn goffadwriaeth o hono hyd heddiw. Troi gwraig Lot yn golofn halen, am edrych drach ei chefn, yng nghwrthwyneb i orchymmyn Duw; a Lot ei hun yn ofni aros yn Soar, yn gadael y gwaſdadedd, ac yn myned i'r mynydd, gan ddwyn ei ddwy ferch gyd ag ef.

1896. Geni Iſaac yn y ganfed flwyddyn o oedran Abraham. Ychydig yn ôl hynny y ganwyd Moab ac Ammon i Lot, ei feibion a'i wyrion heſyd. Geneſis xxi. 2. xix. 36.

1892. Bwrw Agar ac Iſmael allan ar ddymuniad Sara. xxi. 9.

1878. Selah, y pedwerydd o Noah, yn marw. xi. 15.

1871. Duw yn profi Abraham i aberthu Iſaac; Abraham yn dangos ei ffydd a'i uſydd-dod. xxii.

1859. Sara yn marw yn Hebron yng Nghanaan, yn y ganfed a'r ſeithfed flwyddyn ar hugain o'i hoes. xxiii.

1856. Iſaac yn priodi Rebecca merch Bethuel, mab Nachor, yn y ddeugeinfed flwyddyn o'i oedran. xxiv.

1846. Sem, mab Noah, yn marw. xi. 11.

1837. Geni Jacob ac Eſau yn y drugeinfed flwyddyn o oedran Iſaac eu tad. xxv. 24.

1821. Abraham yn marw yn gan mlynedd a phymtheng mlynedd a thrugain oed. 7.

1817. Heber, y pummed o Noah, yn marw; oddi wrtho ef y galwyd Abraham a'i hiliogaeth yn Hebreaid. *Gen.* 14. 13. xi. 17.

1796. Eſau yn ddeugain mlwydd oed yn priodi Judith ferch Beeri yr Hethiad, a Baſemath ferch Elon yr Hethiad. xxvi. 34.

1773. Iſmael yn marw, yn gant a dwy flwydd ar bymtheg ar hugain oed. xxv. 17.

1760. Jacob wrth addyſg ei fam, yn cael y fendith gan Iſaac ei dad, yr hon a amcaneſid i Eſau. Ar hyn y mae 'n gorſod arno ffoi i Feſopotamia, i ochelyd llid ei frawd. Rhagfynegi iddo mywn gweledigaeth ar y ffordd fendithion ei hiliogaeth. Yn dyſod o'r diwedd i dŷ ei ewythr Laban, ac yn ammodi ei waſanaethu ef ſaith mlynedd am ei ferch Rahel, eithr Laban yn ei ſiommi ef â Leah: wedi cyflawni wythnos y briodas, rhoddi Rahel heſyd yn wraig iddo, dan ammod gwaſanaethu ſaith mlynedd eraill. xxvii. xxviii. xxix.

Geni o Leah,

1758. Reuben, 32,

1757. Simeon, 33,

1756. Leſi, a 34,

1755. Juda, o'r hwn y mae 'r Juddewon yn derbyn eu henw. 35.

1745. Rahel, wedi bod yn hîr yn amhlantadwy, o'r diwedd yn dwyn Joſeph. Jacob yn deiſyfu cael myned ymmaith, yn cymmeryd ei berſwadio gan Laban i waſanaethu chwe blynedd eraill am ryw gyfran o'i braidd ef. xxx. 25.

1739. Jacob, wedi iddo fod ugain mlynedd ym Meſopotamia, yn myned rhagddo ar ei daith tu ag adref, heb fynegi i'w dâd na'i frodyr ynghyfraith; Rahel yn lladrata delwau ei thâd, ac yn cael ei chanlyn gan Laban. Jacob trwy ei gallineb yn ymgymmodi â'i frawd Eſau. Yn ymdrech ag angel ym Mhenîel, lle y gelwir ef Iſrael. xxxi. xxxii.

Torri morwyndod Dina merch Jacob ynghŷlch y pryd hyn gan Sichem fab Hemor. Simeon a Leſi brodyr Dina, yn dîal cam eu chwaer trwy ladd pob gwrryw i Sichem â'r cleddyf, am yr hyn y mae Jacob yn eu ceryddu. xxxiv.

Rahel yn eſgor ar Fenjamin ar y ffordd rhwng Bethel neu Fethlehem ac Ephrath, ac yn marw ar ei enedigaeth eſ. Rhai a dybiant ſyw o Job ynghŷlch yr amſer hyn. xxxv.

Juda yn gorwedd gyd â Thamar ei waudd wedi newid ei dillad. xxxviii. 16.

1729.

Geneſis xxxvii. 1729. Casâu Joſeph gan ei frodyr, a'i werthu i'r marchnadwyr, Iſmæliaid a Midianiaid, y rhai a'i dygant ef i'r Aipht, lle mae 'n cael ei werthu i Butiphar tywyſog Pharao, a'i wneuthur gantho ef yn olygwr ar ei dŷ.

xxxix. 1718. Joſeph yn gwrthwynebu profedigeuthau gwraig ei feiſtr; achwyn arno ef ar gam genthi, a'i fwrw yngharchar.

xl. Y mae efe yn deongli breuddwydion bwtler a phobydd Pharao, a'r rhai hynny yn dyfod i ben ar ôl ei ddeongliad ef.

xxxv. 28. 1716. Iſaac yn marw yn gan mlwydd a phedwar ugain oed, ac yn cael ei gladdu gan ei feibion Jacob ac Eſau.

xli. 25, 1715. Joſeph yn deongli dau freuddwyd Pharao, yn rhoddi cyngor i Pharao, ac yn cael ei oſod yn llywydd ar holl wlâd yr Aipht.

47, 50, Ymma y mae 'n dechrau y ſaith mlynedd o amldra yng ngwlâd yr Aipht. Geni yngh'lch yr amſer hyn i Joſeph ddau fâb, Manaſſeh ac Ephraim, o Aſnath ferch Potipherah offeiriad On.

54. 1708. Ymma y mae yn dechrau y ſaith mlynedd o newyn.

xlii. 1, 2, 3. 1707. Jacob yn anfon ei ddeg mab i'r Aipht i brynu ŷd. Joſeph yn eu carcharu hwy yn lle 'sbiwyr, ac yn eu rhyddhâu hwy dan ammod iddynt ddwyn Benjamin, ac yn cadw Simeon yn wyſtl.

xliii. Jacob yn ſlin jawn gantho ollwng Benjamin.

xlv. Joſeph yn ei hysbyſu ei hun i'w frodyr, ac yn danfon am ei dad trwy orchymmyn oddi wrth Pharao.

xlvi. 1706. Jacob, wedi offrymmu aberth i Dduw, am fod ei fab Joſeph etto yn fyw, yn myned â'i holl deulu i'r Aipht yn y drydedd flwyddyn o'r newyn, a'r ganfed a'r ddegfed flwyddyn ar hugain o'i oedran. Ei gyflëu ef yngwlâd Goſen.

xlvii. 1704. 1703. 1702. Joſeph yn cael holl arian, aniſeiliaid, a thiroedd yr Aiphtiaid am fara; yn unig y tiroedd yn perthyn i'r offeiriaid nid yw efe yn eu prynu.

xlviii. 1689. Jacob yn cymmeryd Ephraim a Manaſſeh yn feibion iddo ei hun trwy fabwyſiad, ac yn eu bendithio hwynt a'i feibion oll: yn prophwydo dyfodiad y Meſſiah o Juda, ac yn marw yngant a ſaith a deugain oed; dwy flynedd ar bymtheg o hynny y bu efe byw yn yr Aipht. Ei ddwyn ef â rhwyſg fawr i Ganaan, a'i gladdu yna medd ei dad.

l. 1635. Joſeph ar ei wely angau yn darogan i'w frodyr eu dychweliad i Ganaan; yn cymmeryd llw ganddynt am ddwyn ei eſgyrn o'r Aipht, ac yn marw yn ddengmlwydd a chant oed.

Y mae Llyfr Geneſis yn diweddu ym marwolaeth Joſeph, yn cynnwys Hiſtoria naw a thrugain a thri chant a dwy fil o flynyddoedd: yn neſaf at yr hwn mywn trefn amſer y mae Llyfr Job yn canlyn, a 'ſgrifennwyd (fel yr ydys yn credu yn gyffredin) gan Moſes.

Exodus vi. 16. 1619. Lefi yn marw yn yr Aipht yn gant ac onid tair blynedd deugain oed. Efe oedd taid Moſes ac Aaron.

i. 8. 1577. Ymma y mae yn dechrau gaethiwed plant Iſrael, pan gyfododd brenin yn yr Aipht, mid admbuáſai mo Joſeph.

vii. 7. 1574. Geni Aaron dair blynedd o flaen ei frawd Moſes, dair blynedd a phedwar ugain cyn ymadawiad plant Iſrael o'r Aipht.

1573. Pharao, wedi iddo yn ofer erchi i fydwragedd yr Hebreeſau ladd holl blant gwryw yr Iſraeliaid, ac ni's gwnaethant, yn gorchymmyn eu bwrw hwynt oll i'r afon. Exodus i. 15, 22.

1571. Geni Moſes, yr hwn wedi ei guddio mywn cawell yn yr heſg ar fin yr afon, y mae merch Pharao yn ei gael, ac yn ei wneuthur yn fâb iddi trwy fabwyſiad. ii. 1, 5,

1531. Moſes yn y ddeugeinfed flwyddyn o'i oedran, wedi lladd Aiphtwr a welaſai yn taro Hebrëwr, yn ffoi i Fidian, lle y mae efe yn priodi Sephora merch Reuel neu Jethro offeiriad, ac yn byw gyd ag ef ddeugain mlynedd. ii.

1530. Geni Caleb mab Jephunneh. Joſ. xiv. 7, 10.

1491. Pan oedd Moſes yn bugeilio deſaid ei chwegrwn ar fynydd Horeb, Duw yn ymddangos iddo mywn perth yn llo gi, ac yn ei anfon ef i waredu Iſrael. Exod. iii. 1, 2, &c. v.

Moſes ac Aaron, wedi iddynt fynegi i Pharao y gennadwriaeth yn yr hon y maent wedi eu hanfon atto ef oddi wrth Dduw, yn cael achwyn arnynt gantho ef megis rhai yn codi terfyſg, a'i hanfon ymmaith â flawer o eiriau drwg, a goſod gorthrymmach gwaith yn y ſan ar yr Iſraeliaid.

Moſes yn awr yn bedwar ugain, ac Aaron yn dair a phedwar ugain mlwydd, wedi eu cymmell gan Dduw, yn dychwelyd at Pharao, lle y mae 'r ſwynwyr wrth eu ſwynion, gan ddynwared gwyrthiau gwîalen Aaron wedi ei throi yn ſarph, yn gwneuthur Pharao yn wrthnyſiccach nag o'r blaen. O herwydd pa ham y mae Duw trwy law Moſes yn goſod deg pla ar yr Aipht. vii. 7. Pſalmau lxxviii. cv.

Pedwaredd Oes y Byd.

1491. *c. g. Criſt.* Ordeinio 'r Paſg ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis cyntaf (yr hwn ydoedd y pedwerydd o *Fai*, ar ddydd Llun gyd â ni) yn y cyfnos. Exod. xii. 11,

Ar y pymthegfed dydd o'r un mis ar hanner nos, wedi lladd cyntafanedig yr Aipht cymmain ûn, Pharao a'i weiſion yn bryſio i yrru 'r Iſraeliaid ymmaith, a hwynta o fywn corph y dydd y gollyngwyd o'i caethiwed, gan ſod yn gyflawn ysbaid deng mlynedd ar hugain a phedwar can mlynedd o bererindod cyntaf eu hynafiaid, gan eyfrif o ymadawiad Abraham o Haran, yn ſymmud ac yn myned ymmaith, gan fod ynghŷlch chwe chan mîl o wŷr heb law plant, ac yn dyfod i Rameſes, o ba le trwy amryw werſyllau y maent yn dyfod i'r Môr coch, a'r Arglwydd yn eu harwain mywn coloſn o niwl y dydd, ac mywn coloſn o dân y nôs. Y maent yn dwyn eſgyrn Joſeph gyd â hwynt. 29, 41. Num. xxxiii.

Pharao a'i lu yn eu goddiwes wrth y Mor coch; Moſes yn holltı'r dyfroedd â'i wialen, a meibion Iſrael yn myned trwyddo ar dîr ſych i anialwch Etham; y rhai pan ſynnai Pharao a'i fyddin eu canlyn, y maent yn cael eu gorchuddio i gyd gan y dyfroedd yn dyfod ar eu gilydd gyd â llug y dydd, trwy 'r hyn mae 'r Iſraeliaid yn cael eu rhyddhâu yn gwbl oddi wrth gaethiwed yr Aiphtiaid, celaneddau pa rai ran eu gwelant yn nofio ar wyneb yr holl fôr, ac wedi eu bwrw ar ſîn y môr, y maent yn canu cân a ſoliant a diolch i Dduw. Exod. xiv. xv.

Ar y pymthegfed dydd o'r ail mîs (y pedwerydd o'n *Mehefin* ni, ddydd Iou) yr Iſraeliaid yn dyfod i anialwch Sîn yr hwn ſydd rhwng Elim a Sinai, lle o eiſiau lluniaeth xvi.

y maent yn tuchan yn erbyn Duw a'i harweinwyr; Duw yn yr hwyr yn anfon iddynt ſofljeir, a'r borau drannoeth yn glawio arnynt fanna o'r nefoedd; ac ar y tath honno o fara y buant fyw wedyn dros ysbaid deugain mlynedd, ſef nes eu dyſod i gwr gwlâd Canaan. Cadw llonaid omer o hono eſ yn goffadwriaeth.

Ecſodus xvii. 1, Y bobl yn tuchan o eiſiau dŵr yn Rephidim, yr hwn oedd yr unſed lle ar ddeg o'i gwerſylliad: Moſes yn rhoi dŵr iddynt trwy daro 'r graig galed yn Horeb â'i lath.

8, 9, &c. Yr Amaleciaid wrth gwympo ar y tu cefn i'r Iſraëliaid yn cael eu gorchfygu gan Joſua, tra yw Moſes yn dal ei ddwylaw i fynu at Dduw mywn gweddi.

xx. Duw yn cyhoeddi ei gyfraith ſy 'n gynhwyſedig yn y deg gorchymmyn, â llais dychrynllyd o fynydd Sinai.

xxi, xxii, &c. Y bobl yn ofni 'n fawr, Duw yn rhoddi iddynt amryw gyfreithiau eraill, y rhai oll, wedi eu hyſgrifennu yn llyfr y cyfammod, y mae Moſes yn eu cynnyg i'r bobl. Wedi

xxiv. 4, gwneuthur hynny gan godi yn forau y mae eſe yn adeiladu allor wrth droed y mynydd, ac yn goſod i fynu ddeuddeg delw yn ol deuddeg llwyth Iſrael, ac yn anfon deuddeg o langciau o'r cyntafanedig (y rhai a gyſſegrafai 'r Arglwydd iddo ei hun, megis gweinidogion y pethau ſanctaiddiol hynny, cyn ordeinio offeiriadaeth y Leſiaid) y rhai ſy 'n offrymmu aberth, yn gyntaf dros bechod, ac wedyn o ddiolchgarwch i'r Arglwydd. A phan ddarllenodd Moſes lyfr y cyfammod, y mae eſe yn cymmeryd gwaed y lloi a'r geifr a offrymmwyd felly, gyd â dŵr, a gwlân porphor, ac iſop, ac yn ei daenellu ar y llyfr, a'r bobl oll, neu 'r deuddeg delw hynny yn eu hadgynnyrcholi hwynt; ac felly 'n cyflawni cyfammod arbennig rhwng Duw a'r bobl. Edrych *Heb.* 9. 19, 20.

9, 18. Moſes ac Aaron, Nadab ac Abihu, a deg a thrugain o wŷr, henuriaid Iſrael, yn myned i fynu i'r mynydd, ac yno yn gweled gogoniant Duw: y rhai eraill yn dychwelyd, a Moſes a'i weinidog Joſua yn aros yno yn waſtad, ac yn diſgwil chwe niwrnod, a Duw ar y ſeithfed dydd yn llefaru wrtho, ac ynau yn aros yno ddeugain niwrnod a deugain nôs (gan gyfrif y chwe niwrnod hynny y bu eſe 'n diſgwil wrth ymddangoſiad yr Arglwydd) heb fwyta dim bwyd trwy 'r holl amſer hynny nac yfed dwfr (*Deut.* 9. 9.) lle y mae eſe yn derbyn gorchymmyn Duw am ffurf y babell, gwiſgoedd yr offeiriaid, eu cyſſegriad, eu haberthau, a phethau

xxv, &c. eraill a gynhwyſir yn y bennod hon a'r

xxxi. 18. chwech neſaf.

Duw yn niwedd y deugain diwrnod yn rhoddi i Foſes ddwy lech y gyfraith wedi eu gwneuthur gan Dduw o gerrig a'i 'ſgrifennu â'i fys ei hun; gan erchi iddo hefyd fyned i wared yn fuan, o achos i'r bobl

xxxii. wneuthur iddynt eiſioes lo tawdd i'w addoli. Moſes trwy weddi yn llonyddu Duw, ac yn myned i wared o'r mynydd, ac yn gweled y bobl yn cadw gŵyl mywn anrhydedd i'w heilun yn y gwerſyll, yn torri llechau 'r gyfraith îs law 'r mynydd, am yr hyn y mae 'r Juddewon yn cadw gŵyl arbennig hyd heddiw.

20, 28. Moſes wedi lloſgi ac anurddo 'r eilun, yn lladd ynghŷlch tair mil o'r eilunaddolwyr trwy ddwylaw 'r Leſiaid.

Duw yn gorchymmyn i Foſes naddu llechau newyddion o gerrig, a dyfod a hwy gantho i'r mynydd: Moſes yn dyfod a hwy y borau drannoeth, a thra yw eſe yn ſefyll o fywn agen yn y graig, Duw yn myned heibio, ac yn dangos iddo gip golwg o'i ogoniant. Ecſodus xxxiv.

Duw yn adnewyddu ei gyfammod â'i bobl, ac ar ryw ammodau yn rhoi iddynt ei gyfraith dracheſn. 10.

1490. Gorphen y tabernacl, arch y cyfammod, yr allor, bwrdd y bara goſod, gwiſgoedd yr offeiriaid, yr ennaint ſanctaidd, y canhwyllbren, ac offer a lleſtri eraill perthynol i'r aberthau, yn y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn hon yn anialwch mynydd Sinai, a'i dwyn at Foſes. xxxix.

Codi 'r tabernacl, a'i enneinio â'r olew ſanctaidd; cyſſegru Aaron a'i feibion i'r offeiriadaeth. xl.

Taraw Nadab ac Abihu yn feirw yn y fan â thân o'r nefoedd am offrymmu tân dieithr. Lef. x.

Tywyſogion y llwythau yn dyfod â'i hoffrymmau tu ag at gyſſegru 'r tabernael. Duw yn llefaru wrth Foſes o'r drugareddfa. Num. vii.

Ordeinio 'r ail Baſg. ix.

Jethro, yr hwn helyd a elwir Hobab, yn dwyn ei ferch Sephora, a'i dau fab Gerſom ac Eliezer a adewſid gyd ag ef, at Foſes ei ddaw, a chwedi cydlawenychu am ei wared ef a holl bobl Iſrael o gaethiwed, y mae eſe 'n mynegi ar gyhoedd ei ffydd a'i ddefoſiwn yn y Duw byw. Moſes wrth ei gyngor eſ yn cyfrannu llywodraeth y bobl i rai eraill, ac yn ordeinio ſwyddogion i farnu pethau bychain. x. 29. Ecſodus xviii.

Moſes yn cwyno wrth Dduw o ran gormod baich ei lywodraeth; Duw i'w eſmwythâu ef o'i ofal, yn rhoi yn gymmorth iddo lys y deg a thrugain o henuriaid. Num. xi

Y bobl yn blyſio cîg; Duw yn rhoddi iddynt ſofljeir yn ei ddigllonedd, ac yn anfon heſyd bla tra gorthrwm yn eu plith hwy. 31.

Duw yn ceryddu cynnen Miriam ac Aaron, ac yn maentumio braint Moſes. xii.

Anfon deuddeg gŵr o Anialwch Paran yn gyfagos i Gadesbarnea (ym myſg y rhai y mae Caleb a Joſua) i edrych gwlâd Canaan. Y maent wrth ddychwelyd yn dwyn ganddynt gangen o winwydden a ſwp o rawnwin arni; deg o'r deuddeg a ddanfonaſid felly yn dywedyd yn ddrwg am y wlâd, yn mynegi ei bod yn ddiffrwyth, ac yn mawrygu 'r dinaſoedd am eu cryfder, a'r preſwylwyr am eu corpholaeth fel cewri. xiii.

Y bobl, gan ddychrynu wrth y newydd ymma, ar fedr dychwelyd i'r Aipht: Caleb a Joſua wrth geiſio 'u llonyddu hwynt, yn debyg i gael eu llabyddio. Duw yn digio cymmaint am hyn a'i fod yn bwgwth eu diſtrywio hwynt; eithr ar weddi Moſes yn eu harbed. Er hynny y mae eſe 'n dadgan y caiff pawb ag y ſy 'n awr yn ugain mlwydd ac uchod (ond Caleb a Joſua) farw yn yr anialwch. Y gwŷr a roiſant anglod i'r tîr yn meirw cymmain un o angau diſyfed. Y bobl a ſynnai oſod ar y wlâd yn erbyn ewyllys Duw, yn cael eu taro gan yr Amaleciaid a'r Canaaneaid. xiv

1489. Yn y lle ymma, *ſef*, Cadesbarnea, y mae'r Iſraëliaid yn aros lawer o ddyddiau; eithr y mae 'n ymddangos, iddynt aros mywn rhyw leoedd lawer o flynyddoedd, o blegid ni chrybwyllir yn ysbaid dwy flynedd ar bymtheg ar hugain ond am ddwy werſyllfa ar bymtheg. Deut. i. 46.

1471.

Num. xxxiii. xvi. xvii. xx. 1, 5 12, 23, 28. Joan iii. 14. 1 Cor. x. 9. Num. xxi. 21, 33. xxii. 1, 2, 3. Deut. i. 4. Jos. xxiv. 9.

1471. Am eu hîr drigiad yng Nghades, a'r gwersyllfeydd oddi yno, y cwbl ag ydym ni 'n gael yn grybwylledig yn y bymthegfed bennod a'r pedair pennod nesaf yn canlyn o Numeri, a dybygid fod yn dangos megis pa fodd y llyngcodd y ddaear Gora, Dathan, ac Abiram yn fyw am godi terfysg yn erbyn Moses ac Aaron, ac y diſaodd tân y dau cant a deg a deugain o wŷr oedd yn offrymmu 'r arogldarth, a pha fodd y dinyſtriodd Duw bedair mil ar ddeg a ſaith gant o'r bobl am rwgnach yn erbyn Moſes ac Aaron, o blegid yr aflwydd a ddigwyddaſai i'r brodyr, a pha fodd wedi dwyn deuddeg gwîalen gan ddeuddeg o dywyſogion, a'i goſod yn y gyſſegr, y blaguraſai gwîalen Aaron yn unig, ac y dygaſai almonau, ac y gadawyd hi ger bron yr arch yn lle coffadwriaeth yn erbyn gwrthryſelwyr wedyn.

1452. Yn y ddwy flynedd ar bymtheg ar hugain hyn y mae 'r Iſraëliaid trwy ddwy wersyllfa ar bymtheg wedi amgylchu mynydd-dir Seir ac Edom, yn dyfod i anialwch Sin yn y mis cyntaf o'r ddeugeinfed flwyddyn wedi eu hymadawiad o'r Aipht.

Ymma y bu farw Miriam, chwaer Moſes ac Aaron.

Y bobl yn tuchan drachefn o eiſiau dwfr yn erbyn Moſes ac Aaron, y rhai pan orchymmynaſai Duw iddynt alw am ddwfr o'r graig yn unig trwy lefaru wrthi, Moſes wedi cythruddo yn ei ſeddwl trwy annioddefgarwch a gwan-gredu 'r peth, yn camddywedyd rhywbeth, beth bynnag oedd, â'i wefuſau, ac yn taraw 'r graig ddwywaith a gwîalen Aaron, ac wrth hynny yn tynnu dwfr o honi, eithr am droſeddu gorchymmyn Duw, yn cael eu hattal ill dau rhag myned i wlâd Canaan.

Aaron yn marw yn y pummed mis o'r flwyddyn hon ym Moſera, ar ben mynydd Hor, yn gan mlwydd a thair ar hugain oed, gan adael ei fab Eleazar yn archoffeiriad yn ei le ef.

Y bobl yn tuchan ac yn cael eu brathu gan ſeirph tanllyd, o ba achos y mae llawer yn marw; Duw ar eu hedifeirwch yn gorchymmyn gwneuthur ſarph bres, a'i dyrchafu ar droſtan, fel y byddo byw cynnifer ag a edrychant arni.

Ynghŷlch diwedd y flwyddyn hon, wedi llwyrddarfod a marw pawb o'r rhai a wrthryfelaſent yn erbyn Duw yng Nghades-barnea, y mae 'r Iſraëliaid yn myned dros Zared, ac yn dyfod i derſynau Moab wrth Ar, ac o'r diwedd yn dyfod i Famoth, dyffryn yngwlâd Moab, ac yn gwerſyllu ym mynydd Piſgah.

1451. Sehon, brenin yr Amoriaid, yn nacâu ffordd iddynt trwy ei wlad ef, yn cael ei ladd, a'r Iſraëliaid yn goreſgyn ei dir ef.

Og, brenin Baſan, yn dyfod allan yn erbyn Iſrael, yn cael ei ddinyſtrio, a'i holl bobl, fel na adawyd iddo ef weddill; a'r Iſraëliaid yn perchennogi ei dir ef.

Yr Iſraëliaid, wedi 'r buddugoliaethau hynny, yn cychwyn ac yn gwerſyllu yn rhoſydd Moab.

Balac, brenin Moab, yn yſtyried yr hyn a wnaethai 'r Iſraëliaid i'r Amoriaid, yn oſni; rhag dan eſgus myned trwy ei wlâd ef, y goreſgynnent ei holl frenhiniaeth ef, yn ymgynghori â thywyſogion y Midianiaid ei gymmydogion, ac yn anfon am Balaam, dewin o Peſoporamia, i ddyfod i ſelldithio 'r Iſraëliaid, gan addaw iddo wobr mawr am ei boen; gan ſwriadu wedyn wneuthur rhyſel arnynt.

Balaam, wedi ei ragrybuddio gan Dduw, yn nacâu ar y cyntaf ddyfod, ond wedi anfon am dano yr ail waith, yn ymbil â Duw am gael myned, ac yn myned ar amcan yn wîr i felldithio Iſrael; eithr Duw yn anfodlon i hynny, yn peri i aſen fud y ſwynwr ymma, ar yr hon y marchocaodd efe, gan ddywedyd â llef ddynol, geryddu ei ynfydrwydd ef.

Balaam ddwywaith yn offrymmu offrwm, ac yn ceiſio melldithio Iſrael i fodloni Balac; ond wedi peri iddo gan Ysbryd Duw, yn lle melldithio, y mae efe 'n eu bendithio 'n gwbl, gan ragſynegi pa lwyddiant a'i dilynai, a pha aflwydd a ddigwyddai i'w gelynion.

Goſod gwragedd Moab a Midian trwy ei gyngor et ar waith i droi 'r Iſraëliaid i eilunaddoliaeth. Duw am hynny yn gorchymmyn i Foſes yn gyntaf gymmeryd holl flaenoriaid yr aflodraeth hon, a'i crogi ar gyfer yr haul, ac yna 'n erchi i'r barnwyr roddi pob rhai i farwolaeth a ymgyfeillaſant â Baal-peor. Yn ddiwaethaf oll y mae Duw yn anfon pla ar y bobl, o'r hon y bu feirw dair mil ar hugain mywn un dydd, y rhai trwy eu chwanegu at y rhai a grogwyd ac a laddwyd â'r cleddyf, a gyrhaeddant i gyd i bedair mil ar hugain.

Phinees, mab Eleazar fab Aaron yr offeiriad, trwy ladd Zimri, pennaeth ty ei dad, a Chozbi merch Sur, pen-cenedl o dŷ mawr ym Midian, yn llonyddu digofaint Duw, a'r pla yn peidio. Duw am hynny yn ſicrhâu 'r archoffeiriadaeth yn dragywydd ar dŷ Phinees, ac yn gorchymmyn rhyfela â'r Midianiaid.

Moſes ac Eleazar wrth orchymmyn Duw yn rhoſydd Moab, wrth yr Iorddonen ar gyfer Iericho, yn rhifo 'r bobl o fab ugain mlwydd ac uchod, ac yn eu cael yn chwe chan mil a mil a ſaith gant a deg ar hugain o wŷr, heb law 'r Lefiaid, rhifedi pa rai, gan eu rhifo o fab miſyriad ac uchod, ſy'n dyfod i dair mil ar hugain; ac yna Moſes yn cael gorchymmyn i gyfrannu tîr yr addewid rhwng yr Iſraëliaid.

Merched Salphaad yn cael cyfrannu tîr eu tâd rhyngddynt o ddiffyg etifedd gwrryw; hyn yn achos gwneuthur cyfraith etifeddiaethau.

Duw yn rhybuddio Moſes am ei farwolaeth; ac ar hynny yn appwyntio Joſua i gael ei le ef, ar yr hwn y mae Moſes yn goſod ei ddwylaw, ac yn rhoi iddo gynghorion. Gwneuthur amryw ddeddfau.

Deuddeng mil o'r Iſraëliaid dan orchymmyn Phinees yn gorchſygu 'r Midianiaid, ac yn lladd pob gwrryw a'r cleddyf yn eu plith hwynt, a'i pùm tywyſog, ac yn eu myſg hwy Sur tâd Cozbi, a Balaam y ſwynwr; eithr y maent yn cadw 'r gwragedd yn fyw, am hynny Moſes yn digio ac yn gorchymmyn lladd pob plentyn gwrryw, a phob benyw ond y rhai ſy a'i morwyndod ganddynt.

Y tiroedd oedd yn perthyn i Sehon ac Og, ſef y cwbl o Arnon i ſynydd Hermon, y mae Moſes yn eu rhannu ac yn eu rhoi i lwyth Reuben a Gad, a hanner llwyth Manaſſeh; fel y mae eu meddiannau hwy yn aros y tu ymma i'r Iorddonen; etto y maent hwy 'n cynnorthwyo 'r llwythau eraill yn eu holl ryfeloedd, hyd oni orchfygaſant y Canaaneaid, a meddiannu tîr yr addewid.

Num. xxii. 7, 35. 2 Pedr ii. 15. 16. Num. xxiii. Deut. xxiii. 5. Joſ. xxiv. 10. Num. xxv. 1, 2, 3, &c. Deut. iv. 3. Pſal. cvi. 28. Dadg. ii. 14. 1 Cor. x. 8. Num. xxv. Pſal. cvi. 30. Num. xxv. 12. xxvi. xxvii. 1, 2, Deut. iii. 26, 27, 28. Num. xxxi. Joſ. xiii. 21, 22. Num. xxxii. Deut. iii. Joſ. xiii. a xxii.

Deut. xxvii. Moſes yn gorchymmyn i'r bobl wrth ſyned dros yr Iorddonen, oſod cerrig mawrion, a 'ſgrifennu 'r deg gorchymmyn arnynt, gyd â ffurf y ſendith ar ſynydd Garizim, a'r felldith ar ſynydd Ebal, gan eu cynghori i gadw cyfraith Dduw, trwy oſod ger bron eu llygaid y bendithion a ddeuai o hynny.

xxix. Y mae efe heſyd yn adnewyddu 'r cyfammod a ammododd Duw â hwy a'i plant ar ſynydd Horeb, a thracheſn yn eu cynghori i gadw 'r gyfammod honno wrth yr holl fendithion a'r melldithion a ganlynai 'n ddiau 'r ſawl a'i cadwai neu a'i torrai: etto gyd ag addewid o faddeuant ac ymwared, o's un amſer wedi ei thorri yr ediſarhaent am eu pechod, ac yn dywedyd iddynt ymhellach ddarfod i Dduw ſynegi ſel hyn ei ewyllys iddynt, fel na bo i neb a droſeddo rhag llaw, wneuthur eſgus anwybodaeth.

xxx. Moſes, wedi 'ſgrifennu 'r gyfraith hon, yn ei rhoi i'r offeiriaid, meibion Lefi, a henuriaid y bobl i'w chadw; yr un dydd hefyd y mae efe 'n 'ſgrifennu ei gân odidocaf, ac yn ei dyſgu i blant Iſrael i'w chanu: a chwedi gorphen Llyfr y gyfraith, y mae efe 'n trefnu ei oſod ef ar yſtlys yr arch.

xxxii. Moſes bellach yn nesâu at ei ddiwedd, yn bendithio pob llwyth yn neillduol, trwy ffordd o brophwydoliaeth, ond llwyth Simeon yn unig.

xxxiv. Yn y deuddegfed mîs o'r flwyddyn hon y mae efe yn eſgyn i ſynydd Nebo, ac oddiyno yn gweled Gwlâd yr addewid, ac yn marw yno yn ugain mlwydd a chant oed. Mae Duw yn ſymmud corph Moſes o'r lle y bu efe farw i lyn yn nhir Moab gyferbyn a Bethpeor, ac yn ei gladdu ef yno, ac nid edwyn neb y fan lle y goſododd efe ef hyd y dydd hwn. Yr Iſraeliaid yn galaru am dano dros ddeng niwrnod ar hugain.

Ymma y mae 'r Pentateuch neu bùm llyfr Moyſen yn diweddu, yn cynnwys Hiſtoria dwy fil a phùm cant a deuddeng mlynedd a deugain a hanner, o ddechrau 'r byd; a Llyfr Joſua yn dechrau gyd â 'r unfed flwyddyn a deugain yn ôl ymadawiad plant Iſrael o'r Aipht.

Joſ. ii. Joſua, wedi ei ſicrhâu yn ei lywodraeth gan Dduw, yn anfon allân ysbiwyr o Sittim i ddinas Jericho, y rhai wedi llettya gyd â Rahab, ſy'n cael eu hanfon ymmaith yn ddirgel pan ydys yn ymoſyn am danynt.

iii. Ar y degfed dydd o'r mis cyntaf (y 30 o *Ebrill*) ſef y dydd yr oedd yr Oen Paſg i'w ddewis o'r praidd, yr Iſraeliaid dan dywyſogaeth Joſua, arwydd o Jeſu Griſt, yn myned i'r lan o afon y Jorddonen i Ganaan, gwlâd yr addewid, arwydd o neſolach gwlâd. Maent yn myned trwy 'r afon ar dir ſych, a'r dyfroedd y pryd hynny wedi holldi; Joſua, er coffadwriaeth am y rhyfeddol ſyneddiad hwn, yn goſod i ſynu ddeuddeg carreg ynghanol y Jorddonen, a chan gymmeryd deuddeg eraill o gerrig o'i chanol hi yn eu ſefydlu yng Ngilgal, lle maent yn gwerſyllu neſaf.

v. Joſua drannoeth yn adnewyddu arfer yr enwaediad a adawſid heibio ddeugain mlynedd.

10, Yr Iſraeliaid, ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r un mis brydnhawn, yn cynnal eu Paſg cyntaf yng ngwlâd Canaan.

11, 12, Y manna yn peidio drannoeth wedi 'r Paſg.

13. Fin Harglwydd Jeſu, tywyſog llu 'r Arglwydd, yn ymddangos i Joſua yr Jeſu cyſgodol, o flaen Jericho, a chleddyf noeth yn ei law, ac yn addaw yno amddiffyn ei bobl.

Ennill Jericho ar y ſeithfed dydd, wedi dwyn arch yr Arglwydd o'i hamgylch, ei mur yn ſyrthio i lawr, wrth lais udgyrn yr offeiriaid; lladd ei holl breſwylwyr â'r cleddyf, ond Rahab a'i theulu. Joſ. vi.

Yr Iſraeliaid yn gwarchae ar Ai, ac yn cael eu taraw gan eu gelynion, wedi i Dduw eu gadael o achos cyſlegredrad Achan; dadguddio pechod Achan wrth ſwrw coelbrennau, a'i gael ef ei hun yn euog, ei labyddio i farwolaeth, a'i loſgi â thân ynghŷd â'i blant a'i anifeiliaid, a'r hyn oll a feddai. Wedi llonyddu Duw â hyn, ennill Ai trwy gynllwyn, a'i difetha 'n llwyr. vii. viii.

Codi allor ar ſynydd Ebal yn ôl y gyfraith a wnaethpwyd, a 'ſgrifennu 'r deg gorchymmyn arni; adrodd y bendithion a'r melldithion ar ſynydd Ebal a mynydd Garizim, a darllen llyfr y gyfraith ynghluſtiau 'r bobl. 30, 35.

Brenhinoedd Canaan yn ymwneuthur yn erbyn Iſrael; y Gibeoniaid yn unig yn dwyllodrus yn cael ffordd i gadw eu bywyd eu hunain trwy wneuthur cyfammod â hwynt, eithr yn cael eu rhwymo gwedyn i ſwyddau gweiſion ty Dduw. ix.

Adoniſedec, brenin Caerſalem, ynghŷd â brenhinoedd Hebron, Jarmuth, Lachis, ac Eglon, gan glywed i Ibeon ſyrthio ymmaith oddi wrthynt, yn uno 'u byddinoedd ynghŷd, ac yn gwarchae arni; eithr Joſua yn codi 'r warchae, yn erlid y pùm brenin hynny ac yn eu taraw hwynt hyd Azecah, yr Arglwydd yn y cyfamſer yn lladd mwy â cherrig cenllyſg o'r neſoedd nâ meibion Iſrael â'i cleddyfau. Joſua yn gorchymmyn i'r haul aros yng Ngibeon, a'r lleuad yn nyffryn Ajalon, dros ym mron diwrnod cyfan, nes i'r Iſraeliaid ddial yn llwyr ar eu gelynion. Y pùm brenin yn ymguddio mywn ogof ym Maccedah; eu dwyn allan oddi yno, eu diyſtyrru, a'i crogi. 9, 10, 12, 15, 30.

1450. O hydref y flwyddyn hon, ym mha un, wedi i'r manna ddarfod, y maent yn dechrau llafurio 'r ddaear, y mae cymmeryd codiad y flwyddyn ſabbothaidd. Ecſod. xxiii. 10. 11.

1445. Duw yn gorchymmyn i Joſua wedi iddo 'n awr fyned yn hên, rannu 'r holl wlâd o du gorllewin y Jorddonen, rhwng y naw llwyth ſy 'n aros a'r hanner arall o lwyth Manaſſeh. Yr Arglwydd a'i aberthau yw etifeddiaeth Lefi. Joſ. xiii. 31.

Y brenhinoedd eraill, â pha rai y cynhaiodd Joſua ryfel dros chwe blynedd, yn bwriadu goſod arno ef â byddinoedd unedig, eithr y mae Joſua yn dyſod am eu pennau yn ddirybudd, yn eu lladd, ac yn meddiannu eu gwledydd. v. 1, 2, 3, vi. 4.

Joſua yn awr yn diwreiddio 'r cewri hynny, yr Anaciaid a'i dinaſoedd, ymmaith o'r Mynydd-dir, o Hebron, Debir, ac Anab, a chan mwyaf o holl ſynyddoedd Juda a holl Iſrael. Ac wedi ennill yr holl wlâd i'w ddwylaw, yn ei rhannu rhwng meibion Iſrael yn ôl eu llwythau, a'r wlâd yn gorphwys heb ryfel. xi. xiv. xv. v. 31. vi.

1444. Y flwyddyn ſabbothaidd gyntaf, neu flwyddyn gorphwyſfa; oddi ymma y mae cyfrif y flwyddyn Jubili, neu bob degfed flwyddyn a deugain.

Goſod y tabernacl i ſynu yn Siloh (a dybir mai 'r un yw a Salem) lle 'r arhoſodd dri chant ac wyth mlynedd ar hugain. xviii.

Anſon

Jol. xxii. Anſon y Reubeniaid, y Gadiaid, a hanner llwyth Manaſſeh adref i'w meddiannau y tu arall i'r Jorddonen, a'i bendithio.

xxiii. 1443. Joſua yn caſglu holl Iſrael ynghŷd,
xxiv. yn eu hannog i ufydd-dod, yn adrodd yn fyr tendithion Duw iddynt, yn adnewyddu cyfammod rhyngddynt hwy a Duw, ac yn marw yn ſab deng mlwydd a chant oed.

Barn. ii. 7. 1413. Wedi marw Joſua, a'r henuriaid, y rhai a fu fyw ar ei ol ef, a'r rhai oedd yn cofio 'r rhyfeddodau a wnaethai Duw dros Iſrael, oes arall yn canlyn o ddynion yn anghofio Duw, ac yn ymgymmyſgu â'r Canaaneaid trwy briodaſau, ac yn addoli eu heulynnod. Yn amſer yr aflwodraeth a'r anhreſn hyn, pan wnai pob un yr hyn a dybygai oedd union yn ei olwg ei hun, y gwnaethpwyd yr holl anllywodraeth a adroddir yn y pùm pennod olaf o lyfr y Barnwyr; ſef, Eulynaddoliaeth Micah a meibion Dan, rhyfel y Benjaminiaid, ac achos hynny. Duw wedi digio 'n fawr, yn eu rhoi i fynu i ddwylaw Cuſan Riſathaim brenin Meſopotamia, yr hwn adfyd cyntaf o'r eiddynt mid yw 'n eu cadw ond wyth mlynedd.

9, 1405. Othniel mab Cenaz, a mab ynghyſraith Joſua, wedi ei godi i fyny gan Dduw megis barnwr a dialydd ei bobl, yn diddymmu Cuſan Riſathaim, ac yn gwaredu Iſrael o gaethiwed, a'r wlâd yn cael llonydd ddeugain mlynedd, yn ol y llonydd cyntaf a ennillodd Joſua iddynt.

12, 1343. Othniel yn marw, a'r Iſräeliaid yn ſyrthio drachefn i bechu yn erbyn Duw, ac yn cael eu rhoi i fynu i ddwylaw Eglon brenin Moab, yr hwn gan ymgyſylltu â'r Ammoniaid a'r Amaleciaid, ſy 'n cwympo 'r Iſräeliaid ac yn ennill Jericho; a'r ail orthrymder ymma yn para ddeunaw mlynedd.

15, 1325. Codi Ehwd mab Gera gan Dduw i
30. ſod yn ddialydd ei bobl, yr hwn trwy gymmeryd ſod ganddo air o gyfrinach ag Eglon, ſy 'n ei frathu ef yn ei botten â'i ddager, yna wedi myned ymmaith y mae 'n caſglu holl Iſrael ynghŷd i fynydd Ephraim, ac yn lladd ynghŷlch deng mil o wŷr cryfion o'r Moabiaid, a'r wlâd yn cael llonydd bedwar ugain mlynedd wedi 'r llonydd cyntaf a ennillodd Othniel.

31. Ar ei ôl ef Samgar mab Anath yn lladd chwe chant o'r Philiſtiaid ag irai ychen; yntef hefyd yn gwaredu Iſrael.

v. 1, 2, 3, 1305. Yr Iſräeliaid wedi marw Ehwd, yn dychwelyd at eu hên bechod, ac yn cael eu rhoi i fynu gan Dduw i law Jabin brenin Canaan; a'r caethiwed ymma yn para arnynt ugain mlynedd.

4, 1285. Debora, gwraig Lapidoth, prophwydes, yr hon yr amſer ymma ſy 'n barnu Iſrael ym mynydd Ephraim, a Barac o lwyth Nephtali, wedi ei wneuthur yn dywyſog llu Iſrael, yngolwg Megido, yn gorchfygu Siſara tywyſog llu Jabin, yr hwn y mae Jael gwraig Heber y Cenead yn ei ladd wedyn yn ei phabell ei hun. Debora yn gwneuthur cân er coffadwriaeth am y fuddugoliaeth hon, a'r wlâd yn cael llonydd ddeugain mlynedd yn ôl y llonydd cyntaf a fynnodd Ehwd.

v. 31. vi. 1252. Yr Iſräeliaid yn pechu drachefn, yn cael eu rhoddi yn llaw 'r Midianiaid; y pedwerydd caethiwed ymma yn para ſaith mlynedd. Ar hyn y maent yn llefain ar Dduw am gymmorth, a phrophwyd yn eu ceryddu. Yna anfon Gedeon fab Manaſſeh ganangel Duw i'w gwaredu hwynt. Efe yn gyntaf yn bwrw i lawr allor Baal, ac yn lloſgi ei lwyn ef, ac yn cael ei alw Jerubbaal. Efe yn dewis tri chant yn unig (a Duw yn gorchymmyn felly) allan o ddeuddeng mil ar hugain o wŷr a ddaethent atto ef; eithr â hwy y mae efe yn gyrru holl lu y Midianiaid i ffoi, y rhai y mae 'r Ephraimiaid gwedyn yn eu herlid, ac yn lladd eu tywyſogion Oreb a Zeeb. Gedeon, wedi llonyddu gwŷr Ephraim, y rhai a achwynaſant am na's galweſid i'r frwydr ar y cynraf, yn myned dros afon y Jorddonen, ac yn gorchfygu gweddillion byddin y Midianiaid; y mae efe hefyd yn ceryddu gwŷr Succoth a Phenuel y rhai a ballaſant iddo luniaeth ar ei daith; ac yn lladd dau frenin Midian Zeba a Salmunna. Yn ôl y buddugoliaethau mawrion hyn, yr Iſräeliaid yn cynnyg ſicrhäu 'r frenhiniaeth arno ef a'i hiliogaeth, yntau yn eu gwrthod hi; eithr wedi derbyn eu cluſtdlyſau aur, y mae 'n gwneuthur o honynt Ephod, yr hyn wedyn ſy 'n achos o ddelwaddoliaeth. Wedi goreſgyn y Midianiaid ſel hyn, y mae 'r wlâd yn cael llonydd ddeugain mlynedd wedi 'r llonydd a adferwyd iddynt gan Ddebora a Barac.

Barn. viii. viii.

33. 1236. Gedeon yn marw, a'r Iſräeliaid yn dychwelyd i ddelw-addoliaeth, yn addoli Baalberith yn lle eu duw.

ix. 1, 2, &c. Abimelech, mab Gedeon (o'i ordderchwraig) yn amcanu mynnu iddo ei hun y frenhiniaeth a wrthodaſai ei dad, yn lladd dengwr a thrugain o'i frodyr cymmain un ar un garreg, a chwedi cael trwy help gwŷr Sichem ei wneuthur yn frenin, Jotham mab jeuangaf Gedeon, yr hwn yn unig a ddiangaſai rhag dipllonedd Abimelech, o ben mynydd Garizim yn ymliw â hwy am y cam a wnaethent â thŷ ei dad ef; a thrwy ffordd o ddammeg yn rhagfynegi eu cwymp hwy, ac wedi gwneuthur hynny yn ffoi ac yn trigo 'n llonydd ym Meer.

23, 1233. Wedi i Abimelech deyrnaſu ar Iſrael dair blynedd, Gaal y Sichemiad yn cydfwriadu yn ei erbyn ef; yntef wedi dadguddio hynny iddo gan Zebul, yn llwyr ddinyſtrio dinas Sichem, ac yn lladd ei holl breſwylwyr â'r cleddyf, ac yn lloſgi temi eu duw Berith â thân, oddi yno y mae yn myned ac yn gwarchae ar Debes, lle y mae
50. efe yn cael ei daro ar ei ben a darn o faen
2 Sam. melin a daflodd gwraig arno oddi ar y mur,
xi. 21. ac yna 'i ladd yn gwbl gan ei langc oedd yn dwyn ei arfau ef.

Barn. x. 1, 2, 1232. Tolah, mab Puah, ar ôl Abimelech, yn barnu Iſrael dair blynedd ar hugain.

3, 1210. Jair y Gileadiad yn dyfod yn lle Tolah, ac yn barnu Iſrael ddwy flynedd ar hugain.

8, 1206. Yr Iſraeliaid wedi gwrthod y gwîr Dduw etto, yn cwympo i addoli duwiau amryw genhedloedd, ac yn cael eu rhoi i fynu yn llaw 'r Philiſtiaid a'r Ammoniaid; y pummed caethiwed ymma yn para dair blynedd ar bymtheg.

15. 1188. Ar eu hediſeirwch a'i hymadawiad â'i heulynnod, y maent o'r diwedd yn cael trugaredd.

xi. 1187. Jephthah y Gileadiad, wedi ei wneuthur yn dywyſog llu Iſrael, yn darofwng yr Ammoniaid; cyn y frwydr yn addunedu ei ferch yn amryfus i'w hoffrymmu yn aberth, ac wedyn yn cwplàu hynny;
yn lladd â'r cleddyf ddwy fil a deugain o
xii. 6, Ephraim a ymddygaſent yn uchelfalch yn ei erbyn ef, ac yn barnu Iſrael chwe blynedd.

Barn. xii. 8, 1182. Ibſan y Bethlehemiad yn dyfod ar ôl Jephthah, ac yn barnu Iſrael ſaith mlynedd.

11, 1175. Elon y Zabuloniad yn dyfod yn lle Ibſan, ac yn barnu Iſrael ddeng mlynedd.

13. 1164. Abdon yr Ephräimiad yn dyfod yn lle Elon, ac yn barnu Iſrael wyth mlynedd.

1 Sam. iv. 18. 1156. Eli 'r archoffeiriad (yn yr hwn y ſymmudwyd yr archoffeiriadaeth oddi wrth deulu Eleazar i Ithamar) yn dyfod yn lle Abdon, ac yn barnu Iſrael ddeugain mlynedd.

Barn. xiii. 1, 2, Yr Iſräeliaid etto yn digio 'r Arglwydd, ac ynteu yn eu rhoddi hwy yn llaw 'r Philiſtiaid. Mae 'r chweched caethiwed ymma 'n dechrau ſaith mîs wedi i Eli ddechrau llywodraethu; ac yn para ddeugain mlynedd, ſef hyd ym mhen ſaith mîs wedi ei farw ef, pan ddygwyd yr arch yn ôl drachefn.

24. 1155. Geni Samſon y Nazaread, ſel y rhagfynegaſai angel, yn Sorah.

xiv. 4. 1137. Tra yw Eli 'r archoffeiriad yn trîn ſwydd barnwr mywn pethau ſinaſiadd dan y Philiſtiaid, Samſon yn cymmeryd achos i ymgynhennu â hwynt, trwy briodi gwraig o Dimnath; canys wedi rhoddi dychymmyg i'r Philiſtiaid ar ddydd ei briodas, a dala cyngwyſtl, y mae ei wraig ef yn dywedyd iddynt ei feddwl ef. Yntef gan lidio am hyn yn myned ac yn lladd deg ar hugain o wŷr Aſcalon, ac yn rhoddi iddynt y parau dillad a ddioſgaſai efe oddi am eu cyrph hwynt, i gwplau 'r gyngwyſtl a gollaſai efe, ac yn dychwelyd adref at ei dad.

xv. 1136. Samſon drachefn yn amſer cynhauaf yn myned i anrhegu ei wraig â myn gafr i dŷ ei thâd, eithr yn ei chael wedi ei rhoi ymmaith mywn prïodas i ŵr arall. Samſon yn bwriadu ymddïal; yn dala tri chant o lwynogod, ac wedi clymmu ffaglau wrth eu cynffonnau, yn eu troi hwynt oll i ydau 'r Philiſtiaid, ac i'w gwinllannoedd a'i holiwyddlannau, ac yn eu goſod i gyd ar dân. Y Philiſtiaid yn cymmeryd gwraig Samſon a'i chwegrwn, ac yn eu lloſgi; Samſon i ymddïal, yn lladd lliaws mawr o honynt, ac yn aros ynghoppa craig Etam; wedi ei ddal yno gan dair mîl o'r Juddewon, a'i roddi ganddynt hwy yn llaw 'r Philiſtiaid, yn lladd o honynt fîl o wŷr a gên aſyn, yn yr hwn le y mae efe 'n cael ei lonni 'n rhyſeddol pan oedd yn ſychedig ac yn barod i lewygu.

xvi. 1117. Samſon yn cael ei ſradychu gan Ddalilah ei ordderch, yn colli gwallt ei Nazareadaeth, a'i roddi i'r Philiſtiaid; hwynthwy yn tynnu ei lygaid ef, ac yn ei rwymo â gefynau prês. Y Philiſtiaid yn ymgaſglu i aberthu i Ddagon eu duw, a dwyn Samſon i beri iddynt chwerthin; yntef wedi i'w wallt dyfu a'i gryfder ddychwelyd mywn meſur mawr, yn ymaflyd yn y ddwy goloſn, y rhai yr oedd y ty yn ſefyll arnynt (yn yr hwn yr oedd tywyſogion y Philiſtiaid, a lliaws mawr o bobl) ac yn tynnu 'r ty i lawr, gan ladd mwy o wŷr wrth farw nag a laddaſai efe trwy gydol ei fywyd. Felly y bu efe farw wedi iddo farnu Iſrael yn nyddiau 'r Philiſtiaid ugain mlynedd.

Sam. iv. 1116. Yr Iſräeliaid yn codi mywn arfau yn erbyn y Philiſtiaid, eithr yn affwyddiannus jawn; canys y maent yn colli ynghŷlch pedair mîl o wŷr mywn un frwydr. Yna y maent yn anfon am arch y cyfammod o Siloh, ac yn peri ei dwyn i'r gwerſyll. Y Philiſtiaid gan weled y cwbl yn awr yn ſefyll ar chwarae, yn nerthu eu gilydd i ymddwyn yn wŷr y dwthwn hwnnw, ac felly yn goſod ar yr Iſräeliaid, ac yn lladd deng mil ar hugain o honynt. Enniſl arch Duw, a lladd Hophni a Phinees, offeiriaid, a meibion Eli. Hen Eli yntef, pan ddygwyd newyddion am hyn oll atto ef, gan ddychrynu wrth hynny, yn ſyrthio oddi ar ei eiſteddfa, ac yn torri ei wddf yn y drydedd flwyddyn ar bymtheg a phedwar ugain o'i oedran.

Y Philiſtiaid wedi dwyn yr arch i Aſdod, yn ei goſod yn nhy Ddagon eu duw. Ond pan gatwyd Dagon wedi ſyrthio i lawr ddwy waith ar ei wyneb ger ei bron hi, a thorri 'n ddarnau, a phreſwylwyr y lle wedi eu plâu yn doſt, y maent yn ei ſymmud hi oddi yno i Ath, ac oddi yno i Ecron. Eithr gan ſod yr un plaau a barnedigaethau yn canlyn p'le bynnag yr elai, ar ôl ſaith o miſoedd, wrth gyngor eu hoffeiriaid y maent yn anfon yr arch adref drachefn, a rhoddion ac anrhegion gyd â hi i dîr Iſrael. Ei dwyn i Fethſemes, lle y mae dengwr a thrugain a deng mîl a deugain o wŷr yn cael eu taraw am edrych yn yr arch. Ei dwyn oddi yno i dŷ Abinadab yng Nghiriathjearim, ſy yn cyſſegru Eleazar ei fab i'w chadw hi.

1 Sam. v. vi. vii.

1096. Ym mhen ugain mlynedd, yr Iſräeliaid trwy annogaeth Samuel yn ediſarhâu ar gyhoedd ym Miſpah, a Duw ar eu dychweliad â tharanau o'r nefoedd yn eu gwaredu hwynt oddi wrth anturiaeth y Philiſtiaid, y rhai ydys yn eu daroſtwng, gan fod llaw 'r Arglwydd yn erbyn y Philiſtiaid holl ddyddiau Samuel.

13. viii.

1095. Samuel wedi myned yn hên, yn cymmeryd ei feibion i'w gynnorthwyo yn y llywodraeth; o achos anllywodraeth pa rai y mae 'r Iſräeliaid yn gofyn brenin iddynt, ar hynny Duw yn rhoi brenin iddynt yn ei ddigllonedd, ſef, Saul mab Cis, wedi i Samuel farnu Iſrael un mlynedd ar hugain. Enneinio Saul yn ddirgel gan Samuel, a'i gyhoeddi 'n frenin ar gyhoedd ym Miſpah. Ynghŷlch pen mis gwedyn, Nahas brenin yr Ammoniaid yn gwarchae ar Jabes-Gilead, a Saul yn codi 'r warchae wedyn, ar hynny holl gynnulleidfa Iſrael yn dyfod ynghŷd i Ilgal, ac yn cyhoeddi Saul yn frenin drachefn.

Hoſea xiii. 10. 1 Sam. xi. 12. iii.

1085. Geni Dafydd mab Jeſſe yr Ephratëwr ym Methlehem ddengmlynedd ar hugain cyn iddo ddyfod yn frenin yn lle Saul. Mab jeuangaf ei dad oedd efe.

xvii. 12.

1063. Duw yn gwrthod Saul, ac yn anfon Samuel i Fethlehem, yno i enneinio Dafydd yn frenin, yr hwn y mae Saul byth gwedyn yn ei erlid yn doſt.

xvi. 11. iv.

Etto y mae Jonathan mab Saul yn ei garu ef, ac yn ei achub yn fynych rhag creulonder Saul.

xviii.

Dafydd, wedi cael Saul ddwywaith yn ei law, yn peidio gwneuthur niwaid iddo.

xxiv. xxvi.

1060. Dafydd rhag ofn ſyrthio ryw bryd neu gilydd yn nwylaw Saul, yn ffoi i Ath at Achis frenin, yn dwyn chwechannwr gyd ag ef, a chwedi cael Siclag ganddo ef i drigo ynddi, yn aros flwyddyn a phedwar mis yngwlâd y Philiſtiaid; oddi yno yn ysbeilio gwledydd y Geſuriaid, y Girziaid, a'r Amalecjaid, ac yn lladd pawb â'r cleddyf, yn wŷr ac yn wragedd, heb adael un yn fyw i ddwyn chwedlau o hynny i'r brenin Achis.

xxvii. 2 Sam. v. 5, 7.

1055. Achis gan ameanu gwneuthur rhyfel ar yr Iſräeliaid, yn cymmeryd Dafydd gyd ag ef i'r daith honno, at yr hwn pan yw ar ei daith gyd â 'i chwe channwr, y mae

xxviii. 1 Cron. xii.

mae llawer eraill o lwyth Manaſſeh yn dyfod, ac yn ymgyſylltu ag ef.

1 Sam. xxviii. Saul wrth weled byddin y Philiſtiaid, mywn ofn mawr, ac (a Samuel yn awr wedi marw) yn myned i Endor i ymgynghori a dewines yno; y wraig yn codi drychiolaeth Samuel, a Saul yn derbyn oddi wrtho y farn oſnadwy honno, Yr Arglwydd a ddyry Iſrael gyd â thi yn llaw 'r Philiſtiaid.

xxix. Tywyſogion y Philiſtiaid yn eiddigeddu wrth Ddafydd; yntef a'i wŷr y bore dranoeth yn gadael y llu, ac yn dychwelyd i Siclag.

xxxi. Y byddinoedd yn ymgyfarfod, a gorchfygu 'r Iſraeliaid; lladd tri meib Saul, ac yntef yn ſyrthio ar ei gleddyf ei hun.

2 Sam. i. Amaleciad ym mhen tridiau wedyn yn dwyn coron Saul, a'r freichled oedd am ei fraich ef, ac yn eu hanrhegu i Ddafydd, gan addef ddarfod iddo yn ôl ei gael ef wedi ſyrthio ar ei gleddyf, ei ladd ef yn gwbl, a chymmeryd y goron oddi ar ei ben ef; ar hynny Dafydd yn peri ei ladd ef am eſtyn ei law i ladd Enneiniog yr Arglwydd, ac yn gwneuthur marwnad i Saul a Jonathan. Dafydd, wedi ymgynghori â Duw, yn myned gyd â 'i wŷr i Hebron, lle mae 'n cael ei enneinio yn frenin gan wŷr Juda ei lwyth ei hun yn y ddegfed flwyddyn ar hugain o'i oedran, ac yn teyrnaſu yno ſaith mlynedd a chwe mis.

ii.

1 Cron. xii. 23.

2 Sam. ii. 8, Abner, yr hwn oedd dywyſog y filwriaeth gan Saul, yn dwyn Iſboſeth mab Saul i Fahanaim, ac yn ei oſod ef yn frenin yno ar y rhan arall o Iſrael.

12. 1053. Ym mhen dwy flynedd gwedi y mae ymladd creulon a mynych yn codi rhwng deuddeg o wŷr o blaid Dafydd, a Joab nai Ddafydd yn ben arnynt, a deuddeg eraill o wŷr o blaid Iſboſeth, o ba rai y mae Abner yn bennaf; eithr y cyntaf yn waſtad yn myned yn gryfachgryfach.

iii. 6, 1048. Abner wedi cael ei waradwyddo gan Iſboſeth, yn cilio at Ddafydd, ac yn ymddiddan â'r gwŷr pennaf o Iſrael i droi 'r holl frenhiniaeth atto ef, a hyn lle clywai gwŷr Benjamin.

22. Efe yn dyfod at Ddafydd ac yn cael ei roeſawi yn garedig; yn cael ei ladd wrth ddychwelyd trwy frâd gan Joab. Dafydd yn galaru yn fawr o blegid ei farwolaeth anamſerol ef, ac yn ei gladdu yn Hebron.

iv. 2. Baana a Rechab yn lladd eu harglwydd a'i meiſtr Iſboſeth ag efe 'n gorwedd ar ei wely. Yn dwyn ei ben ef at Ddafydd, yr hwn o ran adgaſrwydd i'w bradwriaeth, ſy 'n peri eu lladd yn y fan.

v. Tywyſogion a henuriaid yr holl lwythau wedi dyfod i Hebron, yn enneinio Dafydd y drydedd waith, ac yn ei wneuthur yn frenin ar holl Iſrael.

1 Cron. xi.

2 Sam. v. 5, 6, 7, 9. 1047. Dafydd a holl Iſrael yn myned i Jeruſalem yn erbyn y Jebuſiaid, ac yn ennill amddiffynfa Sïon, ac yn ei galw hi Dinas Ddafydd, gan wneuthur Jeruſalem yn eiſteddfa 'r frenhiniaeth, ac yn teyrnaſu yno ar holl Iſrael dair blynedd ar ddeg ar hugain.

vi. 1045. Arch y cyfammod, yr hon yn y flwyddyn ſabbothaidd gyntaf a ddygaſid o Ilgal i Siloh, yn cael y flwyddyn hon, a hi 'n flwyddyn ſabbothaidd hefyd, ei dwyn o Giriath-jearim allan o dŷ Abinadab, a'i goſod yn Sïon; deng mîl ar hugain o etholedigion yn Iſrael yn ei chanlyn, ac yn canu 'r wythfed Salm a thrugain.

1 Cron. xvi.

2 Cron. i. 4. 1044. Dafydd yn awr yn preſwylio yn ei dŷ o gedrwydd yr hwn a adeiladaſai efe, ac yn byw mywn heddwch llawn a pherffaith, yn mynegi i Nathan y prophwyd ei amcan ar adeiladu ty i Dduw, eithr a attebir oddi wrth Dduw mai gwaith oedd hwn a wnaid nid ganddo ef, o herwydd ei fod yn wŷr gwaedlyd, ac wedi ei ddwyn i fynu mywn rhyfel, ond gan ei fab Salomon, gŵr heddychlon, a enid iddo ef. Treulio 'r amſer o hyn hyd enedigaeth Salomon mywn rhyfeloedd; ym mha rai y mae Dafydd yn daroſtwng y Philiſtiaid, yr Edomiaid, yr Amaleciaid, y Moabiaid, yr Ammoniaid, a'r Syriaid, ac yn eſtyn ei frenhiniaeth hyd derfynau eithaf y wlâd honno a addawſid i had Abraham, ac ni pherchennogwyd erioed gan un o honynt ond Dafydd yn unig a'i fab Salomon.

2 Sam. viii.

1 Cron. xviii.

Gen. xv. 18.

Deut. xi. 24.

1 Bren. iv.

1035. Wedi pen y flwyddyn hon, Joab gwedi myned â'r llu yn erbyn yr Ammoniaid, yn gwarchae ar Rabbath mam-ddinas Ammon, tra 'r oedd Dafydd yn cymmeryd ei eſmwythder yn Jeruſalem, ac yn godinebu yno gyd â Bathſeba gwraig Urïas yr Hethiad, yr hwn oedd y pryd hynny yn y llu, yr hwn hefyd y mae efe 'n peri ei ladd.

2 Sam. xi.

1 Cron. xx.

1034. Geni 'r plentyn a ennillwyd ſelly mywn godineb. Argyoeddi Dafydd gan Nathan y prophwyd am ei bechod, ac yntau 'n edifarhâu; yn dyſtiolaeth o'r hyn y mae efe 'n cyfanſoddi 'r unfed Salm ar ddeg a deugain. Y plentyn yn marw.

2 Sam. xii.

1033. Bathſeba yn awr yn myned yn wraig i Ddafydd, ac yn ymddwyn mab iddo, i'r hwn megis i un a ddeuai yn wŷr hedd, y mae Duw yn rhoi 'r enw Salomon; ac megis un annwyl gan yr Arglwydd, yr enw Jedidiah.

25.

1 Cron. xxii. 9.

1032. Amnon, mab hynaf Dafydd, yn treiſio 'i chwaer Tamar.

2 Sam. xiii. 1, 23.

1030. Abſalom yn dïal ei chwaer Tamar, ac yn lladd ei frawd Amnon; am yr hyn y mae efe 'n ffoi i Eſur yn Syria, lle mae efe 'n aros dair blynedd gyd â'r brenin Talmai, ei daid o ran ei fam.

1027. Ar ôl tair blynedd o alldudedd, y mae efe 'n dychwelyd i Jeruſalem, lle mae 'n aros ddwy flynedd cyn cael myned i wŷdd y brenin ei dad, a chael ei gymmod ef.

xiv.

1024. Y mab gwrthryfelgar ymma, wedi cael cerbydau a meirch a llu i'w ganlyn, yn ennill ffafr y bobl ac yn lladrata 'u calonnau oddi wrth ei dad Dafydd.

xv.

1023. Y flwyddyn rhag wyneb y mae efe yn rhith talu addunedau yn cael cennad i fyned i Hebron, lle trwy gyngor Achitophel y mae 'n torri allan i wrthryſela yn amlwg, ac yn gyrru ei dad i ffoi o Jeruſalem.

7.

Achitophel, am nad yw Abſalom yn dilyn ei gyngor ef ym mhob peth, yn ymgrogi.

xvii.

Abſalom, wedi colli ugain mîl o wŷr, yn ffoi, a brig derwen yn dal gafael arno; efe ynghrôg yno, a Joab yn ei frathu trwyddo.

xviii.

1017. Satan yn temtio Dafydd, ac yntau yn gyrru Joab i rifo 'r bobl; Duw, wedi anſodloni i hynny, yn anfon prophwyd i gynnyg ei ddewis iddo o dair pla, *ſef*, newyn, cleddyf, neu haint. Dafydd yn dewis ſyrthio yn llaw Duw trugarog yn hytrach nag yn nwylaw dynion. Felly Duw yn rhoddi haint, o ba un y mae 'n marw ddeng mîl a thrugain o wŷr mywn un dydd. Duw, pan yw 'r angel ar ſedr dinyſtrio Jeruſalem, yn erchi iddo attal ei law; canys y mae

xxiv.

1 Cron. xxi.

eſe

ese 'n gweled Dafydd yn edifarhau mywn
ſachliain, ac yn erfyn arno arbed y bobl
wirion, a throi ei law arno ef ac ar dŷ ei
dad.

1 Bren. xiv. 21. i. 1016. Geni Rehoboam i Salomon, o Naamah Ammonites.

1015 Dafydd yn awr yn ddeg a thrugain oed, ac wedi torri gan oſalon a rhyfeloedd gwaſtadol, yn myned mor wan a lleſg, fel na all dillad ei gynheſu mwyach. Am hynny goſod Abiſag, gwyryf jeuange, i'w gynheſu ef. Adoniah yn gweled ei dad yn darfod fel hyn, yn ei wneuthur ei hun yn frenin trwy gymmorth Joab ac Abiathar, yr hyn wedi i Ddafydd ei ddyall, y mae ese yn y man yn gorchymmyn i Sadoc yr offeiriad a Nathan y prophwyd, gyd a gwŷr mawrion eraill, enneinio Salomon yn frenin. Adoniah yn clywed hyn, yn cymmeryd noddfa, ac yn cael maddeuant.

ii. Dafydd wedi rhoi cyngor i'w fab Salomon, yn marw, wedi iddo deyrnaſu yn Hebron ſaith mlynedd a chwe mis, a thair blynedd ar ddeg ar hugain yn Jeruſalem dros holl Iſrael.

iii. 1, 2. 2 Cron. viii. 11. 1014. Pharao brenin yr Aipht, yn rhoi ei ferch yn briod i Salomon.

1 Bren. iii. 5. Yr Arglwydd yn ymddangos i Salomon mywn breuddwyd, ac yn erchi iddo oſyn y peth a ſynnai, ac ef a'i rhoddid iddo. Salomon yn goſyn doethineb; Duw 'n rhoi doethineb oddi uchod iddo, ac yn chwanegu at hynny gyſoeth ac anrhydedd. Salomon yn daugos y doethineb ymma a roddes Duw iddo ef, yn amlwg rhagorol wrth farnu rhwng y ddwy buttain.

Pummed Oes y Byd.

vi. 1. 2 Cron. iii. 1. 1012. SAlomon yn goſod ſeilfeini 'r *c.g. Criſt.* deml yn y bedwarcanfed flwydyn a phedwar ugain yn ol ymadawiad meibion Iſrael o'r Aipht.

1 Bren. vi. 38. 1005. Gorphen teml Salomon yn yr unfed flwyddyn ar ddeg o'i deyrnaſiad ef, wedi bod yn ei hadeiladu ſaith mlynedd a hanner.

viii. 2 Cron. v, vi, vii. 1004. Salomon y flwyddyn hon (a hi y nawfed Jubili, a dechreuad y bedwaredd Fil o oed y Byd) a braint mawr yn cadw gŵyl cyſlegriad y deml, ar ba amſer y mae Duw 'n rhoi arwydd gweledig o'i ffafr.

1 Bren. xi. 2 Cron. ix. 975. Salomon, wedi iddo (fel yr ydys yn credu wrth reſwm) ymadael â'i anlladrwydd a'i wagedd, i'r hwn yr oedd ese wedi ymroi yn rhy anghymhedrol, a 'ſgriſennu megis yn dyſtiolaeth o'i edifeirwch, ei lyſr a elwir y Pregethwr, yn marw. Efe a deyrnaſodd ddeugain mlynedd.

1 Bren. xii. Yr Iſraeliaid yn ymgaſglu yn Sichem i goroni Rehoboam mab Salomon yn frenin ar holl Iſrael. Y bobl trwy Jeroboam yn ceiſio ganddo eu rhyddhau o rai gorthrymderau; i ba rai y mae Rehoboam trwy gyngor y gwŷr jeuainge yn rhoi atteb garw, yn dieithro calonnau deg llwyth oddi wrtho ef: hwyntw-hwy yn gwneuthur Jeroboam yn frenin arnynt, ac yn cwympo 'r pryd hynny oddi wrth dŷ Ddafydd ac oddi wrth wir addoliad Duw.

25. Jeroboam yn nechrau ei deyrnaſiad yn adgyweirio Sichem a ddinyſtriaſai Abimelech ddeunaw a deugain a dau cant o flynyddoedd o'r blaen, ac yn trigo yno; wedyn gan fyned dros y Jorddonen y mae ese 'n adeiladu Penuel, ac yn y diwedd yn gwneuthur Tirſah yn eiſteddfa ei frenhiniaeth. Eithr gan ofni

1 Bren. xii. 26. rhag i'w ddeiliaid newyddion wrth fyned i Jeruſalem i addoli, gael eu hannog i gilio oddi wrtho, y mae ese yn dychymmyg ſtirf o greſydd newydd, trwy oſod i fynu ddau lo aur, un ym Methel, a'r llall yn Nan, i'r bobl a hudwyd i ymgrymmu iddynt.

xiv. O amſer y rhwyg farwol ymma, Rehoboam yn teyrnaſu ar Juda a Benjamin ddwy flynedd ar bymthog, a Jeroboam ar Iſrael, neu 'r deg llwyth eraill, ddwy flynedd ar hugain.

2 Cron. xii. 974. Yr Offeiriaid a'r Lefiaid a'r Iſraeliaid eraill oedd yn oſni Duw, yn glynu wrth Rehoboam, ac yn maentumio brenhiniaeth Juda dros dair blynedd; wedi 'r pryd hynny Rehoboam yn ſyrthio i eulynaddoliaeth, ac yn peidio rhodio mwyach yn ffyrdd Dafydd a Salomon.

xi. 17. Jeroboam yn aberthu i'w lo ym Methel;

1 Bren. xii. 32. xiii. 2. anſon prophwyd atto oddi wrth Dduw, yr hwn ſy 'n rhagſynegi 'r barnedigaethau a wnaid ryw ddydd ar yr allor honno a'r offeiriaid (ſef y rhai hynny a wnaethai Jeroboam o wehilion y bobl) oedd yn gwaſanaethu wrthi. Yr hon brophwydoliaeth ſy 'n cael ei chadarnhau y pryd hynny ac yno trwy arwyddion a rhyfeddodau ar y brenin ei hun, ac ar yr allor.

xiv. 25. 2 Cron. xii. 971. Siſac, brenin yr Aipht, yn anrheithio Jeruſalem a'r deml; eithr y brenin a'r tywyſogion yn edifarhau wrth bregeth Semaiah y prophwyd, a Duw yn peidio â'i rhoi i fynu i'w llwyr ddinyſtrio.

1 Bren. xv. 958. Abiam mab Rehoboam yn dyfod ar ôl ei dad, ym mrenhiniaeth Juda, ac yn teyrnaſu dair blynedd.

2 Cron. xiii. 957. Ese yn cael buddugoliaeth fawr ar Jeroboam, yn lladd pùm can mil o wŷr mywn un frwydr, ac yn ennill Bethel.

1 Bren. xv. 8, 955. Aſa yn yr ugeinfed flwyddyn i Jeroboam yn dyfod yn lle 'i dâd Abiam, ac yn teyrnaſu un mlynedd a deugain.

25, 954. Nadab yn yr ail flwyddyn i Aſa, yn dyfod yn lle 'i dâd Jeroboam ym mrenhiniaeth Iſrael, ac yn teyrnaſu ym mron dwy flynedd.

27. 953. Lladd Nadab yngwarchae Gibethon (tre 'r Philiſtiaid) gan Baaſa o lwyth Iſſachar, yn y drydedd flwyddyn i Aſa; a'r flwyddyn honno wedi ei wneuthur ei hun yn frenin ar Iſrael, y mae efe yn llwyr ddifetha holl hiliogaeth Jeroboam, ac yn teyrnaſu bedair blynedd ar hugain. Y pryd hyn yr oedd y prophwydi Jehu, Hanani, ac Azariah yn byw.

2 Cron. xiv. 951. Aſa yn dilëu delwaddoliaeth, a chwedi cael deng mlynedd o heddwch, yn cadarnhau ei deyrnas ag amddiffynfeydd ac ag arfau.

9. 941. Zerah yr Ethiopiad yn dyfod yn erbyn Juda â llu aneirif: Aſa yn ei orchfygu ef, yn aberthu i Dduw o 'r anrhaith, ac yn gwneuthur cyhoedd gyſammod â Duw.

xv. Y mae efe hefyd yn ſymmud Maachah ei fam o fod yn frenhines, o herwydd delwaddoliaeth; yn dwyn i'r deml y pethau a gyſlegraſai ei dâd ac efe ei hun i Dduw, ac yn cael hîr heddwch.

1 Bren. xvi. 6, 8. 930. Elah, mab Baaſa, yn dyfod yn lle 'i dad ym mrenhiniaeth Iſrael.

929. Yn yr ail flwyddyn o'i deyrnaſiad a'r ſeithfed ar hugain i Aſa, Zimri, un o'i dywyſogion yn cydfwriadu yn ei erbyn ef, yn ei ladd, ac yn teyrnaſu yn ei le ef. Cyn gynred ag y mae 'n eiſtedd ar ei deyrngadair, y mae 'n lladd holl dŷ Baaſa; eithr y mae 'r llu oedd y pryd hynny yn gwerſyllu yn erbyn Gibethon,

xiv. 17.

Gibethon, yn gwneuthur Omri yn frenin
ddynt; yntau yn y man yn gwarchae ar
Dirſah, ac yn ei hennill hi. Zimri weli
gweled hynny, yn llοſgi palas y brenin, ac yn
darfod am dano yn y tân.

1 Bren. xvi. 21, Pobl Iſrael yn awr wedi ymrannu yn
ddwy ran, a'r naill ran o honynt yn myned ar
ol Tibni mab Ginath, ac yn ceiſio ei oſod ef
yn frenin, a'r rhan arall yn glynu wrth Om-
22, ri; eithr Tibni yn marw, ac Omri yn teyr-
naſu ei hun yn unig, yn yr unfed flwyddyn ar
ddeg ar hugain i Aſa.

23, 24, 924. Omri wedi teyrnaſu chwe blynedd
yn Nhirſah, yn ſymmud teyrngadair ei
frenhiniaeth i Samaria, lle a adeiladaſai efe
ei hun.

39. 918. Ahab yn dyfod yn lle ei dad ym
mrenhiniaeth Iſrael, ac yn teyrnaſu ddwy
flynedd ar hugain yn Samaria. Efe a
wnaeth ddrygioni yngolwg yr Arglwydd y
tu hwnt i bawb o'i flaen ef.

xxii. 41. 914. Jehoſaphat yn dyfod ar ol ei dad Aſa
2 Cron. yn y bedwaredd flwyddyn i Ahab brenin Iſ-
xx. 31. rael, ac yn teyrnaſu bum mlynedd ar hugain
yn Jeruſalem.

xvii. 7. 912. Jehoſaphat wedi ei ſicrhâu yn ei
frenhiniaeth, a bwrw i lawr yr uchelfeydd
a'r llwynau, yn y drydedd flwyddyn o'i deyr-
naſiad yn anfon Leiaid gyd â'r tywyſogion i
ddyſgu 'r bobl yn y gyfraith. Duw yn y
cyfamſer yn daroſtwng ei elynion dano ef.

1 Bren. xx. 901. Benhadad brenin Syria yn gwarchae
ar Samaria; trwy gyngor prophwyd yn cael
ei guro ymmaith, a lladd rhiſedi mawr o'r
Syriaid.

xxi. 899. Ahab heb allu perſwadio Naboth i
werthu iddo ei winllan, yn clefychu am
deni; Jezebel ei wraig yn goſod gau dyſtion
i'w gyhuddo o gabledd, yn peri llabyddio
Naboth, ac yn goſod y brenin i berchennogi 'r winllan. Elïas ar hynny yn dadgan
barn Duw yn erbyn Ahab a Jezebel, a
Duw ar ediſeirwch Ahab yn oedi ei farne-
digaeth.

xxii. 51. 898. Ahab yn y ddwyſed flwyddyn ar
bymtheg o deyrnaſiad Jehoſaphat, yn gwneu-
thur ei fab Ahazïah yn frenin i lywodraethu
'r deyrnas gyd ag ef.

2 Bren. iii. 1. Jehoſaphat hefyd yn gwneuthur Jehoram
ei fab yn gydbarth ag ef; o achos hyn y dy-
wedir i Jehoram fab Ahab, yr hwn a
ddoeth yn lle ei frawd Ahazïah ym mren-
i. 17. hiniaeth Iſrael yn y ddeunawfed flwyddyn i
Jehoſaphat brenin Juda, ddechrau ei deyr-
naſiad yn yr ail flwyddyn i Jehoram fab Je-
hoſaphat.

1 Bren. xxii. 897. Ahab, wedi cael Jehoſaphat i'w
gynnorthwyo yngwarchae Ramoth-Gilead,
cyn no 'i fyned, yn go'yn cyngor i bedwar
2 Cron. xviii. cant o au brophwydi, y rhai ſy 'n addo iddo
ſuddugoliaeth a llwyddiant, eithr trwy
gyngor Jehoſaphat yn ymgynghori â Michea
gwîr brophwyd Duw, yr hwn ſy 'n rhag-
fynegi ei ddinyſtr ef; lladd Ahab yn ûl ei
air ef yn Ramoth-Gilead, a'i gladdu yn Sa-
maria.

2 Bren. i. 1. 896. Y Moabiad, wedi marw Ahab, yn
iii. 5. cilio oddi wrth Iſrael, y rhai a aroſaſent yn
2 Sam. viii. 2. ufydd erioed er dyddiau Daſydd frenin.
2 Bren. i. Ahazïah brenin Iſrael yn gorwedd yn
glaf o gwymp, yn anfon i ymgynghori â
Baal-zebub duw Ecron, o blegid ei jachâd.
Elias y prophwyd yn cyfarfod â'r gennad, ac
yn mynegi iddo gan farw y byddai Ahazïah
farw; ar hynny anfon dau dywyſog, pob un
o honynt ar ddeg a deugain, i'w ddal ef, a'i
ddwyn ger bron y brenin; Elïas yn galw
am dân o'r neſoedd, ac yn eu dinyſtrio hwy
a'r ſawl oedd gyd â hwy. Wedi anfon try-
dydd tywyſog â'i ddeg a deugain, ac ym-
ddŵyn o hono yn oſtynghedig, Elïas yn my-
ned gyd ag ef; y prophwyd yn mynegi 'n ſicr
i'r brenin na ddiſgynnai o'i wely yn fyw. 1 Bren.
Felly Ahazïah yn marw wedi llywodraethu xxii.
(mywn rhan ei hun, ac mywn rhan gyd â'i
dad) ddwy flynedd.

Jehoram yn dyfod yn lle ei frawd Aha- 2 Bren.
zïah ym mrenhiniaeth Iſrael, yn niwedd y iii. 1.
ddeunawfed flwyddyn i Jehoſaphat, ac yn
teyrnaſu ddeuddeng mlynedd.

Dwyn Elïas i'r neſoedd mywn cerbyd ii. 11.
tanllyd.

892. Jehoſaphat wedi myned yn hên, yn 2 Cron.
rhoi i'w feibion roddion lawer gyd â di- xxi. 2, 3.
naſoedd caerog yn Juda; eithr yn awr yn 2 Bren.
ſefydlu ei fab hynaf Jehoram yn gadarnach viii. 16.
yn nheyrngadair y frenhiniaeth yn y bum-
med flwyddyn i Jehoram brenin Iſrael.

889. Jehoram yn awr trwy farwolaeth ei 2 Cron.
dad yn cael teyrnas Juda iddo ei hun, ac yn xxi. 4, 5.
ei chadw bedair blynedd. Cyn gynted ag
y daeth i'w orſeddfainge, yn lladd ei holl
frodyr â'r cleddyf, a rhai hefyd o dywyſog-
ion Iſrael. Yr Edomiaid, a ſuaſent fyw yn
waſtad er yn amſer y brenin Daſydd yn
uſydd i Juda, yn gwrthryfela yn awr, ac (fel Geneſis
y rhagfynegodd Iſaac) yn bwrw ei jau ef xxvii. 40.
ymmaith byth. Libnah hefyd, dinas yr 2 Cron.
offeiriaid, yn llwyth Juda, yn ſyrthio ym- xxi. 10,
maith oddi wrtho ynghŷlch y pryd hyn.

888. Jehoram trwy gyngor ei wraig 11,
ddrygionus Athaliah merch Ahab brenin Iſ-
rael, yn goſod delwaddoliaeth Baal i fynu yn
Juda, ac hyd yn oed yn Jeruſalem ei hunan,
ac yn cymmell ei ddeiliaid iddo; llythyr a
adawſai 'r prophwyd Elïas ar ei fedr ef, yn 12.
dyfod i'w law ef, yr hwn ſy 'n ei argyoeddi
ef, ac yn dadgan yr holl aflwydd a'r cosbedi-
gaethau a ddoeth iddo gwedyn.

885. Ahazïah yn dyfod ar ôl ei dad yn 2 Bren.
frenin ar Juda (wedi cael rhan o'r llywo- viii. 25,
draeth y flwyddyn o'r blaen) yn y ddeu-
ddegfed flwyddyn i Jehoram brenin Iſrael,
ac yn teyrnaſu un flwyddyn yn Jeruſalem.

884. Joram brenin Iſrael ac Ahazïah 28.
brenin Juda yn arwain eu byddinoedd i Ra-
moth-Gilead yn erbyn Hazael yr hwn oedd
newydd ddyfod yn lle Benhadad yn frenin
ar Syria: Joram wedi ei friwo 'n doſt yn
dychwelyd i Jezreel i ymjachâu. Eliſeus
yn y cyfamſer yn danſon prophwyd jeuange ix.
ag addyſg i enneinio Jehu fab Jehoſaphat
fab Nimſi yn Ramoth-Gilead, yn fren n ar
Iſrael, ac i agor iddo ef ewyllys Duw yng-
hŷlch diwreiddio tŷ Ahab, yr hwn wedi ei
gyhoeddi yn frenin gan y milwyr, ſy 'n my-
ned yn union i Jezreel, yn lladd Joram ym
maes Naboth, ac yn peri taflu Jezebel allan
trwy ffeneſtr, lle mae cŵn yn ei bwyta hi.
Y mae efe yn anfon llythyrau hefyd i Sama- x.
ria, ac yn peri lladd pennau deng mab a thru-
gain Ahab. Yna gan gymmeryd Jehonadab
mab Rechab atto, yn dyfod ei hun i Samaria,
ac yn difetha holl deulu Ahab a holl offeir-
iaid Baal. Etto wedi bwrw i lawr addoliad
Baal, nid yw efe yn troi oddi wrth addoliad
lloi aur Jeroboam, eithr yn maentumio 'r
eulynaddoliaeth hyn yr holl amſer y teyrna-
ſodd efe, ſef wyth mlynedd ar hugain.

Jehu yn myned rhagddo ac yn cwplâu ix.
dïal Duw ar dŷ eulynaddolgar Juda; yn
ymlid Ahazïah yr hwn ſy 'n ffoi tu a Me-
gido, ac wedi ei oddiwes yng Ngwr, yn peri
ei ladd ef yn ei gerbyd. Gan fyned hefyd i x.
Samaria,

Samaria, y mae efe 'n cyſarſod â dau a deugain o frodyr Ahaziah, ac yn peri eu lladd hwynt.

2 Bren. xi. 2 Cron. xxii. 10. Athaliah merch Ahab, gan weled marw ei mab Ahaziah, yn traiſfeddiannu 'r frenhiniaeth, gan ddiſetha 'r holl had brenhinol, eithr y mae Joſeba merch y brenin Joram a gwraig Jehoiada yr archoffeiriad, yn cymmeryd Joas (plentyn y pryd hynny, a mab ei brawd Ahaziah) ac yn ei guddio yn y deml, ac felly yn ei achub ef pan laddwyd y lleill o'r gwaed brenhinol.

2 Bren. xi. 2 Cron. xxiii. 878. Jehoiada yr archoffeiriad yn dwyn allan Joas yn awr yn ſaith mlwydd oed, ac yn ei enneinio yn frenin; yn peri lladd Athaliah, ac yn adferu gwaſanaeth y gwîr Dduw, gan ddinyſtrio tŷ Baal, a gorchymmyn lladd Mattan yr offeiriad eulynaddolaidd o flaen ei allor. Joas yn awr yn dechrau ei deyrnaſiad yn y ſeithfed flwyddyn i Jehu, ac yn gwladychu ddeugain mlynedd yn Jeruſalem.

2 Bren. xii. 7. 857. Joas yn y drydedd flwyddyn ar hugain o'i deyrnaſiad, yn gorchymmyn cyweirio 'r deml, gan roi gofal hynny ar Jehoiada 'r archoffeiriad.

xiii. 1. Joachaz yn dyfod yn lle ei dad Jehu yn frenin ar Iſrael, ac yn teyrnaſu ddwy flynedd

viii. 12. ar bymtheg: Hazael brenin Syria yn ei orthrymmu ef trwy gydol yr amſer hynny, ac yn dwyn ar Iſrael yr holl ddireidi hynny a ragfynegaſai 'r prophwyd Eliſeus.

xiii. 10. 841. Cymmeryd Joas mab Joachaz brenin Iſrael mywn rhan o'r frenhiniaeth gan ei dad yn y ddwyfed flwyddyn ar bymtheg ar hugain i Joas frenin Juda, ac yn teyrnaſu un flynedd ar bymtheg.

2 Cron. xxiv. 840. Llabyddio Zechariah mab Jehoiada 'r archoffeiriad am geryddu gwŷr Juda am ſyrthio i ddelwaddoliaeth wedi marw Jehoiada, â meini wrth orchymmyn brenin Juda ynghyntedd tŷ 'r Arglwydd; Joas ynteu

2 Bren. xii. 20. y flwyddyn neſaf ar ôl hynny 'n cael ei ladd gan rai o'i weiſion ac efe 'n gorwedd ar ei wely, ac Amaſiah ei fab yn teyrnaſu yn ei

xiii. lle ef.

839. Joachaz yn marw, a Joas ei fab yn teyrnaſu 'n frenin ar Iſrael yn ei le ef. Ym mhen ychydig wedi claddu ei dad, y mae efe 'n ymweled ag Eliſeus y prophwyd y pryd hynny 'n gorwedd yn glâf, a chan wylo llawer yn goſyn cyngor iddo, yntef yn addo iddo ſuddugoliaeth ar y Syriaid. Adferyd gŵr marw i fywyd trwy ei oſod ym medd

xv. 1. Eliſeus.

836. Cymmeryd Jeroboam yr Ail y flwyddyn hon yn gydgyſrannol ym mrenhiniaeth Iſrael gan ei dad Joas, wrth ſyned i ryfela yn erbyn y Syriaid. Hyn a geſglir oddi wrth Azariah brenin Juda yn dechrau ei deyrnaſiad yn y ſeithfed flwyddyn ar hugain i'r Jeroboam ymma.

xiv. 2 Cron. xxv. 826. Amaſiah brenin Juda wedi balchïo o ran goruchafiaeth a gawſai efe ar yr Edomiaid yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg hon o'i deyrnaſiad, yn annog Joas brenin Iſrael i ryfel. Joas yn ei orchſygu ef ac yn ei ddala yn garcharor, yn torri i lawr bedwar can cufydd o fur Jeruſalem, ac wedi ysbeilio 'r deml a thy 'r brenin o dryſor mawr, yn dychwelyd i Samaria.

2 Bren. xiv. 23. 825. Joas yn marw bymtheng mlynedd o flaen Amaſiah, a Jeroboam yr Ail ei fab yn teyrnaſu yn Samaria un mlynedd a deugain.

xiv. 2 Cron. xxv. 810. Amaſiah wedi dyall ſod bradwriaeth yn ei erbyn ef yn Jeruſalem, yn ffoi i Lachis, lle y llas, a'i fab Uzziah neu Azaria yn dyfod ar ei ôl ef, yn y ſeithfed flwyddyn ar hugain i Jeroboam yr Ail, ac yn teyrnaſu ddeuddeng mlynedd a deugain yn Jeruſalem.

2 Bren. xv. 808. Cynnal yn awr y trydydd Jubili ar ddeg dan y ddau frenin clodfawruſaf, yn amſer pa rai y mae amryw brophwydi mawrion yn byw yn y ddwy deyrnas, Eſay a Joel yn Juda; Jonas, Hoſea, ac Amos yn Iſrael.

xiv. 25. Eſay ix. Jona iii. Math. xii. 41. Jonas o Ath Hepher, tref yn perthyn i lwyth Zabulon yng Ngalilea y cenhedloedd (daliwch ſulw ymma ar ddallineb y Phariſeaid, *Joan* 7. 52.) a anfonwyd wedyn i Ninife mamddinas Aſſyria, lle 'r edifarhaodd y brenin a'r bobl wrth ei bregeth ef.

2 Bren. xiv. 29. 784. Jeroboam brenin Iſrael (dan yr hwn y daeth y deyrnas honno i gyflawn uwchder ei gogoniant) yn marw; pob peth wedi ei farw ef yn gwympo i anhrefn, a dwyn y 'Sdad i aflywodraeth eglur y ſy 'n para un mlynedd ar ddeg a hanner; canys y ſath gyfrwng neu wagder y mae cyſoeſau brenhinoedd yn ofyn; fel yr attebo chwe mîs Zachariah mab Jeroboam ddeunaw mlynedd ar hugain ac un mis Sâlum, yr hwn a'i lladdodd ef y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg ar hugain i Azariah frenin Juda.

xv. 8. 773. Zachariah mab Jeroboam y pedwerydd a'r diwaethaf o lin Jehu (megis y rhagfynegwyd) yn dechrau teyrnaſu ar Iſrael yn y ddeunawfed flwyddyn ar hugain i Azariah frenin Juda, ac yn teyrnaſu chwe mis.

10. 772. Sâlum mab Jabes, ym mhen chwe mis, yn ei ladd ef ger bron y bobl, ac yn teyrnaſu un mîs yn y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg ar hugain i Azariah frenin Juda. Wedi marw Zachariah y mae 'r adfyd yſgeler yn canlyn a ragfynegwyd gan y pro-

Amos vii. 9. phwyd Amos.

2 Bren. xv. 14, Menahem, mab Gadi, wrth ſyned o Dirſa i Samaria yn lladd Sâlum, yn anrheithio Tiphſah, a'i therfynau; ac am na agorai 'r ddinas iddo ef, yn ei chymmeryd hi, ac yn rhwygo 'r holl wragedd beichiogion.

19, 771. Tra yw Menahem yn y terfysgoedd hyn yn ceiſio perchennogi 'r deyrnas, y mae Pul brenin Aſſyria yn rhuthro i'w wlâd ef, i'r hwn y mae Menahem yn rhoi mil o dalentau arian, ac ar ol hynny yn teyrnaſu yn llonydd ddeng mlynedd.

23, 761. Pecahiah yn dyfod yn lle ei dad Menahem, yn y ddegfed flwyddyn a deugain i Azariah frenin Juda, ac yn teyrnaſu ddwy flynedd.

25, 27, 759. Pecah, un o'i dywyſogion yn ei ladd ef yn ei lys ei hun yn Samaria, ac yn teyrnaſu ugain mlynedd.

52, 758. Jotham yn dyfod yn lle ei dâd Uzziah, neu Azariah, ym mrenhiniaeth Juda, pan oedd efe yn bum mlwydd ar hugain oed, ac yn teyrnaſu un flynedd ar bymtheg yn Jeruſalem.

2 Cron. xxvii. 5. Jotham yn daroſtwng yr Ammoniaid, ac yn eu cadw dan deyrnged dros dair blynedd. Dano ef a'i ddau wrthddrychiad y mae 'r

Mic. i. 1. prophwydi Micah a Hoſea yn cyflawni ſwydd eu prophwydoliaeth. Ynghŷlch y pryd hyn yr oedd y prophwyd Nahum yn byw, ac yn prophwydo dinyſtr Ninife.

2 Bren. xvi. 1. 742. Ahaz yn dyfod yn lle ei dad Jotham yn y ddwyfed flwyddyn ar bymtheg i Becah frenin Iſrael, ac yn teyrnaſu un mlynedd ar bymtheg.

2 Cron. xxviii. 1. Eſay vii. Y ſlwyddyn hon y mae Reſin brenin Syria a Phecah brenin Iſrael yn cydſynnio yn erbyn Iuda, ac yn taro braw mawr yn y genedl honno; ond i Ahaz y mae Duw trwy 'r prophwyd Eſay yn anſon cennadwriaeth raſlawn gyd ag addewid o ymwared, yn arwydd o'r hyn (pan wrthododd y brenin anghredadun oſyn arwydd wedi erchi iddo ei oſyn) y mae Duw yn rhoi iddo addewid y genid Immanu-El o forwyn. Y mae Reſin a Phecah yn gwarchae 'n awr ar Ieruſalem, ac ynddi ar Ahaz, eithr yn cael eu curo ymmaith; Ahaz yn y man ag y gwaredwyd oddi wrth ei elynion, yn ymwrthod â Duw ei waredydd, ac yn ſyrthio i ddelwaddoliaeth:

741. Am hynny y mae Duw yn ei roi yn llaw brenin Iſrael, yr hwn ſy 'n lladd o wŷr Iuda chwech ugain mil mewn un diwrnod, gyd â llawer jawn o'r boneddigion, ac yn caethgludo dau can mil o honynt, eithr y rhai hynny trwy gyngor y prophwyd Oded yn cael eu rhyddhâu a'i danfon adref.

2 Bren. xv. 30. 739. Hoſea mab Elah yn lladd Pecah brenin Iſrael, ac yn ennill y frenhiniaeth i'w law ei hun: e ddywedir yn yr ugeinfed ſlwyddyn i Jotham, hynny yw, er yr amſer y dechreuodd Jotham gyntaf deyrnaſu, yr hyn yw 'r un â'r bedwaredd ſlwyddyn i Ahaz ei fab ef. Ni ellir dywedyd i Hoſea, o achos y terfyſgoedd a'r anhreſnau a ganlynodd, deyrnaſu hyd ym mhen naw mlynedd ar ôl hynny, a'r Sdâd yn parhâu trwy 'r holl amſer hynny mewn anhreſn ſawr, heb ddim dull llywodraeth.

xvii. 3. 728. Salmaneſer brenin Aſſyria yn dyfod i fynu yn erbyn Hoſea, ac yn peri iddo ei waſanaethu ef a thalu treth iddo.

xviii. 1. 2 Cron. xxix, xxx, xxxi. 726. Hezeciah yn dyfod ar ol ei dad Ahaz yn frenin ar Iuda, yn dileu delwaddoliaeth ac yn llwyddo, hefyd yn cadw Paſg arbennig, ac yn teyrnaſu naw mlynedd ar hugain yn Ieruſalem; wedi i'w dad ei wneuthur ef yn y ſlwyddyn ddiwaethaf o'i deyrnaſiad yn gynnorthwywr iddo yn y llywodraeth.

2 Bren. xvii. 4. 725. Hoſea brenin Iſrael wedi ymgynghori â So brenin yr Aipht, yn nacâu talu treth i Salmaneſer; Salmaneſer yntau, wedi ei ddigio wrth hynny, ac yn eiddigus o ryw amcan ym mhellach ynghydfwriad Hoſea gyd â brenin yr Aipht, yn gwarchae ar Samaria, a thu a diwedd y drydedd ſlwyddyn yn ei hennill hi, ac yn caethgludo 'r Iſraeliaid i'w wlâd ei hun. Hyn a fu diwedd brenhiniaeth Iſrael, wedi iddi aros ddau cant a phedair ar ddeg a deugain o flynyddoedd ar ol iddi ymrannu oddi wrth frenhiniaeth Iuda.

xviii. 713. Senacherib brenin Aſſyria yn dyfod i fynu yn erbyn Iuda, yn gwarchae ar eu dinaſoedd caerog, ac yn ennill llawer o honynt, eithr teyrnged yn ei ddyhuddo ef.

xx. Hezeciah ynghŷlch yr amſer hyn yn clefychu, ac Eſay yn dywedyd wrtho y byddai farw; eithr trwy dywalld ei ddagrau a'i weddïau at Dduw, yn cael ei jechyd, ac eſdyn ei einioes a'i frenhiniaeth dros bymtheng mlynedd. Yr haul yn argoel o hynny yn myned ddeg o raddau yn ei hol.

Eſay xxxviii.

2 Bren. xix. Eſay xxxvii. 710. Senacherib gan beidio cadw pyngciau 'r heddwch, yn gwarchae ar Ieruſalem, ac yn anſon llythyr cablaidd at Hezeciah; yntau wedi ei agoryd a'i ledu ger bron yr Arglwydd yn y deml, trwy lawer o ddagrau yn erſyn cymmorth oddi wrth Dduw yn erbyn yr Aſſyriaid. Y prophwyd Eſay ar hynny yn dywedyd yn ſicr iddo y bydd i Dduw ei wared ef ac amddiffyn y ddinas honno. Angel yr Arglwydd y noſon honno yn lladd cant a phedwar ugain a phump o filoedd o wŷr yn llu 'r Aſſyriaid; a Senacherib yn fore drannoeth yn ymadaw, ac yn dychwelyd i Ninife, lle cyn pen nemmawr wedyn, ag efe yn addoli yn nhy Niſroch ei dduw, y mae efe 'n cael ei ladd gan ei feibion ei hun.

2 Bren. xxi. 2 Cron. xxxiii. 698. Manaſſeh yn fab deuddeng mlwydd yn dyfod yn lle ei dad Hezeciah, ac yn teyrnaſu bymtheng mlynedd a deugain. Yn gofod i fynu ddelwaddoliaeth, ac yn tywallu llawer jawn o waed gwirion, Duw am hynny yn ei roi ef yn nwylaw 'r Aſſyriaid, a'r rheini yn y ddwyfed flwyddyn ar hugain o'i deyrnaſiad yn ei ddwyn ef yn gaeth i Fabilon; eithr Duw ar ei edifeirwch yn ei ddwyn ef drachefn i'w rydid a'i frenhiniaeth.

Judith xiii. 656. Nabuchodonoſor brenin Aſſyria y ſlwyddyn hon gan amcanu ei wneuthur ei hun yn unben hollol, yn anfon Olophernes ei dywyſog yn erbyn Judea; yntau yn gwarchae ar Fethulia, ac yn cael torri ei ben gan Judeth gwraig o lwyth Simeon.

2 Bren. xxi. 19. 2 Cron. xxxiii. 21, 22. 643. Amon yn fab dwy ſlwydd ar hugain, yn dyfod yn lle ei dad Manaſſeh, ac yn teyrnaſu ddwy flynedd. Delwaddolwr yn wîr fel ei dad ond nid edifeiriol; ei weiſion ei hun yn ei ladd ef.

2 Bren. xxii. 1. 2 Cron. xxxiv. 641. Joſiah, plentyn wyth mlwydd oed, yn dyfod yn lle ei dad Amon, ac yn teyrnaſu un mlynedd ar ddêg ar hugain. Yn ei amſer ef yr oedd Jeremi a Sephaniah y prophwydi a Huldah y brophwydes yn byw.

630. Yn y ddeuddegfed flwyddyn o'i deyrnaſiad y mae yn dechrau diwygiad yn Juda a Ieruſalem, ac yn ei ddwyn ym mlaen yn llwyddiannus.

2 Bren. xxiii. 624. Y flwyddyn hon y mae efe 'n adgyweirio 'r deml. Helciah wedi cael llyfr y gyfraith, yn ei yrru ef at y brenin; yntau yn gwrandaw ei ddarllen drofto 'i gyd, ac ar hynny yn goſyn cyngor i Huldah 'r brophwydes, a hithau yn prophwydo dinyſtr Ieruſalem, ond nid yn ei ddyddiau ef. Joſiah yn galw atto henuriaid Juda a Ieruſalem, a'r offeiriaid hefyd a'r prophwydi; yn peri darllen llyfr y gyfraith drofto yngwydd yr holl bobl, ac yn adnewyddu 'r cyfammod rhwng Duw a'i bobl; yn lloſgi hefyd eſgyrn y meirw ar allor Bethel fel y daroganeſid, ac yn cadw Paſg ardderchog.

2 Cron. xxxiv. 610. Y pryd hyn y mae rhyfel yn torri allan rhwng brenin yr Aipht a brenin Aſſyria. Joſiah yn anyſtyriol yn ymrwymo yn y rhyfel ymma yn erbyn Necho brenin yr Aipht, ac yn cael ei ladd yn nyffryn Megido. Wedi cymmeryd y brenin da fel hyn allan o'r byd, bywyd yr hwn oedd yn unig yn cadw ymmaith gaethiwed Babilon oddi wrth y genedl honno, nid yn unig y bobl oedd yn byw 'r pryd hynny a gwynodd ei farwolaeth ef, eithr yn yr amſer ar ol hynny y cadwyd galar gyhoedd am dano ef. Y mae 'r prophwyd Jeremi hefyd yn goffadwriaeth am dano yn cyfanſoddi ei alarnad, ym mha un y mae efe 'n cwynofain yr adfyd oedd ar fyr yn dyfod ar y bobl hynny megis yn breſennol o flaen ei lygaid ef, ac mewn modd tra chyddofturiol yn annelu megis â'i fys at farwolaeth Joſiah fel ffynhonnell a dechreuad yr holl drueni hynny oedd ar ddyfod.

2 Bren. xxiii. 2 Cron. xxxvi. Wedi marw Joſiah, y bobl yn enneinio Salum, un o'i feibion jeuangaf ef, yn frenin iddynt. Wedi teyrnaſu tri mis, y mae Pharao

rao Nechoh yn ei ddiſwyddo ef, ac yn gwneuthur Eliacim ei frawd hynaf yn frenin ar Juda a Jeruſalem, ac yn troi ei enw ef yn Joachim, eithr Joachas y mae 'n ddwyn gyd ag ef yn gaeth i'r Aipht, lle y mae yn marw.

2 Cron. xxxvi. 5. Joachim yn fab pùm mlwydd ar hugain yn dechrau teyrnaſu, ac yn teyrnaſu un mlynedd ar ddeg.

Jer. xxvi. 609. Uriah a Jeremi yn prophwydo yn erbyn Jeruſalem: lladd y cyntaf, a rhyddhâu 'r diweddaf a'i ollwng ymmaith. Yngh'ylch yr amſer hyn hefyd y mae Habaccuc yn prophwydo.

xxv. 1. 607. Gwneuthur Nabuchodonoſor fawr y flwyddyn hon gan ei dad Nebopolazar yn frenin gyd ag ef yn nheyrnas Aſſyria a Babilon, yn llaw yr hwn y mae Duw yn rhoi Joachim, yr hwn ſy 'n cael ei oſod mywn cadwynau pres i'w ddwyn i Fabilon, eithr ar ei ymoſtyngiad a'i addewid o uſydd-dod yn cael ei adel yn ei dŷ ei hun, lle mae efe 'n byw yn wâs i Nabuchodonoſor dair blynedd.

2 Cron. xxxvi. 6. O ſynediad y brenin a phobl yr Juddewon i wrogaeth a gwaſanaeth Nabuchodonoſor, y mae cyfrif deng mlynedd a thrugain caethiwed Babilon, a ragddaroganeſid gan y prophwyd Jeremi.

Jer. xxv. 11. xxix. 10.

Dan. i. 3, 7. Eſay xxxix. 7. Nabuchodonoſor yn goſod ar Aſpenaz ei ben'ſtafellydd am ddwyn oddi yno o feibion Iſrael o'r gwaed brenhinol (fal y rhagfynegodd y prophwyd Eſay wrth Hezeciah) ac hefyd o'r tywyſogion, y llangciau dewiſolaf am degwch a ſynwyr ag a allai gael, y rhai wedi eu dwyn i fynu dair blynedd yn gaith a chyfarwyddyd y Caldeaid, a allent ſod yn gymmwys wedyn i waſanaethu 'r brenin yn ei lys; ym myſg pa rai o lwyth Juda y mae Daniel a elwir Belteſaſſar, Hananiah a elwir Sadrach, Miſael a elwir Meſach, ac Azariah a elwir Abednego. Eu henwau wedi eu troi fel hyn gen y pen'ſtafellydd.

Dan. i. 2. 2 Cron. xxxvi. 7. 605. Tra yw Nabuchodonoſor yn ymlid ei ſuddugoliaethau ar frenin yr Aipht, y mae ei dad yn marw, yr hyn pan wybu y mae yn peri dwyn ymmaith y caethion, ac yn rhedeg y ffordd neſaf gyd â nifer ſechan o wŷr i Fabilon, lle mae 'n cael ei dderbyn megis cyfreithlon wrthddrychiad arglwyddiaethau ei dâd. Y mae 'n peri dwyn i Fabilon gymmaint ag a weles efe ſod yn dda o leſtri a dodrefn y deml, ac yn eu goſod yn nhŷ ei dduw, ſef oedd hwnnw, Belus.

2 Bren. xxiv. 1. 603. Joachim wedi byw dair blynedd mywn uſydd-dod i frenin Babilon, yn ſyrthio ymmaith, ac yn gwrthryſela yn ei erbyn ef.

Dan. ii. Y flwyddyn hon (a hi 'n ail o deyrnaſiad Nabuchodonoſor, gan ei chymmeryd fel y dechreuodd ar farwolaeth ei dad) y mae Daniel yn cael breuddwyd Nabuchodonoſor, ac yn ei ddeongli i arwyddocâu y pedair prif unbennaeth, ar yr hyn y mae efe a'i gyfeillion yn cael mawr ddyrchafiaeth.

2 Bren. xxiv. 2. 600. Nabuchodonoſor yn anfon byddin o Galdeaid, Syriaid, Moabiaid, ac Ammoniaid yn erbyn Joachim; y rheini yn anrheithio holl wlâd Judea, ac yn caethgludo oddi yno dair mil a thri ar hugain o Juddewon;

Jer. xxii. 18. xxxvi. 30. 599. Dal Joachim hefyd yn garcharor, yr hwn y maent yn ei ladd, ac yn peri lluſgo ei gelain allan i borth Jeruſalem (megis y rhagfynegodd y prophwyd Jeremi) a'i adel y tu allan i'r mur heb ei gladdu.

2 Bren. xxiv. 8. Joachin (a elwir hefyd Coniah a Jeconiah) yn fab deunaw mlwydd yn mynêd yn frenin yn lle ei dad Joachim, ac yn teyrnaſu dri mîs yn Jeruſalem.

2 Cron. xxxvi. 9. Nabuchodonoſor yn dyfod â llu yn ei erbyn ef, ac yn gwarchae ar Jeruſalem; Joachin a'i holl geraint a'i wŷr llys yn dyfod allan i'w gyfarfod ef. Nabuchodonoſor yn eu gwneud cymmain un yn garcharorion, yn myned i Jeruſalem, ac yn cymmeryd cymmaint ag a ddichon efe gael o dryſor yn y deml a llys y brenin, gan dorri 'n ddrylliau 'r holl leſtri aur a'r dodrefn a wnaethai Salomon i'r deml; yn caethgludo i Fabilon y brenin, ei fam, ei wragedd, ei wŷr llys, ei 'ſtafellyddion, a deng mil o wŷr cedyrn nerthol o Jeruſalem, heb adael yn ôl ond pobl ddodion y wlâd; ac o'r wlâd oddi amgylch y mae 'n dwyn yn gaeth hefyd wyth mil o ſeiri a gofaint; ym myſg y gaethglud y mae Mordecai ac Ezeciel yr offeiriad; am hynny y mae Ezeciel yn ei brophwydoliaeth yn cyfrif yr amſer o hyd o ddechreuad y caethiwed ymma. Anfon Epiſtol o waith Jeremi meddant, at y gaethglud yn awr, gan eu rhybuddio i ochel delwaddoliaeth a gânt hwy weled ym Mabilon.

Eſay xxxix. 6. Jer. xxii. 1. Ezeciel xvii. 12. i. 2, 3. Baruch vi.

Nabuchodonoſor cyn ymadaw o Jeruſalem, yn goſod Mattaniah ewythr Joachin frawd ei dad, yn frenin yn ei le ef, gan droi ei enw ef yn Sedeciah.

2 Bren. xxiv. 17.

Sedeciah gan ddechrau teyrnaſu yn fab un mlwydd ar hugain, yn teyrnaſu un mlynedd ar ddeg. Efe trwy wrthryſela yn erbyn Nabuchodonoſor, neu 'n hytrach trwy barhâu mywn gwrthryfel amlwg (ſel y gwnaethai ei deidiau) yn erbyn Duw, a ddug ar Jeruſalem a holl genedl yr Juddewon yr adſyd hîr haeddedigol hwnnw a ddarfuaſai i Dduw cyn ſynyched eu rhagrybuddio o'i blegid trwy ei brophwydi; canys yn niwedd yr unfed flwyddyn ar ddeg i Sedeciah, y mae Nabuchodonoſor yn ol hîr warchae yn ennill Jeruſalem, a'i Galdeaid yn myned iddi. Sedeciah yn ffoi ymmaith liw nos, eithr wedi ei erlid yn cael ei ddala a'i ddwyn yn garcharor i Riblah pen llettv Nabuchodonoſor; yno wedi gweled yn gyntaf ladd ei blant o flaen ei lygaid ef, y mae wedyn yn cael tynnu y llygaid hynny, a chwedi ei lwytho â chadwynau yn cael ei ddwyn ymmaith yn gaeth i Fabilon. Yngh'ylch mîs wedi ennill y ddinas, y mae Nabuzaradan pennaeth y milwyr, wedi ei anfon gan Nabuchodonoſor, yn myned i mywn iddi, yn llosgi 'r deml, a llys y brenin, a rhai o dai 'r tywyſogion, ac felly yn goſod yr holl ddinas yn lludw: mae Nabuzaradan, wedi dryllio muriau Jeruſalem hyd y llawr, yn dwyn pawb a'r a adawſid yn y ddinas, a'r rhai a ſyrthiaſent ychydig o'r blaen at y Caldeaid, a chymmaint ag a allodd gael o dryſor, gyd ag ef i Fabilon.

2 Cron. xxxvi. 2 Bren. xxv. 2 Jer. xxxix. lii. Dan. Eſay Hab. Jer. Dan.

Ac fel hyn y caethgludwyd Juda o'i wlâd ei hun, bedwar cant ac wyth mlynedd a thrugain, wedi i Ddaſydd ddechrau teyrnaſu arno, wyth a phedwar ugain a thri chan mlynedd wedi i'r deg llwyth gwympo ymmaith, a phedair blynedd ar ddeg ar hugain a chant yn ol dinyſtrio teyrnas Iſrael.

27. 2 Bren. xxv. 21. Jer. xl. 7. Ezeciel xxv. 12.

Y prophwyd Obadiah yn dadgan barnedigaethau Duw yn erbyn yr Edomiaid, ſy 'n awr yn llawenychu o blegid aflwydd yr Juddewon. Gwneuthur yr un peth gan Jeremi ac Ezeciel ac awdur y bedwaredd ſalm ar bymtheg a thrugain, a'r ddwyſed ar bymtheg ar ol cant, y rhai a 'ſgriſemnaſant ill tri ynghŷlch yr un amſer.

Gwedhed

Chweched Oes y Byd.

Unbennaeth Babilon.

Dan. iv. 29, 33. 569. NAbuchodonosor yn falch o'i fu-
c.g.Crist. ddugoliaethau ar yr Aipht, ac
iddo orchfygu Judea a gwledydd eraill, gan
ymffrostio ym mawredd ei adeiladau, yn
gorphwyllo, ac yn cael ei yrru oddi wrth
gymdeithas dynion.

34 562. Wedi bod saith mlynedd ym mysg
anifeiliaid y maes, a dychwelyd o'i wybodaeth
arno, y mae 'n cyfaddef yn ufydd allu Duw
a'i ddajoni iddo ef, ac yn cael ei frenhiniaeth
drachefn. Ym mhen ychydig ddyddiau ar
ol hynny y mae 'n marw, wedi teyrnasu yng-
hŷlch ugain mis gyd â'i dad, a thair blynedd
a deugain ei hunan.

2 Bren. xxv. 27. Jer. lii. 31. Efilmerodach ei fab yn dyfod yn ei le ef,
yn y ddwyfed flwyddyn ar bymtheg ar hu-
gain o gaethiwed Joachin, neu Jeconiah, yr
hwn yn y man fy 'n peri ehengu ar Joachin,
ac ym mhen deuddydd wedyn yn newid ei
garcharwisg ef, yn ei ofod ef goruwch holl
dywysogion ei lys, ac yn peri iddo fwyta ar
ei fwrdd ei hun. Joachin yn marw ynghŷlch
dwy flynedd ar ôl hynny.

Dan. vii. 1. 555. Belfaffar, wedi troi ymmaith ryw
rai a laddafent ei dad ef Efilmerodach, ac a
draisfeddiannafent ei deyrngadair ef, yn dy-
fod yn frenin yn ei le ef ym Mabilon. Yn y
flwyddyn gyntaf o deyrnafiad y brenin hwn,
y mae Daniel yn cael gweledigaeth y pedwar
anifail, yn arwyddocâu pedair unbennaeth
y byd, a honno o Dduw yn rhoi i fynu
bob awdurdod ac arglwyddiaeth i Fab y
dŷn.

viii. 1. 553. Yn y drydedd flwyddyn i Felfaffar
y mae Daniel yn derbyn gweledigaeth yr
hwrdd a'r bwch, yn arwyddocâu dinyftr
brenhiniaeth y Perfiaid, a'r trueni tramawr
a ddygai Antiochus ar bobl Dduw.

v. 538. Y flwyddyn hon y mae Belfaffar yn
gwneuthur gwledd fawr i'w holl bendefi-
gion, ac yn peri dwyn allan holl leftri ty
Jer. xxvii. 7. Dduw a ddygafai ei daid ef Nabuchodono-
for ymmaith o Jerufalem er gogoniant i'w
eulynnod a dïanrhydedd i'r gwîr Dduw.
Ynghanol yr holl lawenydd ymma, y mae
llaw yn ymddangos, gan 'fgrifennu ar bared
Dan. v. y lle, yn yr hwn yr oedd y brenin a'i wefteion
lliofog yn eiftedd i yfed. Y brenin wedi
dychrynu 'n fawr wrth hyn, yn anfon am ei
aftronomyddion a'i frudwyr Caldeaidd, ac
yn gorchymmyn iddynt ddarllen yr ysgrifen,
a rhoi iddo ef ei deongliad, ond gan na allent
wneuthur yr un o honynt, y mae efe 'n anfon
am Ddaniel, yr hwn fy 'n darllen y 'fgrifen, ac
yn rhoi i'r brenin ei deongliad; ar hynny
Efay xiii. Hab. ii. Jer. xxv. 12. l, li. cyhoeddi Daniel yn bublic yn drydydd gŵr
yn y frenhiniaeth. Lladd Belfaffar y nofon
honno, Cyrus yn ennill Babilon, a throfi 'r
ymerodraeth at y Mediaid a'r Perfiaid, fel
Dan. v. 31. y daroganefid lawer gwaith gan y pro-
phwydi.

vi. 6. Cyrus, wedi rhoi brenhiniaeth Babilon i
Ddarius y Mediad, gan gadw rhai palafau
yn y ddinas iddo ei hun, yn dychwelyd trwy
Fedia i Berfia.

Mawrder Daniel yn magu cenfigen mywn
rhai o wŷr pennaf a fwyddogion y llys; y
rheini yn ceifio ei ddinyftrio ef, eithr lleb
gael dim o ran y frenhiniaeth fel y cyhuddent
ef, yn bwriadu trîn pethau felly fel y delai
duwiolder Daniel tu ag at Dduw, yn fai a
haeddai farwolaeth. Y maent yn annog y
brenin i wneuthur gorchymmyn na erchid
un arch gan un Duw na dŷn dros ddeng
niwrnod ar hugain ond ganddo ef yn unig.
Yr hwn orchymmyn y mae Daniel yn dorri
trwy weddîo ar ei Dduw dair gwaith yn y
dydd, a'i fwrw am wneuthur felly i ffau 'r
llewod; ond wedi ei gael heb ddigwydd
iddo ddim niwaid yno, Darius yn gorchym-
myn bwrw 'r bradwyr i'r un ffau, a hwyn-
tau yn cael eu difa yn y fan, a'r brenin yn
cyhoeddi cyfraith bod i bawb trwy ei holl
arglwyddiaethau berchi ac ofni Duw Da-
niel.

Dan. ix. 537. Tu a diwedd y flwyddyn gyntaf o
deyrnafiad Darius y Mediad, i'w chyfrif o
ddinyftriad ymerodraeth Babilon, y mae 'r
ddegfed flwyddyn a thrugain o gaethiwed yr
Juddewon yn dechrau, yr hon wrth bro-
phwydoliaeth Jeremi oedd i fod y flwyddyn
Jer. xxix. 10. ddiwaethaf o'i hadfyd hwynt; wrth yftyried
Dan. ix. fod y cyfryw amfer ym mron ei ddiwedd, y
mae Daniel yn tywallu gweddïau tra gwres-
fog ar Dduw am faddau ei bechodau ei hun
a'i bobl; ac am yr ymwared a addawyd idd-
ynt o'i caethiwed i'r hwn y mae 'r angel
Gabriel yn dyfod ag atteb nid yn unig am
hyn, eithr hefyd am ymwared yr eglwys
trwy farwolaeth y Meffiah, gan adrodd y
brophwydoliaeth dra nodedig honno am y
deg wythnos a thrugain.

Unbennaeth Perfia.

536. Cyrus, wedi marw ei dad Cambyfes
a'i chwegrwn Cyacfares, yn cael Perfia
wrth etifeddiaeth, a Media wrth gytundeb
priodas; ac felly yn meddiannu holl yme-
rodraeth y dwyrain; o'r amfer hyn y mae
Cfenophon (*Inftit. lib.* 8.) yn cyfrif y
feithfed flwyddyn o'i deyrnafiad, a'r 'Sgry-
thur Lân allan o Hiftoriâu 'r Mediaid a'r
Perfiaid yn cyfrif hon yn flwyddyn gyntaf
iddo ef; canys y mae yn dyfgu i ni mai yn
y flwyddyn hon y daeth ei orchymmyn clod-
fawr ef allan, Fel hyn y dywed Cyrus bre-
Ezra i. 2. nin Perfia, Arglwydd Dduw 'r nefoedd a
roddes i mi holl deyrnafoedd y ddaear, ac
efe a orchymmynnodd i mi adeiladu iddo ef
dŷ yn Jerufalem, yr hon fydd yn Juda, *&c.*
Ar yr hwn amfer y mae deng mlynedd a
thrugain caethiwed Babilon wedi diweddu
(fel y rhagfynegwyd gan Efay a Jeremi, y
cyntaf yn crybwyll Cyrus wrth ei enw) y
Efay xliv. 28. xlv. 1, 13. mae efe 'n rhoi cennad i'r holl Juddewon
fydd yn preftwylio ym mhob rhan o'i ar-
glwyddiaethau i ddychwelyd i'w gwlâd eu
hun, ac yn gorchymmyn iddynt fyned yn ddi
oed i ailadeiladu 'r deml.

Y mae efe hefyd yn rhoi yn ol leftri ty
Dduw a ddygafai Nabuchodonofor oddi
yno; ac yn rhoddi tu ag at yr adeila-
daeth.

Ezra i. 5, 6. ii. Neh. vii. Mae 'r Juddewon gan hynny yn dych-
welyd i'w gwlâd eu hun, a'r rhai flottaf
wedi cael cymmorth i ddwyn eu coft ar y
ffordd. Rhifedi plant y dalaith, neu He-
brëaid a aned yng Nghaldea, y rhai gyd â'i
tywyfog Zorobabel a'i harchoffeiriad Je-
fua fy 'n dychwelyd o gaethiwed yw dwy
fil a deugain, trychant, a thri ugain, heb law
'r profelytiaid, y gweifion a'r morwynion
hyd yn faith mil, trychant, a dau ar bymtheg
ar hugain o rifedi. Yn awr cyfrif neill-
duol llechres Ezra wedi ei fwrw ynghŷd fy
'n dyfod yn unig i naw mil ar hugain wyth
cant a deunaw, a'r rheini ynghyfrif Nehe-
mïah nid ŷnt yn gwneuthur ond tair mil a
chant

chant ac un ar ddeg ar hugain, y ddau yn dyfod yn fyrr jawn o'r fwm cyffredin, dwy fil a deugain, trychant, a thri ugain, yr hwn yngodrau pob llechres a ddywedir ei fôd yn rhifedi 'r holl gynnulleidfa. Am hynny mae 'r Hebreaid yn y nawfed bennod ar hugain o'i Cronicl mawr yn dywedyd i ni, fod yn rhaid i gwplâu cyflawn fwm dwy fil a deugain, trychant, a thri ugain, i ni fwrw i mywn y rhenai o ddeg llwyth arall Iſrael, y rhai a ddaethant i fynu o gaethiwed gyd â'r Juddewon. Canys hyd yn oed hyd at ddiwreiddiad diweddaf Ysdâd yr Juddewon, fe arhofodd peth gweddillion o'r deg llwyth arall, nid yn unig yn y wasgarfa, ac yn Jeruſalem a dinaſoedd eraill Juda, eithr heſyd o'r rhai a ymgadwaſant yn waſdad yn eu lleoedd eu hunain; canys ni yſgubodd Salmaneſer bawb ymmaith o'r holl ddeg llwyth, eithr a adawodd weddillon o honynt yn eu gwlâd eu hun, y rhai wedi hynny ynghŷd a'r Juddewon, Benjaminiaid, a Leſiaid, a ddygwyd ymmaith gan Nabuchodonoſor i Fabilon, ac ŷnt yn awr wedi eu gollwng ymmaith, a'i hanfon yn ôl drachefn gan Gyrus.

Actau xxvi. 7. Galar. i. 1. Luc ii. 36. 2 Cron. xi. 16.

Ezra iii. 8, 13.

535. Yn yr ail flwyddyn wedi eu dychwelyd o Fabilon, yn yr ail mîs, y maent yn goſod Leſiaid yn olygwyr ar waith tŷ 'r Arglwydd, ac yn ſylfaenu 'r deml; yr hên wŷr, y rhai dair blynedd ar ddeg a deugain o'r blaen a welſent yr hên deml ar ei thraed, yn wylo, a'r rhai jeuainge yn gorfoleddu gweled yr un newydd yn myned i fynu.

iv. 5,

534. Y Samariaid, trwy gyſryngau rhai cynghorwyr o bobtu Cyrus, y rhai a wobrwyaſent er mwyn hynny, yn rhwyſtro 'r Juddewon i adeiladu 'r deml.

6.

529. Yn nechrau teyrnaſiad Artaceſerceſes (a elwir mywn Hiſtoriâu cenhedlig Cambyſes) y mae 'r Samariaid, y rhai tra ſu byw Cyrus, a wnaethant frad yr Juddewon yn ddirgel, yn awr yn amlwg yn llunio achwyn union yn 'ſgrifennedig yn erbyn trigolion Juda a Jeruſalem, ac yn ei roi i'r brenin; yntau yn y ſan yr gwahardd i'r Juddewon fyned rhagddynt i adeiladu.

v. 1.

520. Yn yr ail flwyddyn i 'r brenin Darïus Hyſtaſpes (yr un a Ahasferus) Zorobabel a Jeſua, wedi eu hannog gan y prophwydi Haggai a Zechariah, yn rhwyddhâu adeiladu 'r deml.

Hag. ii. 1, 9.

Haggai yn prophwydo y bydd mwy gogoniant yr ail deml nâ'r gyntaf, nid gan fod yn odidoccach adeiladaeth, ond o ran yr anrhydeddai 'r Meſïah bendigedig hi ryw ddydd â'i breſennoldeb, a gwaſgaru tangnefedd oddi yno i'r holl genhedloedd.

Zech. i. 1, 6.

Ynghŷlch yr amſer ymma y mae 'r prophwyd Zecharïah yn annog yr Juddewon i edifarhâu.

Eſther i. ii.

519. Ahasferus yn rhoi ymmaith y fren-
518. Shines Faſthi ei wraig, ac ym mhen ychydig wedi yn dyweddïo Eſther nith Mordecai yr Juddew.

Ezra vi.

515. Gorphen y deml yn y chweched flwyddyn i Ddarïus neu Ahasferus; cadw gwŷl ei chyſſegriad â llawenydd mawr, ac amlwch o aberthau; yr offeiriaid a'r Leſiaid bob un yn ei le yn gweini yngwaſanaeth y deml. Cadw gwyl y Paſg heſyd.

Eſther iii.

510. Haman yr Agagiad o hiliogaeth yr Amaleciaid, mywn dyrchafiaeth fawr gyd â'r brenin Ahasferus, yn anfodloni i Fordecai am beidio ymgrymmu ac ymoſtwng iddo ef megis y gwnai craill, yn amcanu dïal ar holl genedl yr Juddewon (oedd bob amſer yngwrthwyneb idd ei genedl ef) a'i diwreiddio: er mwyn cwplâu y cyfrywŷ amcan, fel y caffai amſer llwyddiannus, y mae efe 'n peri bwrw Pwr, hynny yw, y Coelbren, ger ei fron ef, i wybod y dydd a'r mis ym mha un y diſethid yr Juddewon, a'r coelbren yn cwympo ar y deuddegfed mîs Adar.

Deut. xxv. 19.

Haman yn cael gorchymmyn oddi wrth y brenin i ladd yr holl Juddewon heb edrych ar ryw nac oedran ar y trydydd dydd ar ddeg o'r mîs Adar, ym mhob talaith o arglwyddiaethau 'r brenin. Ar hynny, Mordecai, Eſther, a'r holl Juddewon yn ymoſtwng ger bron yr Arglwydd trwy unpryd a gweddi.

Eſther iv.

Ahasferus wrth glywed darllen yn y Cronicl i Fordecai ddadguddio bradwriaeth iddo, yn gorchymmyn iddo gael anrhydedd cyhoeddus, a hynny gan Haman ei hun ei elyn marwol.

vi.

Eſther wrth wneuthur croeſaw i'r brenin ac i Haman, yn gofyn ei heinioes ei hun a'i phobl, ac yn achwyn ar Haman. Y brenin, wedi clywed sôn am y crogbren a barotoiſai Haman i Fordecai, yn peri ei grogi ef arno.

vii.

509. Yn goffadwriaeth am y mawr ymwared hyn, gwneuthur dau ddïwrnod y Purim yn wyliau.

ix.

467. Ezra 'r offeiriad, gŵr cyfarwydd ynghyfraith Moſes, yn cael cennad a gorchymmyn ehang oddi wrth y brenin Artaceſerceſes i ſeſydlu gwladwriaeth yr Juddewon ac i ddiwygio 'r eglwys yn Jeruſalem.

Ezra vii.

Ezra yn y ſeithfed flwyddyn i Artaceſerceſes, â lïaws mawr o'r Juddewon yn myned allan o Fabilon.

viii.

Ezra yn rhwymo y rhai a gymmeraſent wragedd dieithr i'w hanfon hwy yn eu hôl.

ix, x.

455. Yn yr ugeinfed flwyddyn i'r brenin Artaceſerceſes, Nehemïah Juddew, un o'i drulliaid ef, wedi ei wneuthur yn dywyſog Judea, yn cael cennad i adeiladu muriau Jeruſalem, ac yn gorphen y gwaith mawr hwnnw. Ymma y mae deg wythnos a thrugain Daniel yn dechrau i'w cyflawni cyn dïoddefaint ein Hiachawdwr.

Neh. ii.

Dan. ix. 24.

442. Nehemïah, wedi bod yn dywyſog Judea ddeuddeng mlynedd, yn dychwelyd at frenin Perſia.

Neh. v. 14. xiii. 6.

415. Y flwyddyn hon yw 'r unfed Jubili ar hugain, y diweddaf oll a welodd prophwydi 'r hên Deſtament; canys nid yw y lle hwnnw yn Nehemïah, *pen.* xii. 22. i'w ddyall am y Darïus diweddaf, ond am Ddarïus Nothus, yr hwn ſy 'n awr yn teyrnaſu ym Mherſia; gan fod cyflawn hiſtoria Nehemïah yn diweddu gyd ag amſer Artaceſerceſes Lawhir tad y Darïus Nothus hwn.

Dan. v. 7. xi. 1

Hyd hyn (medd Euſebius yn ei Gronicl hyd y ddeuddegfed flwyddyn ar hugain i Artaceſerceſes) y mae 'Sgrythurau duwiol yr Hebreaid yn cynnwys blynyddol Lyſrau 'r amſeroedd; eithr y pethau a wnaethpwyd yn eu myſg hwy wedi hynny, ſy raid i ni eu rhoi o Lyſrau 'r Maccabeaid, ac o 'ſgrifenadau Joſephus, y rhai a 'ſgrifennaſant 'Storia gyffredin o Helynt yr Juddewon oddi yno i wared hyd amſer y Rhufeiniaid.

Fod Malac ni y diwaethaf o'r prophwydi yn gydoeſwr â Nehemïah, ſy 'n ymddangos o hyn, nad yw efe yn un lle yn cynghori 'r bobl i adeiladu 'r deml, fel y cynghorodd Haggai a Zecharïah; ond gan fod y deml yn awr wedi ei hadeiladu, y mae efe 'n ceryddu

Nehem. xiii. ceryddu 'r anllywodraeth, y mae Nehemiah ar ei ail ddychweliad â gorchymmyn newydd o Fabilon, yn dywedyd iddo gael wedi ymlusgo i mywn yn ei absen ef ym mysg yr Juddewon, megis prïodi gwragedd dieithr, arfal degymmau, a chamarferion yn addoliad Duw. Ac o herwydd nad oedd diſgwil am brophwydi ol ynol ſe. o'r blaen, y mae efe 'n cynghori 'r bobl i lynu 'n ddyfal wrth Gyfraith Moſes, nes ymddangoſai Criſt y pen Prophwyd; yr hwn y deuai Joan Fedyddiwr ei Genhadwr mywn Ysbryd a nerth Elïas i drol calonnau 'r tadau at y plant, a'r anufydd i ddoethineb y cyfiawn. Edrych i *Mac.* 4. 46. a 9. 17.

Malachi iv. 4. Luc i. 17. Matth. xi. 14. xvii. 12.

Joſ. Ant. l. 11. c. 8. 335. A Lecſander fawr, brenin Macedonia, yn myned o Europa i Aſia, ac yn dechrau anrheithio Ymerodraeth Perſia.

Id. ibid. 332. Manaſſes brawd Jâdus yr archoffeiriad, trwy wrthod troi heibio ei wraig ddieithr, yn cael ei yrru oddi wrth yr aberth; Sanabalath ei chwegrwn ef, tywyſog Samaria, yn cilio oddi wrth Ddarïus, yn cael cennad gen Alecſander i adeiladu teml ar fynydd Garizim, ac yn gwneuthur Manaſſes yn archoffeiriad iddi: at yr hwn y mae pawb yn cyrchu ag ſy wedi ymddyſu mywn prïodas anghyfreithlon, a'r holl gyfryw droſeddwyr ag ſy 'n tybied nad ydynt ddïogel yn Jeruſalem. Hyn oedd codiad cyfarfod ſiſmaticaidd y Samariaid. Edrych *Joan* 4. 20.

Id. ibid. Alecſander yn dyfod tu a Jeruſalem ar ſedr gwarchae arni; Jâdus yr archoffeiriad wedi clywed hynny, yn gwiſgo 'i drwſiad offeiriadaidd am dano, a'r bobl gyd ag ef i gyd mywn gwiſgoedd gwynnion yn myned allan i'w gyfarfod ef: Alecſander gan weled ei wedd ef, yn cwympo i lawr ger ei fron ef, gan ddywedyd i wr tra ydd oedd efe ym Macedonia, ymddangos iddo yn y wedd honno 'n gymmwys, yr hwn a'i gwahoddodd ef i ddyfod i Aſia, ac a addawodd roddi ymerodraeth Perſia yn ei ddwylaw ef. Wedi hyn y mae efe yn myned i'r deml, ac yn offrymmu aberth wrth gyfarwyddyd yr archoffeiriad. Y maent yn dangos iddo

Dan. viii. 7. xi. 13. brophwydoliaeth Daniel, y deuai Groegwr i ddinyſtrio 'r Perſiaid; wrth yr hyn y mae efe yn ymgadarnhäu yn fawr yn ei dyb mai efe ei hun yw 'r gwr: yn olaf y mae efe yn rhoddi i'r Juddewon pa ffafr bynnag a ddymunent, ac yn ymadaw.

Unbennaeth Macedonia.

330. Gorchfygu 'r Perſiaid, lladd Darïus, ac Alecſander yn myned yn Unben ar yr holl ddwyreinfyd.

Joſ. Anr. l. 12. c. 1. 323. Alecſander wedi tëyrnaſu chwe blynedd a deng mîs, yn marw. Rhannu ei lu a'i arglwyddiaethau ef rhwng ei gapteniaid.

1 Mac. 1. Antigonus yn ei wneuthur ei hun yn llywydd Aſia, Seleucus yn llywydd Babilon a'i chyffiniau, Lyſimachus yn cael yr Heleſpontus, Caſſander yn cael Macedonia, a Ptoleméus mab Lagus yn cael yr Aipht.

Joſ. Ant. l. 12. c. 1. 320. Ptoleméus a gyfenwid Soter, yn ei wneuthur ei hun yn ben ar Jeruſalem trwy ddichell; canys y mae efe yn myned i'r ddinas ar ddydd ſabbath dan eſgus offrymmu aberth, a thra yw 'r Juddewon heb dybied fod dim drwg, yn treulio 'r dydd trwy ddïofalwch a ſeguryd, y mae efe yn cwympo ar y ddinas yn ddiwrthladd, ac yn gwneuthur y dinaſyddion yn garcharorion. Y mae yn anſon amryw o'r Juddewon i fyw i'r Aipht, ac yn gofod hyder mawr ynddynt.

Joſ. Ant. l. 12. c. 2. 277. Ptolemëus Philadelphus mab Ptolemëus Soter, gan garu dyſg yn fawr, yn adeiladu llyfrgrawn tra godidog yn Alecſandria. Demetrius Phalereus, i'r hwn y rhoddodd efe 'r gofal am gaſglu pob math o lyfrau, ac o bob gwlad, yn ei berſwadio ef i ofod deuddeg a thrugain o Juddewon i gyfieithu 'r 'Sgrythur Lân o'r Hebreaeg wreiddiol i'r Gryw, yr hyn a wnaethpwyd yn y ſeithfed flwyddyn o'i deyrnaſiad ef. Y brenin hefyd yn rhyddhäu llawer o'r Juddewon o'i caethiwed, ac yn cyſſegru llawer o anrhegion i deml Dduw yn Jeruſalem.

2 Mac. iii. 177. Un Simon, gwr o lwyth Benjamin, goruwchwiliwr y deml, wedi ymrafaelio ag Onïas yr archoffeiriad, yn myned at Apolonius llywodraethwr Cœleſyria, ac yn mynegi iddo fod tryſor aneiriol yn y deml; Apolonius yn dywedyd hynny wrth Seleucus frenin ei feiſtr, yr hwn yn y man ſy 'n anfon Heliodorus, golygwr ei dryſordy, i Jeruſalem i gyrchu ymmaith yr arian ymma. Heliodorus wedi myned i'r deml, yn cael ei daraw gan engylion i lawr yn y fan honno, a'i ddwyn oddi yno yn hanner marw; eithr wrth weddi Onïas, yn cael ei gynnefin jechyd; gan ddychwelyd at Seleucus a'i hanfonaſai ef, y mae efe yn nuwrygu ſancteiddrwydd y deml, a gallu Duw ſy 'n trigo ynddi.

1 Mac. i. 10. 176. Antiochus Epiphanes yn dyfod yn lle Seleucus yn nheyrnas Syria, ac yn teyrnaſu un mlynedd ar ddeg a thai miſoedd.

2 Mac. iv. 7, 23, 175. Jaſon trwy lygru Antiochus frenin, yn cael myned yn archoffeiriad.

24, 172. Menelaus, brawd Simon y bradwr, wedi ei oſod gan Jaſon i ddwyn yr arian i'r brenin, yn addo tri chan talent o arian mwy nag a anfonaſai Jaſon, ac yn cael yr offeiriadaeth iddo ei hun.

27. 170. Menelaus trwy beidio talu 'r arian a addawſai i'r brenin wrth gael ei ſwydd, yn cael ei wyſio i atteb ger bron Antiochus; yntau 'n gofod Lyſimachus ei frawd yn ei le ef.

1 Mac. i. 21, 22. 2 Mac. v. Joſ. Ant. l. 12. c. 7. Dan. xi. 28. Antiochus yn ennill Jeruſalem, ac yn elhau heithio, yn ysbeilio 'r deml, yn dinyſtrio dengain mil o'r trigolion, ac yn gwerthu cymmaint arall ychwaneg. Yn amcanu hefyd ddiddymmu addoliad Duw, ac yn peri i lawer o'r Juddewon ymwrthod â'i creſydd. Y Samariaid yn awr yn gwadu eu carennydd â'r Juddewon, i ba rai y maent yn cymmeryd arnynt mywn llwyddiant eu bod yn dderyd, ac yn cyſſegru 'r deml ar fynydd Garizim i Jupiter.

1 Mac. viii. 5. 168. Perſeus wedi rhyfela â'r Rhufeiniaid, yn cael ei orchfygu ganddynt y flwyddyn hon, a brenhiniaeth y Macedoniaid yn diweddu, wedi iddi o Garanus aros chwe chant a chwech ar hugain o flynyddoedd. Er hynny gweddillion ymerodraeth Macedonia, tra 'r oedd eiddo 'r Rhufeiniaid yn codi, etto 'n aros yn Ptolemeaid yr Aipht a brenhinoedd Syria.

1 Mac. i. 45. 167. Antiochus frenin trwy orchymmyn cyhoedd yn erchi i'r holl genhedloedd ſy 'n ddeiliaid iddo ef, gadw 'r un ffordd o addoli Duw, a chan adael heibio eu defodau eu hunain, broffeſu 'r un grefydd â'r Groegiaid; cosb marwolaeth wedi ei fygwth i'r cyfryw a fyddai anufydd; a gofod golygwyr ar bob pobl a chenedl, i'w cymmell i hynny. Llawer o'r Juddewon yn dewis yn hytrach

ddïoddeſ y poenau creulonaf nag offrymmu aberth i eulynnod; yr hyn ferthyrdod oll ynghŷd â dïoddefaint ardderchog y ſaith brawd o Faccabeaid, ſy 'n 'ſgrifennedig yn nau Lyfr y Maccabeaid.

1 Mac. ii. 2 Mac. vi. Joſ. Ant. l. 12. c. 8.

Matthias offeiriad, a'i bùm mab, yn lladd y rhai a anfonwyd gan frenin Antiochus i'w cymmell i offrymmu aberthau ffiaidd, ac wedyn, yn ffoi i'r anialwch. Llawer o rai eraill yn eu canlyn hwynt, o ba rai y mae nifer fawr yn cael eu tagu yn eu llochesau am na ymddiffynnent ar y dydd ſabboth. Matthias yn rhoi ymmaith y goelgreſydd hynny, ac yn cynghori ei feibion i faentumio eu rhagorfraint a gwaredu eu gwlâd o gaethiwed.

1 Mac. iii. 2 Mac. viii. Joſ. Ant. l. 12. c. 9.

166. Matthias yn marw, a Judas Maccabeus yn cymmeryd arno drîn y matter. Eſe yn gwaredu ei wlâd, ac yn ei glanhâu oddi wrth y ffieidd-dra a wnaethid ynddi.

1 Mac. iii. Joſ. Ant. l. 12. c. 10.

Apòlonius, llywodraethwr Samaria, wedi codi llu ym myſg y cenhedloedd a'r Samariaid, yn ſyrthio ar yr Juddewon, eithr yn cael ei ddryllio a'i ladd gan Judas Maccabëus.

1 Mac. iii. 13. Joſeph. ut ſuprá.

Seron hefyd tywyſog Syria iſaf, yn byddino 'r holl luoedd ſy dan ei orchymmyn eſ, ac yn rhuthro ar Judea; Judas Maccabëus yn ymladd ag eſ, ac yn lladd wyth cant o'i wŷr eſ yn y lle, ac yn gyrru 'r lleill i ffoi.

1 Mac. iii. 27. iv Joſ. Ant. l. 12. c. 11.

165. Judas Maccabeus yn gorchfygu llu mawr a anfonaſai Antiochus yn erbyn yr Juddewon. Lyſias yn dychwelyd â gallu mawr; Judas yn lladd pùm mil o'i wŷr eſ, ac yn peri iddo ddychwelyd: yn puro 'r deml, ac yn ei goſod mywn treſn, wedi iddi fod yn anghyfannedd dair blynedd; ac yn adeiladu mur o amgylch Sïon.

1 Mac. vi. 2 Mac. ix. 9. Joſ. Ant. l. 12 c. 13.

164. Dolur aruthrol yn taro ymherfedd Antiochus, a'r fath bydredd a ddaeth yn ei gnawd eſ, fel y magodd pryfed ynthò; eſe yn cyfaddef iddo gael ei daraw â phla am y cam a wnaethai â Jeruſalem, ac yn marw yn y ganfed a'r nawfed flwyddyn a deugain o deyrnaſiad y Groegiaid. Ei fab Antiochus Eupator, plentyn naw mlwydd oed, yn dyfod yn ei le eſ. Yn gwneud heddwch â'r Juddewon, eithr yn ei dorri yn ebrwydd: yn lladd Meneläus yr archoffeiriad, ac yn rhoi 'r anrhydedd hwnnw i Alcimus neu Jacimus.

2 Mac. xiii. Joſ. Ant. l. 12. c. 15.

Onïas mab Onïas y Trydydd, yn cilio i'r Aipht, lle y mae Ptolemëus Philometor a Chleopatra ei wraig, yn gadael iddo adeiladu teml yn Heliopolis yn gyffelyb i honno yn Jeruſalem, ac yn ei wneuthur eſ yn archoffeiriad yno.

1 Mac. vii. vii. 2 Mac. xiv. Joſ. Ant. l. 12. c. 17.

162. Demetrius Soter mab Seleucus, yn dïange o Rufain, ac yn dyfod i Syria, lle y mae eſe yn peri ei goroni ei hun yn frenin, ac yn lladd Antiochus a Lyſias.

161. Demetrius ar annogaeth Alcimus yn anſon Nicanor â llu mawr yn erbyn Judas Maccabëus, yr hwn y mae 'n ceiſio ei ddala. Y maent yn ymſyddino, a Nicanor yn cael ei ladd.

1 Mac. ix. Joſ. Ant. l. 12. c. 18, 19.

Ymma y mae 'n diweddu Hiſtoria ddidorail Lyfr y Maccabëaid, ſy grynodeb byr a dynnwyd allan o bùm Llyfr Jaſon, Juddew o Cyrene.

Y brenin Demetrius yn danfon Bacchides â llu newydd o ugain mil o wŷr, yn erbyn Judas Maccabëus; Judas heb ſod gan ddo ond wyth cant o wŷr, yn anturio ymladd ag eſ, ac yn cael ei ladd. Dewis ei frawd Jonathan yn ben llywydd yn ei le eſ.

Jonathan yn ymgyfeillachu â'r Rhufeiniaid. Y mae Joſephus yn dal ſulw mai hon oedd yr ammod gyntaf o'r a wyddys ſod erioed rhwng y Rhufeiniaid a'r Juddewon.

1 Mac. viii. 19. Joſ. Ant. l. 18. c. 17.

160. Tra yw Alcimus yn gorchymmyn tynnu i lawr gaerau cyntedd y cyſſegr neſaf i mywn, Duw yn ei daraw eſ yn ddiſymmwth â pharlys fel y mae yn marw heb ddywedyd gair trwy fawr boen.

1 Mac. ix. 55.

158. Jonathan wedi blino Bacchides â rhyſel, yn ei gymmell i wneuthur cyngrair, a chymmeryd ei lu ymmaith.

70. Joſ. Ant. l. 13 c. 2.

153. Alecſander Balas mab y brenin Antiochus Epiphanes yn myned â llu i Syria; amddiffynſa Ptolemais yn agoryd eu pyrth iddo eſ o ran caſineb i Ddemetrius frenin; yr hwn ſy 'n ymbarotôi i ryſel.

1 Mac. x. 1. Joſ. Ant. l. 13. c. 3.

Demetrius yn dymuno ymgyfeillachu â Jonathan; yntau 'n cymmeryd yr achlyſur hyny i gyweirio amddiffynſeydd Jeruſalem.

1 Mac. x. 3, 12. Joſ. Ant. l. 13. c. 4.

Nid yw Alecſander Balas yn ddim llai gofalus i gael cyfeillach Jonathan; ac i'w ſoddhâu eſ, yn rhoi iddo yr archoffeiriadaeth.

1 Mac. x. 15. Joſ. Ant. l. 13. c. 5.

152. Jonathan yn gwiſgo 'r wiſg ſanctaidd am dano y ſeithfed mis o'r wyth ugeinfed flwyddyn o frenhiniaeth y Groegiaid, ar wyl y pebyll. Eſe oedd yr archoffeiriad cyntaf o deulu 'r Haſmoneaid.

1 Mac. x. 21. Id. Ibid.

150. Demetrius ac Alecſander yn taraw ynghŷd mywn rhyfel lle y llas Demetrius.

1 Mac. x. 49, 50. Joſeph. ubi ſupra.

Alecſander Balas trwy ei gael ei hun mywn heddychlon feddiant o frenhiniaeth Syria, yn dyweddïo Cleopatra merch Ptolomeus Philometor brenin yr Aipht. Alecſander yn mawr anrhydeddu Jonathan yr archoffeiriad ar ei brïodas.

1 Mac. x. 51. Joſ. c. 7.

148. Demetrius Nicanor, mab hynaf Demetrius Soter, yn myned â llu i Cilicia. Y brenin Alecſander Balas yn rhoi llywodraeth Syria i Apòlonius, yr hwn ſy 'n goſod ar Jonathan yr archoffeiriad; Jonathan yn ei orchfygu eſ, ac yn ennill Joppa ac Azotus, ac yn lloſgi teml Dagon.

1 Mac. x. 75. Joſ. Ant. l. 13. c. 5.

146. Ptolomëus Philometor brenin yr Aipht, yn dyfod i gynnorthwyo Alecſander ei ddaw: Alecſander yn anniolchgar yn goſod Ammonius mywn cynllwyn i'w ladd eſ. Ptolomëus wedi dadguddio 'r bradwriaeth yn cymmeryd ei ferch ymmaith oddi wrth Alecſander, ac yn ei phriodi hi â Demetrius. Wedi gyrru Alecſander o Antiochia, trigolion y lle hwnnw yn cynnyg y Frenhiniaeth i Ptolomëus, eithr eſe yn ei gwrthod, ac yn eu perſwadio i gymmeryd Demetrius yn frenin iddynt.

1 Mac. xi. Joſ. Ioc citat.

145 Alecſander yn dychwelyd â llu mawr. Ptolomëus a Demetrius yn uno 'u lluoedd ac yn ei orchfygu eſ mywn brwydr; eithr Ptolomëus yn marw o'r briwiau a gafodd eſe, wedi gweled pen Alecſander wedi ei anſon iddo gan Zabdiel tywyſog o Arabia. Jonathan yn gwarchae ar y twŵr yn Jeruſalem, a gedwir gan amddiffynſa o Facedoniaid. Wedi gwneuthur achwyn o hynny wrth Ddemetrius, Jonathan yn ei ddyhuddo eſ ag anrhegion, ac yn cael ffafr o newydd i'r Juddewon. Demetrius yn ennill cãs ei filwyr trwy fyrhâu eu cyflogau yn amſer heddwch.

1 Mac. x. 54. Joſ. Ant. l. 13. c. 6.

Tryphon a rhai milwyr a giliaſent oddi wrth Ddemetrius yn cymmeryd arno ſicrhâu Antiochus ſab Alecſander Balas ym mreniniaeth Syria.

144.

1 Mac. xi. 55. 144. Gorchfygu Demetrius gan Antiochus jeuange, a'i yrru i ffoi i Seleucia. Antiochus yn rhoi anrhydedd mawr i Jonathan: yr hwn ſy 'n ei gynnorthwyo yn erbyn Demetrius.

xii. Joſ. Ant. l. 13. c. 9. Joſ. Ant. l. 13. c. 10. Jonathan yn adnewyddu ei gyſeillach â'r Rhufeiniaid a'r Lacedemoniaid, ac yn cadarnhâu Jeruſalem.

143. Tryphon yn dyfeiſio pa wedd i ymryddhâu oddi wrth Antiochus, ac i deyrnaſu yn ei le ef, ond gan ofni gwrthwynebu Jonathan, yn ei wahodd ef i ddyfod i Ptolemais, a dwyn gyd ag ef nifer fechan o'i filwyr, gan addaw rhoi 'r ddinas yn ei law ef. Jonathan heb dybied ſod dim brad, yn dyfod yn unig â mil o wŷr at Dryphon i Ptolemais. Eithr cyn gynted ag y daeth i'r ddinas, Tryphon yn peri cae 'r pyrth. Dal Jonathan yn garcharor, a lladd ei holl wŷr ef.

1 Mac. xiii. Joſ. Ant. l. 13. c. 10, 11. Yr Juddewon ar hyn yn dewis Simon Maccabëus yn bennaeth iddynt yn lle Jonathan ei frawd. Tryphon yn ymſyddino yn erbyn Simon. Yn addaw gollwng Jonathan yn rhydd am gan talent o arian; y mae efe wedi talu 'r arian iddo yn torri ei addewid, ac yn lladd Jonathan. Simon yn gwneuthur adeilad teg ar fedd ei dad a'i frodyr.

1 Mac. xiii. 31, 32. Joſ. Ant. l. 13. c. 12. Tryphon yn lladd y brenin jeuange Antiochus, ac yn dodi 'r goron ar ei ben ei hun.

Y Rhufeiniaid a'r Lacedemoniaid yn adnewyddu eu heddwch â Simon, ac yn ei 'ſgrifennu ar lechau prês.

1 Mac. xiv. 18. Joſ. Ant. l. 13. c. 13. id. ibid. 142. Simon yn cael ſicrhâu y llywodraeth a'r archoffeiriadaeth i arno ef a'i etifeddion. Yr Juddewon trwy ei gyfryngau ef yn cael eu rhyddhâu oddi wrth bob math o deyrnged i un eſtronol bennaeth. Efe 'n ynnill Sion amddiffynſa Jeruſalem, yn gyrru allan o'r ddinas yr holl ddelwaddolwyr, yn glanhâu 'r tai o'i heulynnod, ac yn goſod yn y ddinas y fath ag ynt wîr addolwyr Duw.

Joſ. Ant. l. 13. c. 12. 139. Pan yriau Tryphon yn ei wneuthur ef mor gas i'w filwyr, a'i bod yn ymddaroſtwng i Gleopatra gwraig Demetrius gynt. Hithau yn prîodi Antiochus Soter brawd Demetrius, ac yn peri ei goroni ef yn frenin.

138. Antiochus yn gyrru Tryphon allan o Syria, yn gwarchae arno yn Nora; yntau yn ffoi oddi yno i Apamea, lle y mae yn cael ei ddal a'i ladd.

1 Mac. xvi. Joſ. Ant. l. 13. c. 14. 135. Simon yr archoffeiriad yn tramwy trwy ddinaſoedd Judea, gan oſalu am eu llywodraethu 'n drefnus, yn dyfod i wared â'i ddau fab Matthias a Judas i Jericho. Ptolemëus mab Abubus, daw Simon, yn eu gwahodd i gaſtell a gadarnhaeſai efe, a elwid Dochus, ac yno wrth eu groeſawi mewn gwledd, yn eu lladd yn greulon. Joan Hircanus yn mynêd yn archoffeiriad yn lle ei dad.

Ymma y mae Llyfr cyntaf y Maccabëaid yn diweddu, yn cynnwys Hiſtoria deugain mlynedd.

Joſ. Ant. l. 13. c. 17. 130. Joan Hircanus yn ennill Sechem ac yn dinyſtrio 'r deml ar fynydd Garizim ddau can mlynedd wedi i Sanabalat ei hadeiladu hi.

Joſ. l. 1. Belli c. 3. Ant. l. 13. c. 19. a l. 20. c. 8. 107. Judas mab hynaf Hircanus, a elwir hefyd Ariſtobulus, ac a gyſenwir Philelen, yn dyfod yn lle 'i dad yn y llywodraeth a'r archoffeiriadaeth; Efe oedd y cyntaf o bawb ar ôl dychwelyd o Gaethiwed Babilon, a oſododd Goron am ei ben, ac a newidiodd y 'Sdad i Unbennaeth.

Luc ii. 37. 88. Anna y brophwydes, merch Phanuel o lwyth Aſer, y flwyddyn hon wedi myned yn weddw, yn peidio ymadaw o'r deml, ond yn gwaſnaethu Duw mywn ymprydiau a gweddîau ddydd a nos dros bedair a phedwar ugain mlynedd o hyd, hyd y cyſryw amſer ag y mae hi 'n gweled Criſt yn y deml.

Joſ. l. 1. Belli c. 5. Ant. l. 14. c. 8. 63. Pompeius y flwyddyn hon yn ennill Jeruſalem; yn peidio â dim o'r tryſor oedd yn y deml, ond dwyn yr Juddewon dan deyrnged i'r Rhufeiniaid.

Unbennaeth Rhufain.

49. Ymma y mae Ymerodraeth Caſariaid Rhufain yn dechrau, pan wnaethpwyd Julius Cæſar, gwedi idao orchfygu Pompeius yng Ngwaith Pharſalia, yn Daictator yra ſai byw.

Joſ. l. 14. c. 25. 40. Cyhoeddi Herod ſab Antipas neu Antipater Idumead, y flwyddyn hon gan y Rhufeiniaid yn frenin ar Judea.

Id. ibid. c. 28. l. 1. Belli c. 13. 38. Herod wedi ei gynnorthwyo gan Soſius tywyſog llu y Rhufeiniaid yn gwarchae ar Jeruſalem, ac yn ei hennill hi; y milwyr yn llanw pob congl o'r ddinas â gwaed, trais, a chreulonedd. Dwyn Antigonus y tywyſog a'r archoffeiriad yn garcharor gan Soſius i Rufain, a dodi Herod mywn cyflawn feddiant o'r Frenhiniaeth.

31. Ynghŷlch y pryd hyn yr oedd Hilel Babiloniad o dylwyth Dafydd, yn glodfawr yn Jeruſalem; Un o ddiſgyblion hwn oedd Jonathan mab Uzziel, Awdur enwog y Dosbarth Caldeaeg.

28. Cæſar Octafianus nai Julius Cæſar, yn ei bummed Gonſuliaeth, trwy gydſynniad Senedd a Phobl Rhufain, yn cymmeryd arno Dirl Ymerodr, ar y cyſamſer y newidiwyd yn gyfreithlon y Llywodraeth ym myſg y Rhufeiniaid o Wladwriaeth yn Unbennaeth. Y flwyddyn neſaf rhag wyneb y mae 'r Senedd yn ei gyſenwi ef Auguſtus. Dionyſ. l. 52. Joſ. Ant. l. 20.

Joan ii. 20. 18. Herod y flwyddyn hon yn dechrau ehengu neu 'n hytrach ailadeiladu 'r deml yn Jeruſalem chwe blynedd a deugain cyn y Paſg cyntaf o Weinidogaeth Criſt, ac mywn naw mlynedd a hanner yn gorphen yr adeilad mawrwych hwnnw.

Luc i. 11, 26, 57. 6. Yr angel Gabriel yn ymddangos i Zacharîas yr offeiriad, fel y mae efe yn arogldarthu yn y deml, gan ddywedyd wrtho y genid mâb iddo, yr hwn a eilw efe yn Joan, yr hwn hefyd a fydd yn Nazaread ac yn Gennad yr Arglwydd yn ysbryd a nerth Eliîas.

5. Yn y chweched mîs ar ol cenhedliad Joan, anfon yr un angel Gabriel oddi wrth Dduw i Nazareth yng Ngalilea at y wyryfdeiccaf Forwyn Fair (wedi ei dyweddîo i Joſeph gŵr o dŷ a Thylwyth Dafydd) yr angel yn mynegi iddi, y cai feichiogi trwy gyſgod yr Ysbryd glân, ac eſgor ar fab, a galw ei enw ef, JESU.

4. Geni Joan Fedyddiwr chwe mîs o flaen Criſt.

Seithfed Oes y Byd.

Luc ii. 6. GEni Criſt ein Harglwydd a'n Hiachawdwr ynghyflawndet yr amſer o'r wyrfydedig Forwyn Fair ym Methlehem, a'i ddodi yn y preſeb.

Luc ii. 21. Enwaedu arno yr wythfed dydd ar ôl ei Enedigaeth, a galw ei enw ef JESU.

Mat. ii. 1, 12. Y Doethion o'r dwyrain yn dwyn anrhegion i Frenin yr Juddewon newydd eni.

14, Joseph yn ffoi i'r Aipht, ese a'r plentyn Jesu, a Mair ei fam.

16, Herod yn gorchymmyn lladd y bechgyn yn ac ynghylch Bethlehem.

20. 3. Herod yn marw, a'i fab Archelaus yn

Jos. Ant. l. 17. c. 0. cael ei wneuthur gan Cesar yn detrarch Judea. Rhannu arglwyddiaethau eraill oedd yn perthyn i Herod, rhwng ei feibion ef.

Mat. ii. 21, 23. Llwyn Crist yn ei ôl wrth arch Duw o'r Aipht i Nazareth.

Ymma mae 'r ffwyddyn gyntaf o'r Æra (neu 'r cyfrif) Crisnogol yn dechrau.

Luc ii. 46. 8. *Y ffwyddyn* 2 Ein Harglwydd o achos *gwedi geni Crist.* 5 y Pasg yn myned i fynyd a'i rieni i Jerusalem, ac yno yn ymresymmu a'r Doctoriaid yn y deml.

14. Augustus yn marw, a Thiberius yn dyfod yn ei le ef.

Gwneuthur Josephus a elwir Caiaphas yn archoffeiriad yr Juddewon, trwy ffafr Falerius Gratus, Rhaglaw 'r Ruseiniaid.

Jos. Ant. l. 18. c. 3. 26. Anton Pontius Pilatus tu a diwedd y flwyddyn hon i fod yn Rhaglaw Judea yn lle Palerius Gratus.

Mat. iii. 1. 27. Joan Fedyddiwr yn dechrau pregethu a bedyddio yn nyffeirhwch Judea gan barotôi wrth hynny ffordd yr Arglwydd, a

Marc i. 2. gwneuthur ei orau er gwneud dysodiad

Luc iii. 3. Crist ar ei ôl ef yn adnabyddus i Israel. Duw yn rhoi arwydd i Joan, wrth yr hwn

Joan i. 7. y gallai adnabod Crist yr Arglwydd mai ar

Esay xli. yr hwn y gwelai ese 'r Ysbryd yn disgyn ac yn aros arno, hwnnw yw 'r un a fedyddiai a'r Ysbryd glân.

Mat. iii, 13. Yr Jesu yn y ddegfed flwyddyn ar hugain

Marc i. o'i oedran yn dyfod o Alilea i'r Jorddonen,

Luc iii. 22. ac yn cael ei fedyddio gan Joan, ar ba amser y gwnair amlygiad tra ardderchog o'r Drindod fendigaid; canys wedi i Fab Duw esgyn o'r dyfroedd a gweddio, y mae 'r nefoedd yn agoryd, ac Ysbryd Duw yn rhith Colomnen yn disgyn arno ef, a llef y Tâd a glywir o'r nefoedd yn dywedyd, Hwn yw fy annwyl Fab yn yr hwn y'm bodlonwyd.

Joan i. 34. Joan yn ei weled, ac yn tystiolaethu mai hwn yw Mâb Duw.

Mat. iv. 1. Yr Jesu yn llawn o'r Ysbryd Glân yn

Marc i. dychwelyd oddi wrth yr Jorddonen, ac yn

12. cael ei arwain gan yr Ysbryd i'r anialwch,

Luc iv. 1, lle mae yn ymprydio ddeugain niwrnod a

14. deugain nôs, ac yn cael ei demtio gan Ddiafol.

Wedi hyn, ein Harglwydd yn dychwelyd i Alilea.

Joan i. 35, 49. 30. Joan yn rhoi tystiolaeth i'n Hiachawdwr wrth fyned heibio iddo ef; Andreas, Pedr, Phylib, a Nathanael yn cyfaddef mai ese yw 'r Messias, ac yn dyfod yn ddisgyblion iddo ef.

ii. 1. Crist mewn priodas yng Nghana Galilea yn troi 'r dwfr yn win. Hyn o ddechrau gwyrthiau a wnaeth efe.

Y Pasg cyntaf o Weinidogaeth gyhoedd Crist, o'r hwn y mae 'r ffwyddyn gyntaf o'r adegfed a thrugain a'r addeuddaf o wythnosau Daniel yn dechrau: yn yr hon yr ydys yn sicrhau 'r Cyfammod â llawer, Dan ix. 27. *wedi ei gymhara â* Matth. xxvi. 28.

YR Jesu yn dyfod i Jerusalem ar amser y Pasg, a chan fyned i'r deml yn gyrru allan y rhai oedd yn prynu ac yn gwerthu yno; yr Juddewon yn gofyn arwydd o'i awdurdod ef. Crist yn erchi iddynt ddinystrio 'r deml honno (gan feddwl teml ei gorph) ac mewn tridiau y cyfyd efe hi. Joan ii. 13.

Mat. xiv. 3. Herod y tetrarch yn bwrw Joan Fedyddiwr yngharchar am argyoeddi ei lofgach

Marc vi. 17. â gwraig Phylib ei frawd, a drygau eraill a

Luc iii. 19. wnaeth efe.

Joan iv. 7, 42. Crist yn ei ddadguddio ei hun i'r wraig o Samaria.

Luc iv. 43. 31. Y mae efe 'n myned trwy holl Alilea, gan athrawiaethu yn y Synagogau a gwneuthur rhyfeddodau.

v. 27. Galw Mathew i fod yn ddisgybl.

Yr ail Basg o Weinidogaeth Crist, (Joan v. 1. *wedi ei chymharu â'r* iv. 3, 5.) *o'r hwn y mae 'r ail ffwyddyn o'r degfed wythnos a thrugain i Ddaniel yn dechreu.*

YR Jesu yn dyfod i fynu i Jerusalem ar amser yr wyl, ac yn jachau ar y dydd sabbath ddŷn a fuasai 'n gorwedd yn glaf namyn dwy flynedd deugain wrth lyn Bethesda. Y mae 'n gwneud amddiffynniad tra duwiol wrth yr Juddewon oedd yn ceisio ei ladd ef o waith iddo ddywedyd fod Duw yn Dad iddo. Joan v. 1.

Crist o liaws o'i ddisgyblion yn dewis deuddeg, y rhai y mae yn eu galw yn Apostolion; sef, Pedr, Andreas, Jago, Joan, Phylib, Bartholomeus, Mathew, Tomas, Jago mab Alpheus, Simon a elwir Zelotes, Judas brawd Jago, a Judas Iscariot. At y rhain y mae 'n Jachawdwr yn cyfeirio ei ymadrodd yn bennaf yn y Bregeth ogoneddus, gyflawn, a rhyfeddol ar y mynydd. Luc vi. 13. Mat. v, vi, vii. Luc vi. 20. ix. 1. Marc vi. 7.

Yr Jesu yn anson ei ddeuddeg apostol bob yn ddau i bregethu, ac i jachau y rhai cleifion. Mat. x. 1. xiv. 6, 13.

32. Torri pen Joan Fedyddiwr yn y carchar wrth orchymmyn Herod. Marc vi. 35.

Yr Jesu yn porthi pûm mil o wŷr, heblaw gwragedd a phlant, â phûm torth haidd a dau bysgodyn bychain. Yn gwrthod ei wneuthur yn frenin. Luc ix. 12. Joan vi. 1, 15.

Y trydydd Pasg o Weinidogaeth Crist, (Joan vi. 4.) *o'r hwn y mae 'r drydedd ffwyddyn o'r degfed wythnos a thrugain i Ddaniel yn dechreu.*

CRist yn gweddnewidio ar y mynydd: gweled Moses ac Elias yn ymddiddan ag ef, a chlywed llef o'r nef yr ail waith yn dywedyd, Hwn yw fy annwyl Fab, gwrandewch arno ef. Mat. xvii. 1. Marc ix. 1. Luc ix. 28.

Crist yn talu teyrnged i Cesar.

Rhyw dref i'r Samariaid yn gwrthod croesawu ein Hiachawdur ar y ffordd wrth fyned i Gaersalem. Ceryddu 'r disgyblion yn llym am geisio gantho ddyfod a thân i lawr o'r nef i'w dira hwynt. Mat. xvii. 24. Luc ix. 51.

Anson y deg disgybl a thrugain allan bob yn ddau i wneuthur gwyrthiau ac i bregethu. x. 1.

33. Crist yn dysgu i'w ddisgyblion weddio. xi. 1.

Crist yn cyfodi Lazarus yr hwn a gladdesid er ys peiwar diwrnod. Joan xi. 1.

Caiaphas

Joan xi. 47. Caiaphas archoffeiriad yr Juddewon yn prophwydo am farwolaeth Crift.

Luc xix. 1. Troi Zacchëus y publican.

Marc x. 46. Crift yn rhoddi ei olwg i Fartimëus ddall.

Joan xii. 3. Mair, chwaer Lazarus, yn enneinio traed ein Jachawdwr ag eunaint nard gwlyb gwerthfawr, ac yn eu fychu a gwallt ei phen.

Math. xxi. Marc xi. Luc xix. Jona xii. Eſay lii. Zech. ix. 9. Crift yn marchogaeth mywn gorfoledd i Jerufalem, y lliaws yn tannu eu dillad ar hyd y ffordd, ac yn lleſain Hoſanna i Fab Dafydd.

Math. xxi. 17. Gan ddyfod yn agos i ddinas y mae efe yn wylo drofti, ac yn rhagfynegi ei dinyſtr. Yn myned i'r deml, ac yn bwrw allan y rhai oedd yn prynu ac yn gwerthu ynddi, ac yn jachäu y deillion a'r cloffion.

Yn melldithio 'r ffigysbren, a'i gael y bore drannoeth wedi crino o'r gwraidd : o hynny y mae 'n cymmeryd achlyfur i ddangos grym ffydd.

Y peàwerydd Paſg, yn yr hwn yr aberthwyd Crift ein Paſg ni, 1 Cor. v. 7. *ac felly yr ydys yn goſod diwead ar yr holl aberthau dedàfol yn rhagarwyddocâu 'r aberth mawr ymma.* Y *beàwaread neu 'r ſtwyadyn ganol o wythnos ddiweddaf Daniel yn dechreu,* Dan. ix. 27.

---

xxvi. Marc xiv. Luc xxii. AR y dydd cyntaf o wŷl y bara croyw, pan oedd Paſg yr Juddewon i'w ladd (*Ebrill yr* 2) yn yr hwyr, yr Jeſu yn bwyta 'r Paſg gyd â'i ddiſgyblion, ac yn ordeinio Sacrament ei gorph a'i waed mywn bara a gwin.

Joan xiii. Crift yn golchi traed ei ddiſgyblion, ac yn eu hannog i oſtyngeiddrwydd a chariad perffaith.

xviii. Bradychu Crift y nos honno gan Suddas, ei watwar, ei gernodio a phoeri arno gan y milwyr.

Math. xxvii. Drannoeth y mae 'n cael ei gondemnio gan Bilatus, a'i groeſhoelio, yr haul yn tywyllu tra y croeſhoeliwyd ef, a llen y deml yn rhwygo yn ei chanol. Crift yn gweddïo dros ei elynion, ac yn ymadael a'r ysbryd.

Marc xv. Luc xxiii. Joan xix. Pſ. xxii. Joſeph o Arimathea yn gofyn y corph, ac yn ei oſod mywn bedd newydd.

Math. xxviii. Marc xvi. Luc xxiv. Joan xx. Crift y trydydd dydd, y neſafar ol ſabbath yr Juddewon (*Ebrill y* 5) yn cyfodi o feirw; angylion yn dangos ei adgyfodiad ef i'r gwragedd a ddaeth at y bedd. Crift yn ymddangos yn gyntaf i Fair Fagdalen, ac wedi hynny i'w ddiſgyblion, ac yn ciniawa gyd â hwynt.

Act. i. Crift yn caſglu ei ddiſgyblion ynghŷd i fynydd yr Olewydd, yn gorchymmyn iddynt ddiſgwil yn Jerufalem am ddanfon yr Yſbryd glân, yn eu hanfon i fedyddio ac i ddyfgu 'r holl genhedloedd, ac yn eu bendithio ; ac, a hwynt-hwy yn edrych, yn ymddyrchafu, a chwmmwl yn ei derbyn ef allan o'i golwg hwynt.

Math. xxviii. Ar ol ei ymddyrchafiad ef, y mae dau angel yn rhybuddio 'r diſgyblion i ymadael, ac i roi eu meddyliau ar ei ailddyfodiad ef ; hwythau felly yn dychwelyd, a chan ymrôi i weddi yn dewis Matthias yn apoſtol yn lle Suddas.

Act. ii. Yr ysbryd glân ar ddydd y pentecoſt (*Mai y* 24) yn diſgyn ar yr apoſtolion, mywn agwedd tafodau gwahanedig megis o dân, ac yn eu gwneuthur yn barod i lefaru â phob tafodau. Pedr y dwthwn hwnnw yn pregethu Crift a'r adgyfodiad, a chwanegu ynghŷlch tair mil o eneidiau at yr eglwys.

Act. iii. iv. Pedr trwy ffydd yn enw Crift yn jachäu y cloff.

Llywodraethwyr yr Juddewon wedi anfodloni i bregeth Pedr a'r modd y jachaefai efe y cloff yn rhyfeddol, yn ei fwrw ef a Joan ynghar char ; hwythau wrth eu holi yn dywedyd yn hyderus mai trwy Enw 'r Jeſu y jachafid y cloff, ac mai trwy Jeſu yn unig y bydd rhaid i ninnau gael jechydwriaeth dragywyddol. Yr Juddewon wedi hyn yn gwahardd iddynt lefaru mwyach yn yr enw hwnnw, eithr yr apoſtolion yn atteb fod yn gymmwys iddynt ufyddhau i Dduw yn hytrach nag i ddynion. Eu bygwth a'i gollwng yn rhyddion.

v. 1, Taraw Ananïas a'i wraig Sapphira yn ddiſymmwth yn farw am eu rhagrith.

v. 17. Bwrw 'r apoſtolion eilwaith yngharchar gan yr archoffeiriad, eithr angel yn eu gollwng yn rhyddion, ac yn erchi iddynt bregethu 'r efengyl i'r bobl yn ddioſn : wedi eu dâl eilwaith yn athrawiaethu yn y deml, y maent yn cael eu dwyn ger bron y cyngor, lle trwy gyngor Gamaliel Pharifead a Doctor o'r Gyfraith, y maent yn cael eu rhyddhau.

vi. 34. Yr apoſtolion, a'r diſgyblion yn amlhau yn Jerufalem, yn ordeinio faith diacon i gyfranny elufennau 'r holl eglwys i'r gwragedd gweddwon a'r rhai tlotaf o'r brodyr.

vii. Yſdyphan, un o'r diaconiaid hynny, wedi gwradwyddo rhai wrth ymreſymmu ag ef, yn cael ganddynt achwyn arno ar gam am gablu, a'i ddwyn ger bron y cyngor, lle y mae 'n eu ceryddu hwynt am wrthryfela a lladd Crift. Hwythau ar hynny yn ei fwrw ef allan o'r ddinas ac yn ei labyddio, ac yntau yn y cyfamſer yn gweddïo droſtynt.

viii. Erlid mawr ar yr eglwys yn Jerufalem yn canlyn ar ol marwoleth Yſdyphan y Cynferthyr.

5, Phylib un o'r ſaith Diacon yn pregethu yn Samaria, ac yn troi llawer, yn gwneuthur gwyrthiau, ac yn jachau 'r cleifion. Simon y fwynwr wrth weled y rhyfeddodeu a wnair gan Phylib, yn credu ac yn cael ei fedyddio.

15, Yr apoſtolion yn Jerufalem wedi clywed i Samaria dderbyn y ffydd, yn anfon Pedr a Joan yno i gadarnhau ac i chwanegu 'r eglwys. Yr apoſtolion trwy weddi ac arddodiad dwylaw, yn rhoddi 'r Ysbryd glân i bawb ac fy'n credu. Simon Magus yn cynnyg iddynt arian am gael o hono yntau awdurdod i roddi 'r Ysbryd glân, a Phedr yn ei geryddu ef yn doſt am ei annuwioldeb. Wedi cyflawnu eu gweinidogaeth yn y parthau hyn, y maent yn dychwelyd i Jerufalem.

26. 35. Angel yn anfon Phylib i ddyfgu ac i fedyddio 'r Efnuch o Ethiopia.

ix. 1. Saul erlidiwr creulon pawb ag fy 'n galw ar enw 'r Jeſu, ac un oedd yn cyttuno i ladd 'Sdyphan, yn myned yn awr i Ddamaſgus â llythyrau oddi wrth yr archoffeiriad a'r cyngor i ddal yr holl Griſtianogion yn y parthau hynny, ac i'w dwyn yn rhwym i Jerufalem, yn cael ei droi yn rhyfeddol ar y ffordd gan lef o'r nefoedd ; a'i fedyddio gan Ananïas ym mhen tridiau wedyn yn Namaſgus, lle mae 'n pregethu efengyl Griſt trwy hyfder mawr, hyd oni fynnodd y rhai a wyddent ar ba amcan yr anfonwyd ef yno.

ix. 23. 2 Cor. xi. 32. 38. Yr Juddewon yn cynllwyn i ladd Paul wedi iddo fod yn hîr yn pregethu 'r efengyl yn Namaſgus, eithr efe yn dianc oddi

Gal. i. 18. oddi yno, ac yn dyfod i Jeruſalem; lle mae 'n gweled Pedr a Jago brawd ein Harglwydd, ac yn aros gyd a hwy bymtheng niwrnod. Ymma y mae eſe yn lleſaru yn hyſ yn enw 'r Jeſu, ac yn ymddadleu â 'r Groegiaid neu yn hytrach Juddewon a arferent yr jaith Roeg, y rhai hefyd a ymgynghorant i geiſio ei ladd eſ.

Act. xxii. 17. Saul wrth weddïo yn y deml yn ſyrthio mywn llewyg, a'r Arglwydd yn ymddangos iddo, ac yn erchi iddo ymadael o Jeruſalem, o herwydd na dderbynient ei dyſtiolaeth eſ, gan chwanegu yr enfyn eſe eſ at y cenhedloedd.

ix. 30. Gal. i. 21. Saul, gan adael Jeruſalem, yn myned i Darſus ei wlad ei hun, ac yn ymdaith oddi yno i Syria a Cilicia.

Act. ix. 32, 36. Pedr yn ymweled ag eglwyſi Judea, Galilea, Samaria, &c. yn Lyda yn jachâu Æneas o'r parlys, ac yn Joppa yn codi Tabitha o farw i fyw.

x. 41. Cornelius y cannwriad, yn Ceſarea, trwy weddïau ac eluſennau yn cael ffafr yngolwg Duw, ac angel yn gorchymmyn iddo ddanfon i gyrchu Pedr o Joppa. Duw trwy weledigaeth yn dyſgu i Bedr na ddiyſtyrai mo'r cenhedloedd, ac yntau wedi anfon am dano gan Gornelius, yn myned ac yn pregethu Crift iddo eſ a lliaws mawr oedd wedi ymgynnull yn ei dŷ eſ; yr Ysbryd glân tra yw Pedr yn pregethu, yn diſgyn ar bawb o naddynt, a'r apoſtol yn eu bedyddio hwynt yn y man.

xi. Achwyn ar Bedr pan ddychwelodd i Jeruſalem, gan rai o'r enwaediad am ymgyfeillachu â 'r cenhedloedd, eithr eſe yn mynegi iddynt ei weledigaeth, a'r cwbl o blegid Cornelius, a hwythau yn gogoneddu Duw am roddi i'r cenhedloedd hefyd ediſeirwch i fywyd.

Y ffyddloniaid, y rhai er amſer Merthyrdod Styphan a'r blinder a gyfodaſai yng-hŷlch hynny, a wafgareſid trwy holl Phœnicia a Cyprus, yn dyfod yn awr i Antiochia, ac yn pregethu 'r efengyl i'r Groegiaid yno, heb bregethu i neb o'r blaen ond i'r Juddewon. Yr eglwys yn Jeruſalem wedi dyall hyn, a bod nifer y rhai ſy 'n credu yn amlhau yn ddirfawr, yn anfon Barnabas yno i'w cadarnhau hwynt. Yntau yn myned i Darſus, ac yn cymmeryd Saul gyd ag eſ i Antiochia, lle y maent yn aros flwyddyn gyfan, gan droi lluoedd i'r ffydd. Ymma y galwyd y Diſgyblion gyntaf yn Griſtianogion.

xii. 44. Lladd Jago brawd Joan â'r cleddyf ynghŷlch yr amſer hyn wrth orchymmyn Herod Agrippa. Mae eſe hefyd yn carcharu Pedr a waredodd angel wrth weddïau 'r eglwys. Yr un Herod ym mhen ychydig wedyn yn lleſaru wrth y bobl yn Ceſarea, ac a rhai o honynt yn gwaeddi, Lleferydd Duw ac nid dŷn ydyw, yn cael ei daraw gan angel yr Arglwydd allan o law am na roeſai y gogonedd i Dduw, a chan bryfed yn ei yſu yn trengu.

xiii. 45. Barnabas a Saul yn myned rhagddynt i bregethu 'r efengyl. Yn plannu 'r ffydd Griſtianogol yn Seleucia, Cyprus, a lleoedd eraill. Yn pregethu 'r efengyl ym Mhaphus i Sergius Paulus rhaglaw y wlâd honno. Elymas y ſwynwr a'i gwrthwynebai hwynt, gan geiſio gŵyrdroi Sergius oddi wrth y ffydd, yn cael ei daro â dallineb ar gerydd Saul. Galw Saul bob amſer o hyn allan wrth ei enw newydd Paul; mae eſe 'n pregethu yn Antiochia, a'r cenhedloedd yn credu, eithr yr Juddewon yn gwrthwynebu ac yn cablu. Yntau a'i gydweithwyr yn troi ar hynny at y cenhedloedd, ac yn dyfod i Iconiwm.

Act. xiv. 46. Eu herlid yn Iconiwm, ac braint eu llabyddio. Hwythau yn ffoi oddi yno i Lyſtra a Derbe, dinaſoedd o Lycaonia. Paul yn jachâu y cloff efrydd yn Lyſtra; y lliaws yn gweiddi i'r duwiau ddiſgyn, ac yn galw Barnabas yn Jupiter, a Phaul yn Fercurius; i ba rai y mynnaſent aberthu, oni buaſai i'r apoſtolion wedi rhwygo eu dillad neidio yn eu plith hwynt a mynegi iddynt yn ſicr mai dynion oeddynt fel hwythau. Juddewon yn ebrwydd gwedyn yn dyfod o Antiochia ac Iconiwm, ac yn cyffrôi 'r bobl yn eu herbyn hwynt. Llabyddio Paul gan y lliaws llidiog, a'i luſgo allan o'r ddinas megis wedi marw; eithr tra yw 'r diſgyblion yn ſeſyll o'i amgylch, yn cyfodi, a thrannoeth yn myned allan eſe a Barnabas i Dderbe.

2 Cor. xii. 2. Y flwyddyn hon, yſgatfydd ar yr amſer hyn hefyd, y cippiwyd Paul i fynu i'r drydedd nef, ac y clywodd eiriau anhraethadwy, bedair blynedd ar ddeg cyn iddo 'fgrifennu ei ail epiſtol at y Corinthiaid.

2 Tim. i. 2, 5. Ynghŷlch y pryd hyn y mae Timotheus er nad oedd ond plentyn, a'i fam Eunice a'i nain Lois yn derbyn y ffydd Griſtianogol a bregethwyd gan Baul.

Act. xv. 52. Rhai Griſtianogion a lynent wrth ddefodau Juddewaidd, yn dyfod o Judea i Antiochia, ac yn dyſgu y dylid enwaedu ar y cenhedloedd, a chadw cyfraith Moſes. Paul a Barnabas yn eu gwrthwynebu hwynt. Yr apoſtolion ac eraill yn cynnal cyngor yn Jeruſalem i ddibennu 'r ymrafael hyn. Anfon barn y gymanfa at yr eglwyſi.

36. 53. Paul a Barnabas wedi bwriadu myned i ymweled â'r eglwyſi, yn ymrafaelio ac yn ymadaw â'i gilydd: Barnabas a Marc yn myned i Cyprus, Paul a Silas i Syria a Cilicia.

xvi. Paul wedi dyfod i Dderbe, yn cael Timotheus yno, yr hwn (o waith bod ei fam ef yn Juddewes ac yn credu, er bod ei dad yn Roegwr) y mae eſe yn peri ei enwaedu, ac yn ei gymmeryd gyd ag eſ. Fi rybuddio eſ mywn gweledigaeth i fyned i Facedonia; wedi dyfod i Philippi priſddinas o barth o Facedonia, y mae eſe yn troi Lydia; yn bwrw allan ysbryd dewiniaeth o ryw waſanaethferch, ei meiſtriaid hi wedi colli cryn elw wrth hynny yn dwyn Paul a Silas ger bron y ſwyddogion: hwythau yn peri eu fflangellu a'i carcharu hwynt: eithr ar hanner nos, a Phaul a Silas yn gweddïo ac yn canu Salmau, y mae dryſau 'r carchar yn ymagoryd, a'i rhwymau yn myned yn rhyddion: troi ceidwad y carchar pan oedd yn barod i'w ladd ei hun, i'r ffydd, a'i fedyddio y noſon honno eſe a'i holl deulu. Y ſwyddogion yn dyfod eu hunain drannoeth, ac yn attolwg arnynt fyned allan o'r ddinas.

xvii. 54. Paul yn ymdaith o Philippi trwy Amphipolis ac Apolonia, ac yn dyfod i Theſſalonica, lle mae 'n cael ſynagog i'r Juddewon, ac yn pregethu dros dri ſabbath; rhai yn credu, ac eraill yn ei erlid eſ. Wedi gadael Theſſalonica, mae eſe 'n dyfod i Ferea, ac yn ebrwydd wedyn i Athen; yn ymreſymmu â'r Philoſophyddion, ac yn mynegi iddynt y DUW hwnnw NID ADWAENIR, yr hwn yr oeddynt hwy heb ei adnabod yn ei addoli. Yn troi Dionyſius Areopagita, ac oddi yno yn myned i Gorinth.

Paul

Act. xviii. Paul yng Nghorinth yn cyfarfod ag Acwila a Phrifcil-la a ddeolafid ychydig o'r blaen o Rufain wrth orchymmyn Claudius. Yn aros ymma flwyddyn a chwe mis, ac oddi yno yn 'fgrifennu at y Theſſaloniaid.

55. Yr Juddewon yn achwyn ar Baul ger bron Galio rhaglaw Achaia; yntau yn gwrthod bod yn farnwr mywn ymrafael ynghŷlch creſydd, ac felly yn eu gyrru oddi wrth y frawdle.

18. 56. Paul yn ymadael o Gorinth, ac yn tramwy i Epheſus, yn myned oddi yno tu a Jeruſalem, fel y byddai yno ar yr wyl; yn tirio yn Cefarea, yn dyfod i wared i Antiochia, ac yn tramwy trwy wlad Galatia a Phrygia, gan nerthu 'r diſgyblion yn yr holl barthau hynny.

xix. 57. Paul yn dychwelyd i Epheſus, yn ymreſymmu beunydd yn yſgol Tyrannus, ac yn pregethu yno, ac yn y parthau oddi amgylch.

58. Yn 'fgrifennu ei Epiſtol at y Galatiaid.

60. Demetrius, gof arian, yn Epheſus, eiddigus o'i elw, yn codi terfyſg yn erbyn Paul, a 'fgolhaig y ddinas yn llonyddu 'r derfyſg.

1 Cor. i. 11. Ynghŷlch y pryd hyn y mae ſchiſm yn codi yn eglwys Corinth, y ſy 'n peri i Baul (yn awr yn neu ger llaw Epheſus) 'fgrifennu ei epiſtol cyntaf at y Corinthiaid.

xvi. 8. Act. xx. 2 Cor. viii. 1, 2, 6, 19. Paul yn ymadaw o Epheſus, ac yn dyfod i Facedonia, ac yn caſglu eluſen yn gymmorth i'r ſaint yn Jeruſalem.

1 Cor. xvi. 5. Yr apoſtol wedi clywed gan Ditus lwyddiant ei epiſtol cyntaf at y Corinthiaid, yn 'fgrifennu ei ail attyne. Yn myned o Facedonia i dîr Groeg, ac yn dyfod i Gorinth, lle mae 'n 'fgrifennu ei epiſtol at y Rhufeiniaid.

Act. xx. 3, 4, Paul yn arfaethu myned yn union oddi yno i Syria, fel y dygai y caſgliadau i Jeruſalem. Yr Juddewon yn cynllwyn iddo; yntau gan ddyall hyn, yn tybied mai gwell yw dychwelyd i Facedonia ar hyd yr un ffordd ag y daeth, a myned oddi yno i Aſia.

6. Paul, yn ol dyddiau y bara croyw, yn mordwyo o Philippi, ac yn dyfod i Droas, lle mae 'n codi Eutychus o farw i fyw. Wedi tramwy trwy lawer o ddinaſoedd Groeg, yn dyfod i Filetus, ac oddi yno 'n anſon i alw henuriaid eglwys Epheſus, y rhai mae 'n gynghori 'n daer i gyflawni eu dyledſwydd.

xxi. Paul yn dyfod i Jeruſalem, ei ddàla yn y deml, a'i gadw 'n ddiogel yn y caſtell; yn cleimio rhagorfraint Rhufeiniad, ac yn dîange rhag ei fflangellu.

xxii. xxiii. Paul yn atteb drofto ei hun ger bron Annias yr archoffeiriad. Y pencapten wedi dyall ddarfod i fwy nâ deugeinwr o'r Juddewon eu rhwymo eu hunain â diofryd na archwaethent ddim hyd oni laddent ef, yn ei anſon ef at Ffelics rhaglaw y dalaith, yr hwn fy 'n ei garcharu ef yn Ceſarea.

Act. xxiv. 62. Tertûlus yr areithiwr yn cyhuddo Paul ger bron Ffelics. Ffelics yn myned allan o'i ſwydd, ac i foddhau 'r Juddewon, yn gadael Paul yngharchar. Portius Ffeſtus yn dyfod yn rhaglaw yn lle Ffelics.

xxv. Yr Juddewon yn dyfod i Ceſarea, ac yn achwyn ar Baul ger bron Ffeſtus. Yntau yn atteb drofto ei hun ac yn appelio at Ceſar. Y brenin Agrippa yn dyfod i Ceſarea, a Ffeſtus yn hyſbyſu 'r holl achos iddo ef.

xxvi. Paul yn ei amddiffyn ei hun yngwŷdd Agrippa, yr hwn ar hynny fy ym mron myned yn Griſtian, a'r holl gynnulleidfa yn ei farnu ef yn ddieuog.

xxviii. 63 Paul yn dyfod i Rufain, lle mae 'n garcharor mywn ehangder, ac yn pregethu yno ddwy flynedd.

Ymma y mae Hiſtoria Actau 'r apoſtolion yn aiweddu, a 'fgrifennwyd gan S. Luc, *cydymmaith annwyl* S. Paul *yn ei Deithiau.*

S. Paul o Rufain yn 'fgrifennu ei Epiſtolau,

At y Philippiaid.
At Philemon.
At y Coloſſiaid.
At yr Epheſiaid.

Heb. xiii. 24. 65. Rhyddhau S. Paul ynghŷlch diwedd y flwyddyn hon; ac ynref ychydig cyn ei ymadawiad o'r Eidal i Aſia, yn 'fgrifennu ei Epiſtol at yr Hebreaid.

Tit. i. 5. Yn pregethu 'r efengyl yn ynys Creta, ac yn gadel Titus yno i jawndrefnu pethau, a goſod henuriaid ym mhob dinas.

66. S. Paul yn 'fgrifennu ei Epiſtolau,
I. At Dimotheus.
At Titus.
II. At Dimotheus.

Ynghŷlch y pryd hyn mae 'n debyg, yr yſgrifennwyd Epiſtolau S. Pedr, S. Joan, a S. Sudd.

Euſeb. Hiſt. Eccl. l. 2. c. 24. 67. E ddywedir i S. Pedr a S. Paul ddioddef merthyrdod yn Rhufain tu a diwedd teyrnaſiad Nero.

Luc xix. 43, 44. 70. Titus y flwyddyn hon (yn ol prophwydoliaeth Criſt) yn gwarchae ar Jeruſalem, yn ei hennill, ei dinyſtrio, a'i lloſgi hi: difetha un cant ar ddeg o filoedd o'r Juddewon, dala dwy fil ar bymtheg a phedwar ugain mil yn garcharorion, heb law lliaws aneirif mewn mannau eraill o Judea a'i lladdafant eu hunain, neu a ddarfu am danynt trwy newyn, alldudaeth, a thrueni arall.

96. Domitianus yn deol S. Joan i ynys Patmos, lle mae 'n derbyn ac yn 'fgrifennu ei Ddadguddiad.

S. Joan, wedi marw Domitianus, yn dychwelyd i Epheſus, ac ar ddymuniad yr Eglwys yn 'fgrifennu ei Efengyl.

TABL Swyddau a Graddau Dynion.

Patriarch, neu *Dadau Teuluoedd*, megis *Abraham*, *Iſaac*, a *Jacob*, a'i Feibion.

Barnwyr, Goruchlywiawdwyr amſerol a oſodid yn ddigyfrwng gan Dduw ar blant *Iſrael*.

Brenhinoedd, a'r rheini naill ai ar yr holl Deyrnas, neu ynte wedi i'r deg llwyth gwympo ymmaith, ar *Juda* neu *Iſrael*.

Henuriaid, Seneddwyr, yLXX, neu 'r Sanedrin.

Swyddogion, Rhaglawiaid, Siryfod, neu Ddihenyddwyr.

Barnwyr, Iſlywiawdwyr, y cyfryw ag a farnent Amrafaelion mywn dinaſoedd neilldnol.

Iſraëliaid, Hebreaid, hiliogaeth Jacob.

Hebrëwr o'r Hebreaid; Iſraëliad wrth ei ddechreuad.

Proſelyt y Cyfammod, yr hwn a enwaedwyd ac a uſuddhaodd i'r Gyfraith.

Proſelyt y Porth, neu ddïeithr, yr hwn a addolai un Duw, eithr a arhoſai yn ddienwaededig.

Swyddogion dan Unbeniaid yr Aſſyriaid neu 'r Perſiaid.

Tirſatha, neu Lywiawdwr a oſodid gan Frenhinoedd *Aſſyria* neu *Berſia*.

Pennau 'r Gaethglud, Y pennaf o bob Llwyth neu Deulu, a frithlywodraethai tra parhaodd y Caethiwed.

Dan Unbenniaid y Groegiaid.

Goruchſwyddogion.

Maccabeaid, Gwrthddrychiaid *Judas Maccabëus*, Archoffeiriaid, a lywodraethent ag Awdurdod frenhinol.

Dan Ymerodron Rhufain.

Rhaglawiaid, neu Lywiawdwyr, a anfonid o *Rufain* ag Awdurdod ymerodrol.

Tetreirch, y rhai oedd ganddynt Awdurdod frenhinol mywn pedair Talaith.

Proconſuliaid, neu Raglawiaid Taleithau.

Is-Swyddogion.

Publicanod, neu Gaſglwyr Trethau.

Cannwriaid, neu Gapteniaid ar gant o Wŷr.

Swyddogion Eglwyſig, a Sectau o ddynion.

Archoffeiriaid, yr unig rai a allent fyned i'r Gyſſegr ſanctaiddiolaf.

Ail-Offeiriaid neu Sagan, a waſanaethent Swydd yr Archoffeiriad, o's byddai anallu arno.

Archoffeiriaid y Khyſel, a neillduid o achos Taith.

Offeiriaid, Leſiaid o Feibion *Aaron*, dosbarthedig yn bedwar dosbarth ar hugain, a waſanaethent yn y Deml bob wythnos yn eu cylch.

Leſiaid, o Lwyth *Leſi*, ond nid o Deulu *Aaron*; o'r rhain yr oedd tair Gradd, Gerſoniaid, Cohathiaid, a Merariaid: amryw feibion *Leſi*.

Nethiniaid, Rhagweiſion yr Offeiriaid a'r Leſiaid (nid o'i Llwyth) i dynnu dwſr a thorri cynnud, *&c.*

Prophwydi, a elwid yn yr hên amſer Gweledyddion, a ragfynegent bethau i ddyfod, ac a ddadganent farnedigaethau Duw.

Plant y Prophwydi, eu Diſgyblion neu eu Hyſgolheigion.

Doethion, a elwid felly mywn cyffelybiaeth i'r *Magi* o'r Dwyrain, neu 'r Philoſophyddion cenhedlig.

'*Sgrifennyddion*, a ſgrifennent ac a ddeonglent y Gyfraith.

Ymreſymwyr, a godent ac a derſynent Gweſtiynau o'r Gyfraith.

Rabbiniaid, neu *Ddoctoriaid*, Athrawon *Iſrael*.

Libertiniaid, Gwŷr rhyddion o *Rufain*, y rhai a hwynt yn Juddewon neu 'n Broſelytiaid, yr oedd ganddynt Synagog neu Dŷ gweddi iddynt eu hunain.

Gallonitiaid, neu, *Galileaid*, a gymmerent arnynt fod yn anghyfreithlon ufuddhau i Swyddog Cenhedlig.

Herodianiaid, a gyflunient eu Cretydd a'r amſeroedd, ac yn enwedig a wenhieithent i *Herod*.

Epicureaid, a oſodent eu holl ddedwyddwch mywn pleſerau.

Stoiciaid, a wadent rydid yr Ewyllys, ac a fynnent ddigwyddo pob peth wrth Anghenraid tynghedfennol.

Simon Magus, Awdwr Hereſi y *Gnoſticiaid* a ddyſgent y byddai dynion cadwedig wrth eu gwybodaeth, er cynddrwg fyddai eu harferion.

Nicolaiaid, Diſgyblon *Nicolas*, un o'r ſaith Diacon cyntaf, a ddyſgodd fod gwragedd yn gyffredin.

Nazareaid, y rhai dan adduned a ymgadwent oddi wrth win, *&c.*

Nazareniaid, Juddewon yn proffeſu Criſtianogrwydd.

Zelotiaid, *Sicarii*, Mwrddwyr a dybient fod ganddynt awdurdod i wneud pob anfad gyflafan, dan eſgus y Gyfraith.

Phariſeaid, Ymddidolwyr a ddiyſtyrent bawb eraill, o ran tyb am eu Sancteiddrwydd eu hunain.

Saduceaid, a wadent adgyfodiad y meirw, Engylion, ac Ysbrydion.

Samariaid, Proffeſwyr cymmyſg o Genhedloedd ac Juddewon, hiliogaeth yr Aſſyriaid a anfonwyd i *Samaria*.

Apoſtolion, Cenhadau neu Anfonedigion; hwynthwy a anfonwyd gan ein Hiachawdwr, herwydd ei rhif, a alwyd, *Y Deuddeg*.

Yſgobion, Gwrthddrychiaid yr Apoſtolion yn rhyolaeth yr Eglwys.

Diaconiaid, Swyddogion a ddewiſwyd gan yr Apoſtolion i ofalu am y Tlodion.

TABL AMSER.

1 A Bib, neu Niſan,	*Mawrth*, *Ebrill*.	7 Ethanim, neu, Tiſri,	*Medi*, *Hydref*.
2 Zif neu Jair,	*Ebrill*, *Mai*.	8 Bul, neu, Marcheſuan,	*Hydref*, *Tachwedd*.
2 Siſan,	*Mai*, *Meheſin*.	9 Ciſleu,	*Tachwedd*, *Rhagfyr*.
4 Tamuz,	*Meheſin*, *Gorphennaf*.	10 Tebeth,	*Rhagfyr*, *Ionor*.
5 Ab,	*Gorphennaf*, *Awſt*.	11 Shebeth,	*Ionor*, *Chwefror*.
6 Elul,	*Awſt*, *Medi*.	11 Adar, neu Ucadar,	*Chwefror*, *Mawrth*.

Dyddiau 'r Wythnos.

Y Dydd 1 o'r wythnos,	*Dydd Sul.*
Yr 2 Dydd,	*Dydd Llun.*
Y 3 Dydd,	*Dydd Mawrth.*
Y 4 Dydd,	*Dydd Merchur.*
Y 5 Dydd,	*Dydd Iou.*
Y 6 Dydd,	*Dydd Gwener.*
Y 7 Dydd, neu 'r Sabbath,	*Dydd Sadwrn.*

Oriau 'r Dydd.

YR Awr 1,	o 6 *ar gloch i* 7 *y bore.*
Yr 2 Awr,	o 7 *i* 8 *y bore.*
Y 3 Awr,	o 8 *i* 9 *y bore.*
Y 4 Awr,	o 9 *i* 10 *y bore.*
Y 5 Awr,	o 10 *i* 11 *y bore.*
Y 6 Awr,	o 11 *i* 12 *y bore.*
Y 7 Awr,	o 12 *i* 1 *brydnhawn.*
Yr 8 Awr,	o 1 *i* 2 *brydnhawn.*
Y 9 Awr,	o 2 *i* 3 *brydnhawn.*
Y 10 Awr,	o 3 *i* 4 *brydnhawn.*
Yr 11 Awr,	o 4 *i* 5 *brydnhawn.*
Y 12 Awr,	o 5 *i* 6 *brydnhawn.*

Gwiliadwriaethau.

YWiliadwriaeth gyntaf, *o'r Hwyr hyd naw ar gloch o nos.*

Yr ail neu 'r ganol, *o naw hyd hanner nos.*

Y drydedd neu Ganiad y ceiliog, *o hanner nos hyd dri ar gloch y bore.*

Y bedwaredd neu 'r Wiliadwriaeth fore, *o dri hyd y bore.*

DIWEDD.